# YMDDIRIEDOLAETH NANT GWRTHEYRN

England & Wales · Charity number 1078543

## Details

| | |
|---|---|
| **Other names** | NANT GWRTHEYRN |
| **Status** | Registered |
| **Legal form** | Charitable company |
| **Company number** | 03865538 |
| **Registered** | 1999-12-10 |
| **Register** | View on the Charity Commission register |

## Contact

| | |
|---|---|
| **Address** | Canolfan Iaith A Threftadaeth Cymru<br>Llithfaen<br>Pwllheli<br>Gwynedd<br>LL53 6NL |
| **Phone** | 01758750334 |
| **Email** | post@nantgwrtheyrn.org |
| **Website** | www.nantgwrtheyrn.org |

## Activities

**Objects:** TO FOSTER EDUCATION IN WALES AND TO ADVANCE THE EDUCATION OF THE PUBLIC IN AND THE STUDY OF WELSH LANGUAGE, LITERATURE AND CULTURE, SUCH FUNCTIONS TO BE CARRIED OUT MAINLY IN AN APPROPRIATE CENTRE OF CENTRES (RESIDENTIAL OR NON-RESIDENTIAL) TO BE ESTABLISHED AND MAINTAINED BY THE CHARITY IN WALES

**Activities:** CANOLFAN IAITH A THREFTADAETH CYMRU/ NATIONAL WELSH LANGUAGE AND HERITAGE CENTREDYSGU CYMRAEG I OEDOLION/ TEACHES WELSH TO ADULTSCANOLFAN TREFTADAETH SY'N DEHONGLI HANES Y CWM , Y CHWARELI YN OES FICTORIA A'R IAITH CYMRAEG/HERITAGE CENTRE PRESENTS DISPLAYS ON THE HISTORY OF THE VALLEY, THE VICTORIAN QUARRIES AND WELSH LANGUAGE

Downloaded from opencharities.uk/ew/1078543

## Classification

- **How:** Provides Services, Provides Advocacy/advice/information
- **What:** Education/training, Arts/culture/heritage/science, Environment/conservation/heritage
- **Who:** The General Public/mankind

## Geography

- **Area of benefit:** NOT DEFINED BUT IN PRACTICE WALES
- Gwynedd

## Finances

| Period end | Income | Expenditure | Assets | Employees |
|---|---|---|---|---|
| 2024-12-31 | £1,929,422 | £1,879,621 | £4,056,552 | 34 |
| 2023-12-31 | £1,541,717 | £1,547,507 | £4,035,963 | 41 |
| 2022-12-31 | £1,529,497 | £1,438,409 | £4,041,753 | 27 |
| 2021-12-31 | £1,649,279 | £1,268,120 | £3,950,665 | 34 |
| 2020-12-31 | £875,995 | £1,027,881 | £3,569,506 | 28 |

## Trustees

| Name | Role | Appointed |
|---|---|---|
| **MR HUW JONES** | Chair | |
| Elinor Ann Hughes | | 2021-03-23 |
| Garfield Lloyd Lewis | | 2022-08-18 |
| Joanne Iwan | | 2020-10-12 |
| Martyn James Croydon | | 2022-08-18 |
| Rhiannon Ceiri | | 2022-08-18 |
| WILLIAM GWYN JONES | | 2023-06-24 |

Downloaded from opencharities.uk/ew/1078543

**YMDDIRIEDOLAETH NANT GWRTHEYRN**

England & Wales - Charity number 1078543

# Accounts

**RHIF CWMNI COFRESTREDIG: 03865538 (Cymru)**
**RHIF ELUSEN GOFRESTREDIG: 1078543**

# Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a Datganiadau ariannol wedi eu harchwilio, ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2024

**ar gyfer**

**Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn**

**(Cwmni cyfyngedig drwy warant)**

**Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn**

**Cynnwys y datganiadau ariannol**
**ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2024**


| | Tudalen |
|---|---|
| **Adroddiad y Cadeirydd** | 1 |
| **Adroddiad yr Ymddiriedolwyr** | 2 i 5 |
| **Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol** | 6 i 9 |
| **Datganiad o Weithgareddau Ariannol** | 10 |
| **Mantolen** | 11 i 12 |
| **Datganiad Llif Arian** | 13 |
| **Nodiadau i'r Datganiad Llif Arian** | 14 |
| **Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol** | 15 i 26 |
| **Datganiad Manwl o Weithgareddau Ariannol** | 27 i 29 |

**Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn**

**Adroddiad y Cadeirydd**
**ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2024**

Mae gwaith yr Adran Addysg wedi mynd o nerth i nerth, gyda chynnydd trawiadol yn y nifer o gyrsiau a gynhelir, yn arbennig ein cyrsiau Cymraeg Gwaith. Mae adborth y dysgwyr i'r cyrsiau yn gyson uchel. Bellach mae tri chwrs yr wythnos yn cael eu cynnal yn gyfredol sy'n gwneud cyfraniad pwysig i leihau'r rhestr aros. Yn 2025 rhoddir pwyslais ychwanegol ar gyflenwi'r galw am hyfforddiant iaith o fewn y sector addysg ar draws Cymru.

Fel erioed, mae ein gwaith addysgol yn cael ei gefnogi gan incwm a gynhyrchir trwy estyn croeso i'r rhai sydd am ddod atom i gynnal gwasanaeth priodas neu gynhadledd. Bu'r galw ychydig yn is nag yn y ddwy flynedd flaenorol.

Bu buddsoddiad sylweddol mewn systemau technoleg gwybodaeth. Mae hyn yn hwyluso'r gwaith o dderbyn archebion llety ac yn ei gwneud hi'n haws i ni gynnig mwy o'r unedau llety i'w gwerthu i'r cyhoedd pan nad oes cyrsiau neu ddigwyddiadau eraill yn cael eu cynnal.

Yn dilyn cais llwyddiannus am gymorth ariannol gan gynllun TWIG Llywodraeth Cymru, a weinyddir gan Gronfa Treftadaeth y Loteri, bu gwaith mawr ar droed i dorri'r mwyafrif o'r coed pîn ar y safle ac ail-blannu coed cysefin yn eu lle. Bydd y cynllun hefyd yn darparu llwybrau newydd i'w mwynhau gan y cyhoedd ac ystafell ddosbarth waliau agored.

Trosiant y cwmni yn 2024 oedd £1,900,210 (2023: £1,541,717). Ar ôl tynnu dibrisiant, dangosir elw am y flwyddyn o £20,589 (2023: colled o £5,790).

Y nifer a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn oedd:

| | |
|---|---|
| Swyddi parhaol, lleiafswm 3 diwrnod yr wythnos: | 26 |
| Swyddi parhaol, llai na 3 diwrnod yr wythnos: | 5 |
| Swyddi achlysurol (cyfartaledd 10.5 awr yr wythnos): | 20 |
| **Cyfanswm:** | **51** |

Rydym yn falch o'r cyfraniad sylweddol i gyflogaeth yn yr ardal a wneir gan weithgareddau'r Ganolfan.

Er hynny, ni fu'n flwyddyn hawdd i'r staff, gyda mwy nag un newid o ran y prif swyddi rheoli. Rydym yn ddiolchgar iddynt oll am eu hymroddiad i waith y Ganolfan. Ym mis Mawrth 2025 penodwyd Siwan Tomos yn Brif Weithredwr a chychwynnodd ar ei swydd ym mis Ebrill. Bydd sicrhau perthynas gydweithredol ac effeithiol rhwng Rheolwyr, Bwrdd a Staff yn flaenoriaeth ganddi er mwyn sicrhau bod y defnydd gorau posibl yn cael ei wneud o'r adnoddau a'r lleoliad arbennig y mae gennym y fraint o fod yn gyfrifol amdano.

Yn ogystal â'r cynlluniau i ehangu ym maes addysg ein prif obeithion yn 2025 yw cwblhau'r Cynllun Coed, a chychwyn ar gynlluniau i adnewyddu Caffi Meinir ynghyd â rhai o'r unedau llety. Cynhelir mwy o ddigwyddiadau sy'n denu'r cyhoedd i ymweld. Byddwn yn cwblhau adolygiad o'n dulliau o ddefnyddio ac arbed ynni ac yn dechrau ar raglen o welliannau iddynt.

Tristwch mawr oedd derbyn y newyddion yn ystod y flwyddyn am farwolaeth Heulwen Richards, gynt o Fae Trearddur, Ynys Môn. Bu Heulwen yn gefnogwr hynod o hael i'r Nant ar hyd y blynyddoedd ac mae'n fwriad cofnodi ei haelioni mewn modd priodol maes o law.

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Bwrdd am eu cyfraniadau a'u cefnogaeth yn ystod y flwyddyn gan edrych ymlaen at groesawu penodi aelodau newydd yn y Cyfarfod Blynyddol.

**Huw Jones**
Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth - Mehefin 2025

**Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn**

**Adroddiad yr Ymddiriedolwyr**
**ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2024**

Mae'r ymddiriedolwyr, sydd hefyd yn gyfarwyddwyr yr elusen at ddibenion Deddf Cwmnïau 2006, yn cyflwyno eu hadroddiad gyda datganiadau ariannol yr elusen am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Rhagfyr 2024. Mae'r ymddiriedolwyr wedi mabwysiadu darpariaethau Cyfrifeg ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad o Ymarfer a Argymhellir sy'n berthnasol i elusennau sydd yn paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (daeth i rym 1 Ionawr 2019).

**AMCANION A GWEITHGAREDDAU**

**Amcanion ac amcanion**

Pwrpas Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn, y cwmni, yw hyrwyddo a meithrin addysg a hyfforddiant yr iaith, diwylliant a llenyddiaeth Gymraeg, yng Nghymru. Mae'r cwmni'n cael ei redeg yn bennaf yn y Ganolfan Genedlaethol Iaith a Threftadaeth yn Nant Gwrtheyrn, ger Llithfaen, ond weithiau cynhelir gweithgareddau mewn canolfannau eraill pan fo angen.

**Budd y cyhoedd**

Mae'r ymddiriedolwyr yn cadarnhau eu bod wedi cydymffurfio â'r dyletswyddau a nodir yn adran 17(5) o Ddeddf Elusennau 2011, sef rhoi sylw dyledus i'r canllawiau budd cyhoeddus a gyhoeddir gan y Comisiwn Elusennau.

**ADOLYGIAD ARIANNOL**

**Sefyllfa ariannol**

Daeth y cwmni elusennol i ddiwedd y flwyddyn gyda gwarged o incwm dros wariant o £20,589 (2023: gwariant uwch nag incwm o £5,790).

**Prif ffynonellau ariannu**

Daeth prif ffynhonnell ariannu yr amcanion elusennol o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, gyda defnydd strategol o asedau a lleoliad y cwmni yn ategu hyn. h.y. yn ogystal â ac mewn cefnogaeth i'r prif amcanion, cynhaliwyd rhai gweithgareddau masnachol cyfyngedig, gyda'r gweithgareddau hyn yn cynnwys gweithredu Caffi Meinir, defnyddio'r safle fel lleoliad priodas, a phan fydd lle yn caniatáu, rhywfaint o osod fel llety gwyliau cyfyngedig.

**Polisi wrth gefn**

Polisi'r cwmni yw cynnal cronfa wrth gefn ddigonol, er mwyn ei alluogi i gyflawni ei amcanion elusennol, bodloni ei ofynion beunyddiol parhaus, a chronni digon o arian i gynnal ac uwchraddio'r cyfleusterau y mae'n gweithredu ohonynt. Nôd y polisi wrth gefn presennol yw cynnal gwarchodfa sy'n cyfateb i bedwar mis o'r costau rhedeg presennol.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, roedd cyfanswm y cronfeydd arian yn dod i £4,056,552 (2023: £4,035,963), ac roedd y cronfeydd rhydd wrth gefn, sydd yn eithrio asedau sefydlog a chronfeydd cyfyngedig, yn dod i £541,295 (2023: £593,347), gyda hyn yn dod i oddeutu pedwar mis o'r gwariant a wnaethpwyd yn y flwyddyn gyfredol.

**STRWYTHUR, LLYWODRAETHU A RHEOLI**

**Dogfen lywodraethol**

Rheolir y cwmni elusennol gan ei ddogfennau llywodraethu, ei Femorandwm a'i Erthyglau Cymdeithasu, dyddiedig 21 Hydref 1999, a ddiwygiwyd 5 Gorffennaf 2023. Cwblhawyd y cofrestriad gyda'r Comisiwn Elusennau ar 10 Rhagfyr 1999. Felly mae'n gwmni cyfyngedig elusennol, sydd yn gyfyngedig drwy warant, fel y diffinnir gan Ddeddf Cwmnïau 2006, ac mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn unol â gofynion sydd yn berthnasol i gwmni elusennol.

**Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn**

**Adroddiad yr Ymddiriedolwyr**
**ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2024**

## STRWYTHUR, LLYWODRAETHU A RHEOLI

### Strwythur sefydliadol

Bwrdd yr ymddiriedolwyr sydd yn penderfynu ar bolisi a chyfeiriad cyffredinol y cwmni, ond dirprwyir y rheolaeth o ddydd i ddydd i'r Prif Weithredwr. Mae'r bwrdd felly yn ystyried mai personél rheoli allweddol yr elusen yw'r Prif Weithredwr a'r rheolwyr adrannol.

### Sefydlu a hyfforddi ymddiriedolwyr newydd

Mae aelodaeth y cwmni yn agored i unrhyw unigolyn neu gorff sydd â diddordeb mewn hyrwyddo ei amcanion, sy'n gwneud cais i'r cwmni elusennol yn y ffurflen briodol ac yn derbyn cymeradwyaeth y bwrdd ymddiriedolwyr.

Mae gan y cwmni broses i sefydlu ymddiriedolwyr newydd. Etholir aelodau a swyddogion i'r bwrdd yn y Cyfarfod Blynyddol. Yr ymddiriedolwyr (y bwrdd), a all ddim fod yn fwy nag 12 mewn nifer, sydd yn rheoli'r cwmni, ei eiddo a'i arian. Mae gan y bwrdd hawl i gyfethol aelodau sydd â gwybodaeth neu ddiddordeb arbennig mewn maes perthnasol. Bydd unrhyw strategaethau a fabwysiadwyd yn cael eu gweithredu gan y staff. Cynhelir cyfarfodydd o leiaf bedair gwaith y flwyddyn.

Mae asesiad risg llawn ar gyfer Iechyd a Diogelwch wedi'i gwblhau.

## MANYLION CYFEIRIO A GWEINYDDOL

### Rhif cwmni cofrestredig

03865538 (Cymru)

### Rhif Elusen Gofrestredig
**1078543**

### Swyddfa gofrestredig

Canolfan Nant Gwrtheyrn
Nant Gwrtheyrn
Llithfaen
Pwllheli
Gwynedd
LL53 6NL

### Ymddiriedolwyr

| | |
|---|---|
| Ms R Ceiri | Dylunydd |
| Mr M J Croydon | Darlithydd |
| Mrs G Griffith | Rheolwr-Gyfarwyddwr (ymadawedig 1.7.24) |
| Mrs E A Hughes | Dylunydd Mewnol |
| Mrs J Iwan | Cyfarwyddwr Cwmni |
| Mr W G Jones | Wedi Ymddeol |
| Mrs E M Jones | Prif Reolwr (ymddiswyddo 7.12.24) |
| Mr D H Jones | Ymgynghorydd |
| Mr G L Lewis | Cyfarwyddwr |
| Dr Greg Stevenson | Cyfarwyddwr (penodi 1.7.24 ymddiswyddo 7.12.24) |

### Ysgrifennydd y Cwmni

Mrs P M Ellis (ymddiswyddo 1.7.24)
Mr G L Lewis (penodi 1.7.24)

**MANYLION CYFEIRIO A GWEINYDDOL**
**Prif Archwilydd Statudol**
David Chidley

**Archwiliwr**
WJ Matthews a'i fab
11-15 Y Bont Bridd
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1AB

**Cyfreithwyr**
Ellis Davies & Co
27 Stryd Bangor
Caernarfon
Gwynedd

**DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R YMDDIRIEDOLWYR**
Mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn at ddibenion cyfraith cwmnïau) yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifeg a Dderbynnir yn Gyffredinol y Deyrnas Unedig) gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102 "Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon".

Mae cyfraith cwmnïau yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg o gyflwr materion y cwmni elusennol ac adnoddau sy'n dod i mewn a'u cymhwyso, gan gynnwys incwm a gwariant, y cwmni elusennol am y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hynny, mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr:

- dewis polisïau cyfrifyddu addas ac yna eu cymhwyso'n gyson;
- dilyn y dulliau a'r egwyddorion yn yr SORP Elusennol;
- llunio barn ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddarbodus;
- paratoi'r datganiadau ariannol ar y sail y bydd parhad fel cwmni byw, oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y cwmni elusennol yn parhau mewn busnes.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n datgelu sefyllfa ariannol y cwmni elusennol yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg ac i'w galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r cwmni elusennol ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a datgelu twyll ac afreoleidd-dra eraill.

I'r graddau y mae'r ymddiriedolwyr yn ymwybodol:

- nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y cwmni elusennol yn ymwybodol ohoni; a

- bod yr ymddiriedolwyr wedi cymryd pob cam y dylent fod wedi'i gymryd i wneud eu hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

**ARCHWILWYR**
Bydd yr archwiliwr, WJ Matthews a'i fab, yn cael eu cynnig i'w hailbenodi yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol eleni.

Cymeradwywyd drwy orchymyn y bwrdd ymddiriedolwyr ar ............................................

Llofnodwyd ar ei ran gan:

.........................................................
Mr G L Lewis - Ysgrifennydd

**Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i Aelodau Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn**

**Barn**
Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn (y 'cwmni elusennol') ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2024 sy'n cynnwys y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian a nodiadau'r datganiadau ariannol, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Yr Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig), gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102 'Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon'.

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa materion y cwmni elusennol ar 31 Rhagfyr 2024 ac o'i adnoddau sy'n dod i mewn a'r defnydd o adnoddau, gan gynnwys ei incwm a'i wariant, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;

- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â'r Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102 'Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon'; ac

- wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

**Sail y farn**
Cynhaliwyd ein harchwiliad gennym yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) (ISAs (DU)) a chyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn yr adran cyfrifoldebau'r Archwilwyr am archwilio datganiadau ariannol yn ein hadroddiad. Rydym yn annibynnol o'r cwmni elusennol yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol yr FRC, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer ein barn.

**Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol**
Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rydym wedi dod i'r casgliad bod defnydd yr ymddiriedolwyr o'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rydym wedi'i gyflawni, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd sylfaenol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad pryd bydd y datganiadau ariannol yn cael eu hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir ein cyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

**Gwybodaeth arall**
Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am yr wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol, ac eithrio'r datganiadau ariannol a'n hadroddiad fel Archwilwyr Annibynnol arnynt.

Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir fel arall yn benodol yn ein hadroddiad, nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arnynt.

**Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i Aelodau**
**Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn**

**Gwybodaeth arall** - parhad
Mewn cysylltiad â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylfaenol anghyson â'r datganiadau ariannol neu a yw'n ymddangos bod ein gwybodaeth a gafwyd yn yr archwiliad neu fel arall wedi'i chamddatgan yn sylfaenol. Os byddwn yn nodi anghysondebau sylfaenol o'r fath neu gamddatganiadau sylfaenol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i ni benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad sylfaenol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddwn yn dod i'r casgliad, yn seiliedig ar y gwaith rydym wedi'i wneud, bod camddatganiad sylfaenol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i ni adrodd y ffaith honno. Nid oes gennym ddim i'w adrodd yn y cyswllt hwn.

**Barn ar faterion eraill a ragnodir gan Ddeddf Cwmnïau 2006**
Yn ein barn ni, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddwyd yn Adroddiad yr Ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol; ac

- mae Adroddiad yr Ymddiriedolwyr wedi cael ei baratoi yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

**Materion y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt drwy eithriad**
Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r cwmni elusennol a'i amgylchedd a sicrhawyd yn ystod yr archwiliad, nid ydym wedi nodi camddatganiadau sylfaenol yn Adroddiad yr Ymddiriedolwyr.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol lle mae Deddf Cwmnïau 2006 yn datgan ei bod yn ofynnol i ni adrodd i chi os, yn ein barn ni:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol neu ni dderbyniwyd ymatebion digonol ar gyfer ein harchwiliad gan ganghennau nad ydym wedi ymweld â hwy; neu

- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu

- nid yw rhai datgeliadau o dâl ymddiriedolwyr a bennir gan y gyfraith yn cael eu gwneud; neu

- nid ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd arnom eu hangen ar gyfer ein harchwiliad; neu

- nid oedd hawl gan yr ymddiriedolwyr i fanteisio ar yr eithriad cwmnïau bach o'r gofyniad i baratoi Adroddiad Strategol neu wrth baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr.

**Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr**
Fel yr eglurir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr, yr ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni elusennol at ddibenion y gyfraith cwmnïau) sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn cyflwyno darlun cywir a teg, ac am unrhyw reolaeth fewnol o'r fath y mae'r ymddiriedolwyr yn penderfynu sy'n angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau sylfaenol, boed hynny drwy dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel sy'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail busnes gweithredol i gyfrifyddu oni bai bod yr ymddiriedolwyr naill ai'n bwriadu diddymu'r cwmni elusennol neu roi'r gorau i weithredu, neu os nad oes ganddynt ddewis arall realistig heblaw am wneud hynny.

**Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i Aelodau**
**Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn**

**Ein cyfrifoldebau am archwilio'r datganiadau ariannol**
Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau sylfaenol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad sylfaenol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu gamgymeriad ac maent yn cael eu hystyried yn sylfaenol os gellid, yn unigol neu ar y cyd, rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Manylir isod ar i ba raddau mae ein gweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll:

**Adnabod ac asesu risgiau posibl yn ymwneud ag afreoleidd-dra**
Wrth adnabod ac asesu risgiau camddatganiad sylfaenol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll a diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, aethom ati i ystyried y canlynol:

**Adnabod ac asesu risgiau posibl:**

- natur y diwydiant a'r sector, yr amgylchedd rheoli a pherfformiad busnes.

- canlyniadau ein hymholiadau i reolwyr, a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, ynghylch eu gwaith eu hunain i adnabod ac asesu risgiau afreoleidd-dra.

- unrhyw faterion a nodwyd gennym ar ôl derbyn ac adolygu gwybodaeth y cwmni elusennol am ei bolisïau a'i weithdrefnau sy'n ymwneud ag:

    - adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oedd yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio.

    - canfod ac ymateb i risgiau o dwyll ac a oedd yn gwybod am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth o dwyll neu dwyll honedig.

    - y mesurau rheoli mewnol sydd wedi'u sefydlu i liniaru risgiau o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau; ac

    - unrhyw faterion a drafodwyd ymhlith tîm ymgysylltu'r archwiliad, gan gynnwys, os yw'n berthnasol, arbenigwyr allanol, unrhyw dreth neu brisiadau eraill nodedig, ac ati.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, aethom ati i ystyried y cyfleoedd a'r cymhellion a all fodoli o fewn y cwmni elusennol ar gyfer twyll a nodi'r potensial mwyaf i dwyll fod mewn perthynas â chydnabod refeniw, gyda gweithdrefnau penodol yn cael eu cyflawni yma. Yn ogystal, ac yn gyffredin â phob archwiliad o dan ISAs (DU), mae hefyd yn ofynnol i ni gyflawni gweithdrefnau penodol i ymateb i'r risg o ddiystyru rheolwyr.

Sicrhawyd dealltwriaeth gennym hefyd o'r fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol y mae'r cwmni elusennol yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar ddarpariaethau'r cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar bennu symiau a datgeliadau sylfaenol yn y datganiadau ariannol. Roedd y cyfreithiau a'r rheoliadau allweddol a ystyriwyd gennym yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Deddf Cwmnïau 2006, UK GAAP ac unrhyw gyfreithiau a rheoliadau eraill nad ydynt efallai'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol, ond y gallai cydymffurfiaeth â hwy fod yn sylfaenol i allu'r cwmni elusennol i weithredu neu i osgoi cosb faterol.

**Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i Aelodau**
**Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn**

**Ymateb yr archwiliad i risgiau a nodwyd**
Roedd ein gweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau'r datganiadau ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â darpariaethau'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol y disgrifir eu bod yn cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol.

- holi'r rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl.

- cwblhau gweithdrefnau dadansoddol i nodi unrhyw berthnasoedd anarferol neu annisgwyl a all ddynodi risgiau o gamddatganiad sylfaenol oherwydd twyll.

- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a holi am unrhyw ohebiaeth neu faterion a godwyd gyda chyrff rheoleiddio perthnasol.

- sicrhau dealltwriaeth, drwy drafodaethau gyda'r rheolwyr, o'r sail ar gyfer cydnabod incwm; ac

- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy i reolwyr ddiystyru mesurau rheoli, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion sylweddol sy'n anarferol neu y tu hwnt i gwrs arferol y busnes.

Aethom ati hefyd i gyfleu cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau twyll posibl i bob aelod o'r tîm ymgysylltu, ac roeddem yn gyson effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Ceir disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol.

**Defnydd o'n hadroddiad**
Mae'r adroddiad hwn yn cael ei wneud i aelodau'r cwmni elusennol yn unig, fel corff, yn unol â Phennod 3 o Ran 16 Deddf Cwmnïau 2006. Mae ein gwaith archwilio wedi cael ei gwblhau er mwyn i ni allu datgan i aelodau'r cwmni elusennol y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan iddynt mewn adroddiad archwilwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau llawnaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn ysgwyddo cyfrifoldeb i unrhyw un ac eithrio'r cwmni elusennol ac aelodau'r cwmni elusennol fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, ac am y farn a ffurfiwyd gennym.

David Chidley
(Prif Archwilydd Statudol)
ar gyfer ac ar ran

WJ Matthews a'i fab
Archwilwr Statudol
11-15 Y Bont Bridd
Caernarfon
Gwynedd. LL55 1AB

Dyddiad: ............................................

**Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn**

**Datganiad o weithgareddau ariannol**
**(Yn cynnwys cyfrif incwm a gwariant)**
**ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2024**

| | Nodyn | Cronfa Anghyfyngedig £ | Cronfa Cyfyngedig £ | **31.12.24 Cyfanswm Cronfeydd £** | 31.12.23 Cyfanswm Cronfeydd £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **INCWM A GWADDODION O** | | | | | |
| Rhoddion a chymynroddion | 2 | **4,434** | **-** | **4,434** | 12,644 |
| **Gweithgareddau elusennol** | 5 | | | | |
| Addysg a hyfforddiant | | **734,456** | **85,543** | **819,999** | 619,998 |
| Gweithgareddau masnachu eraill | 3 | **992,606** | **-** | **992,606** | 876,962 |
| Incwm buddsoddi | 4 | **24,778** | **-** | **24,778** | 22,357 |
| Incwm arall | | **58,393** | **-** | **58,393** | 9,756 |
| **Cyfanswm** | | **1,814,667** | **85,543** | **1,900,210** | 1,541,717 |
| **GWARIANT AR** | | | | | |
| Codi arian | 6 | **272,295** | **-** | **272,295** | 265,681 |
| **Gweithgareddau elusennol** | 7 | | | | |
| Addysg a hyfforddiant | | **1,446,570** | **7,938** | **1,454,508** | 1,141,980 |
| Arall | | **147,923** | **4,895** | **152,818** | 139,846 |
| **Cyfanswm** | | **1,866,788** | **12,833** | **1,879,621** | 1,547,507 |
| **INCWM NET/(GWARIANT)** | | **(52,121)** | **72,710** | **20,589** | (5,790) |
| **CYMODI CRONFEYDD** | | | | | |
| Cyfanswm y cronfeydd a ddaeth ymlaen | | **3,806,233** | **229,730** | **4,035,963** | 4,041,753 |
| **CYFANSWM YR ARIAN A GARIWYD YMLAEN** | | **3,754,112** | **302,440** | **4,056,552** | 4,035,963 |

**GWEITHREDIADAU PARHAUS**
Mae'r holl incwm a gwariant wedi codi o weithgareddau parhaus.

**Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn**

**Mantolen**
**31 Rhagfyr 2024**

| | Nodyn | Cronfa Anghyfyngedig £ | Cronfa Cyfyngedig £ | **31.12.24 Cyfanswm Cronfeydd £** | 31.12.23 Cyfanswm Cronfeydd £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **ASEDAU SEFYDLOG** | | | | | |
| Asedau gweladwy | 13 | **3,212,817** | **72,710** | **3,285,527** | 3,212,885 |
| **Buddsoddiadau** | | | | | |
| Buddsoddiad mewn is-gwmni | 14 | **100** | **-** | **100** | 100 |
| Eiddo buddsoddiadol | 15 | **-** | **229,730** | **229,730** | 229,730 |
| | | **3,212,917** | **302,440** | **3,515,357** | 3,442,715 |
| **ASEDAU CYFREDOL** | | | | | |
| Stoc wrth law | 16 | **17,516** | **-** | **17,516** | 10,412 |
| Dyledwyr | 17 | **102,619** | **-** | **102,619** | 60,898 |
| Arian mewn llaw ac yn y banc | | **923,225** | **-** | **923,225** | 979,224 |
| | | **1,043,360** | **-** | **1,043,360** | 1,050,534 |
| **CREDYDWYR** | | | | | |
| Symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn | 18 | **(397,228)** | **-** | **(397,228)** | (345,695) |
| **ASEDAU CYFREDOL NET** | | **646,132** | **-** | **646,132** | 704,839 |
| **CYFANSWM ASEDAU, LLAI CREDYDWYR CYFREDOL** | | **3,859,049** | **302,440** | **4,161,489** | 4,147,554 |
| **CREDYDWYR** | | | | | |
| Symiau'n ddyledus mewn mwy na deuddeg mis | 19 | **(104,937)** | **-** | **(104,937)** | (111,591) |
| **ASEDAU NET** | | **3,754,112** | **302,440** | **4,056,552** | 4,035,963 |
| **CRONFEYDD** | 23 | | | | |
| Cronfeydd anghyfyngedig | | | | **3,754,112** | 3,806,233 |
| Cronfeydd cyfyngedig | | | | **302,440** | 229,730 |
| **CYFANSWM Y CRONFEYDD** | | | | **4,056,552** | 4,035,963 |



Parhau...

**Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn**

**Mantolen - parhad**
**31 Rhagfyr 2024**

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi'u paratoi yn unol â'r darpariaethau sy'n berthnasol i gwmnïau elusennol bach, yn unol a'r darpariaethau arbennig yn rhan 15 o'r Ddeddf Cwmnïau 2006.

Cytunwyd ar y datganiadau ariannol gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ac awdurdodwyd eu cyhoeddi ar................................ ac fe'i llofnodwyd ar ran y Bwrdd gan:

.............................................
Mr D H Jones - Ymddiriedolwr



Parhau...

**Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn**

**Datganiad Llif Arian**
**ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2024**

| | Nodyn | 31.12.24 £ | 31.12.23 £ |
|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredol** | | | |
| Arian a gynhyrchwyd o weithrediadau | i | **238,462** | 109,070 |
| Llog a dalwyd | | **(11,646)** | (15,520) |
| Arian net a ddarperir gan weithgareddau gweithredu | | **226,816** | 93,550 |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Pryniant o asedau sefydlog gweladwy | | **(225,460)** | (102,999) |
| Llog a dderbyniwyd | | **24,778** | 22,357 |
| Arian net a ddefnyddir mewn gweithgareddau buddsoddi | | **(200,682)** | (80,642) |
| **Llif arian o weithgareddau ariannu** | | | |
| Ad-daliadau benthyciadau yn y flwyddyn | | **(82,133)** | (77,869) |
| Arian net a ddefnyddir mewn gweithgareddau ariannu | | **(82,133)** | (77,869) |
| **Newid mewn arian parod a chyfwerthiannau parod yn y cyfnod adrodd** | | **(55,999)** | (64,961) |
| **Arian parod a chyfwerthiadau arian ar ddechrau'r cyfnod adrodd** | | **979,224** | 1,044,185 |
| **Arian parod a chyfwerthiadau arian ar ddiwedd y cyfnod adrodd** | | **923,225** | 979,224 |

**Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn**

**Nodiadau i'r Llif Arian**
**ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2024**

## (i). CYSONI (GWARIANT) / INCWM NET I LIF ARIAN NET O WEITHGAREDDAU GWEITHREDOL

| | **31.12.24** | 31.12.23 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| **Incwm/(gwariant) net ar gyfer y cyfnod adrodd (yn unol â'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol)** | **20,589** | (5,790) |
| **Newidiadau am:** | | |
| Costau dibrisiant | **152,818** | 139,846 |
| Llog a dderbyniwyd | **(24,778)** | (22,357) |
| Llog a dalwyd | **11,646** | 15,520 |
| (Cynnydd)/Lleihad mewn stoc | **(7,104)** | 6,046 |
| Cynnydd mewn dyledwyr | **(41,721)** | (18,400) |
| Cynnydd/(Lleihad) mewn credydwyr | **127,012** | (5,795) |
| **Arian net a ddarperir gan weithrediadau** | **238,462** | 109,070 |

## (ii). DADANSODDIAD O NEWIDIADAU MEWN CRONFEYDD NET

| | Ar 1.1.24 | Llif arian | **Ar 31.12.24** |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | **£** |
| **Arian net** | | | |
| Arian mewn llaw ac yn y banc | 979,224 | (55,999) | 923,225 |
| | 979,224 | (55,999) | 923,225 |
| **Benthyciadau** | | | |
| Yn daliadwy o fewn blwyddyn | (91,545) | 75,479 | (16,066) |
| Yn daliadwy mewn mwy na blwyddyn | (111,591) | 6,654 | (104,937) |
| | (203,136) | 82,133 | (121,003) |
| **Cyfanswm** | **776,088** | **26,134** | **802,222** |

## 1. POLISÏAU CYFRIFO

**Sail paratoi'r datganiadau ariannol**
Paratowyd datganiadau ariannol y cwmni elusennol, sy'n endid budd cyhoeddus oddi tan FRS 102, yn unol â'r SORP Elusennol (FRS 102) 'Cyfrifeg ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad o Ymarfer a Argymhellir sy'n berthnasol i elusennau sydd yn paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (daeth i rym 1 Ionawr 2019)', Safon Adrodd Ariannol 102 'Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon' a Deddf Cwmnïau 2006. Paratowyd y datganiadau ariannol oddi tan y confensiwn cost hanesyddol, ac eithrio buddsoddiadau sydd wedi'u cynnwys ar werth y farchnad. Nid oedd ansicrwydd ynghylch a all yr elusen i barhau mewn busnes.

**Paratoi datganiadau ariannol cyfunol**
Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys gwybodaeth am Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn fel cwmni unigol ac nid ydynt yn cynnwys gwybodaeth ariannol gyfunol fel rhiant i grŵp. Mae'r elusen wedi'i heithrio o dan Adran 399(2A) o Ddeddf Cwmnïau 2006 o'r gofynion i baratoi datganiadau ariannol cyfunol.

**Dyfarniadau cyfrifeg beirniadol a ffynonellau allweddol o ansicrwydd amcangyfrif**
Wrth baratoi'r adroddiadau ariannol, mae'n rhaid i'r rheolwyr wneud dyfarniadau, amcangyfrifon a phenderfyniadau sy'n effeithio ar y ffigurau sy'n cael eu hadrodd. Mae'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac maent yn seiliedig ar brofiad a ffactorau eraill, gan gynnwys disgwyliadau o ddigwyddiadau yn y dyfodol y credir eu bod yn rhesymol oddi tan yr amgylchiadau.

**Incwm**
Mae arian sy'n dod i fewn yn cael eu cynnwys yn y datganiad o weithgareddau ariannol pan fydd yr hawl i'r incwm wedi'i drosglwyddo i'r cwmni elusennol. Dilynir y polisïau penodol canlynol:-

- Cydnabyddir incwm o roddion a grantiau pan fydd tystiolaeth o'r rhodd a gellir ei fesur mewn modd dibynadwy. Caiff grantiau cyfalaf eu cynnwys mewn cronfa cyfyngedig a'u cyfatebu gyda'r dibrisiant ar yr asedau.

- Cydnabyddir incwm o ffynonellau gwaddol a chymynroddion pan mae'n debygol y cytunwyd ar yr hawl i'w dderbyn.

- Caiff incwm o nwyddau a roddir i'r elusen ei fesur yn ôl gwerth teg y nwyddau hynny, ac eithrio os yw y dull hyn yn anymarferol. Yn y sefyllfa hon, mae'r gwerth a roddir arnynt yn deillio o'r gost i'r rhoddwr neu ei werth gwerthu amcangyfrifedig. Mae cyfleusterau a roddir a gwasanaethau a ddarperir yn cael eu cydnabod yn y cyfrifon os gellir eu mesur mewn modd dibynadwy. Nid oes gwerth yn cael ei roi ar lafur gwirfoddol.

- Cydnabyddir incwm o gytundebau ar gyfer darparu gwasanaethau wrth i'r cytundeb gael ei wireddu. Caiff hyn ei drin fel cronfeydd anghyfyngedig, ac eithrio os oes amod bod yn rhaid defnyddio'r incwm at ddiben penodol, ac yn y sefyllfa hon caiff ei drin fel cronfa gyfyngedig.


Parhau...

**Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn**

**Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol**
**ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben ar 31 Rhagfyr 2024**

## 1. POLISÏAU CYFRIFO – parhad

### Gwariant

Cydnabyddir rhwymedigaethau fel gwariant cyn gynted ag y bydd rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol yn ymrwymo'r elusen i'r gwariant hwnnw, mae'n debygol y bydd angen trosglwyddo buddion economaidd wrth setlo a gellir mesur swm y rhwymedigaeth yn ddibynadwy. Cyfrifir gwariant ar sail croniadau ac fe'i dosbarthwyd o dan benawdau sy'n cydgrynhoi'r holl gostau sy'n gysylltiedig â'r categori. Lle na ellir priodoli'r costau'n uniongyrchol i benawdau penodol, fe'u dyrannwyd i weithgareddau ar sail sy'n gyson â'r defnydd o adnoddau.

Mae taliadau prydles gweithredol yn cael eu cydnabod fel cost dros gyfnod y cytundeb ac fe'u cofnodir ar sail llinell syth.

### Asedau sefydlog gweladwy

Eiddo, Peiriannau ac Offer

Cofnodir asedau sefydlog i ddechrau yn ôl eu cost, ac yna fe'u nodir ar eu cost llai dibrisiant a namau. Mae unrhyw asedau sefydlog sydd wedi cael eu hailbrisio yn cael eu cofnodi ar eu gwerth teg ar ddyddiad prisio, ac llai dibrisiant cronedig ac unrhyw addasiadau am nam.

Mae asedau sefydlog, oddi tan y model cost, yn cael eu datgan ar gost hanesyddol llai dibrisiant cronedig ac unrhyw golledion nam cronedig. Mae cost hanesyddol yn cynnwys gwariant y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i ddod â'r ased i'r lleoliad a'r amod sy'n angenrheidiol er mwyn iddo allu gweithredu yn y modd a fwriadwyd gan reolwyr. Mae unrhyw asedau sefydlog sydd wedi cael eu hailbrisio yn cael eu cofnodi ar eu gwerth teg ar ddyddiad prisio, llai dibrisiant cronedig ac unrhyw addasiadau am namau.

Nid yw'r tir yn cael ei ddibrisio. Darperir dibrisiant ar asedau eraill ar y cyfraddau blynyddol canlynol er mwyn dyrannu cost yr asedau, llai eu gwerth gweddilliol, dros y bywyd defnyddiol a amcangyfrifed:

Safle'r Nant - 1% - 20% ar sail llinell syth
Offer a pheiriannau ayyb - 5% - 20% ar sail llinell syth

Mae gwerthoedd gweddilliol, bywydau defnyddiol a dulliau dibrisiant yr asedau'n cael eu hadolygu, a'u haddasu fel y bo'n briodol, neu os oes arwydd o newid arwyddocaol ers y dyddiad adrodd diwethaf.

Mae enillion a cholledion ar warediadau yn cael eu pennu trwy gymharu'r enillion â'r swm cario ac yn cael eu cydnabod yn y daflen incwm a gwariant.

Buddsoddiadau asedau sefydlog

Caiff buddsoddiadau rhestredig eu mesur ar eu gwerth teg gyda'r newid yn y prisiad a gofnodir fel incwm neu wariant ar y datganiad o weithgareddau ariannol. Os nad oes modd mesur gwerth teg, yna fe'u cofnodir ar eu cost llai o amhariad. Cofnodir buddsoddiadau heb eu rhestru, fel cyfalaf cyfranddaliadau yr is-gwmni segur, ar gost.

### Eiddo buddsoddiadol

Dangosir eiddo buddsoddiadol ar eu prisiad diweddaraf. Mae unrhyw warged neu ddiffyg cyfanredol sy'n deillio o newidiadau mewn gwerth teg yn cael eu cydnabod yn y datganiad o weithgareddau ariannol.

## 1. POLISÏAU CYFRIFO – parhad

**Stoc wrth law**
Mae stoc yn cael eu prisio ar yr isaf o'u cost isaf a gwerth gwirioneddu net, ar ôl gwneud lwfans dyledus ar gyfer eitemau darfodedig a symud yn araf.

**Trethiant**
Mae'r elusen wedi'i heithrio rhag treth gorfforaeth ar ei gweithgareddau elusennol. Mae'r elusen wedi ei chofrestru am dreth ar werth, felly lle bynnag y bydd yn briodol, bydd y ffigyrau yn y ddogfen hon yn cael eu dangos yn net o'r dreth hon.

**Cronfeydd**
Gellir defnyddio cronfeydd anghyfyngedig yn unol â'r amcanion elusennol ac yn ôl disgresiwn yr ymddiriedolwyr. Mae'r cronfeydd dynodedig yn gronfeydd anghyfyngedig sydd wedi'u clustnodi gan yr ymddiriedolwyr ar gyfer prosiect penodol neu gyfnod yn y dyfodol.

Dim ond at ddibenion cyfyngedig penodol y gellir defnyddio arian cyfyngedig o fewn amcanion yr elusen. Mae cyfyngiadau'n codi pan bennir gan y rhoddwr neu pan godir arian at ddibenion cyfyngedig penodol.

Mae esboniad pellach o natur a phwrpas pob cronfa wedi'i gynnwys yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol.

**Llogi ymrwymiadau prynu a phrydlesu**
Codir rhenti a delir oddi tan prydlesi gweithredol i'r datganiad o weithgareddau ariannol ar sail llinell syth dros gyfnod y les.

**Costau pensiwn a budd-daliadau ôl-ymddeol eraill**
Mae'r cwmni elusennol yn gweithredu cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig. Codir cyfraniadau sy'n daladwy i gynllun pensiwn y cwmni elusennol i'r datganiad o weithgareddau ariannol yn y cyfnod y maent yn perthyn iddo.

**Taliadau terfynu**
Mae taliadau terfynu yn cael eu cydnabod fel treuliau pan fydd gan yr elusen rwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol i wneud taliadau o'r fath. Mae'r rhwymedigaeth hon yn codi pan fydd cynllun diswyddo neu drefniant terfynu ffurfiol wedi'i gyfathrebu i'r gweithwyr dan sylw, gan greu disgwyliad dilys o daliad. Mae taliadau terfynu yn cael eu mesur yn seiliedig ar hawliau cytundebol neu statudol, yn ogystal ag unrhyw symiau ychwanegol disgresiynol a gymeradwywyd gan yr ymddiriedolwyr ac yn cael eu cynnwys yn y datganiadau ariannol o dan gostau staff.

## 2. RHODDION A CHYMYNRODDION

| | **31.12.24** | 31.12.23 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Rhoddion | **2,012** | 9,103 |
| Ffrindiau'r Nant | **-** | 500 |
| Grantiau | **-** | 300 |
| Casglu tâl parcio gwirfoddol | **2,422** | 2,741 |
| | **4,434** | 12,644 |

 Parhau...

## 3. GWEITHGAREDDAU MASNACHOL ERAILL

| | 31.12.24 | 31.12.23 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Llogi lleoliad a safle | 87,794 | 165,678 |
| Incwm arlwyo (caffi) | 533,665 | 433,592 |
| Incwm lletygarwch | 318,592 | 228,656 |
| Incwm bar | 38,994 | 39,679 |
| Gwerthu llyfrau | 12,728 | 4,712 |
| Rhentu nwyddau priodasol | 200 | 1,800 |
| Incwm adloniant | 633 | 2,845 |
| | 992,606 | 876,962 |

## 4. INCWM BUDDSODDI

| | 31.12.24 | 31.12.23 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Llog banc a dderbyniwyd | 24,778 | 22,357 |

## 5. INCWM O WEITHGAREDDAU ELUSENNOL

| | 31.12.24 | 31.12.23 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Incwm o'r cyrsiau | 110,978 | 98,753 |
| Darlithoedd hanesyddol | 633 | 887 |
| Ymweliadau addysgol | - | 133 |
| Grantiau | 708,388 | 520,225 |
| | 819,999 | 619,998 |

Mae'r grantiau a dderbynnir, sydd wedi'u cynnwys yn yr uchod, fel a ganlyn:

| | 31.12.24 | 31.12.23 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol | 622,845 | 520,225 |
| Cronfa Treftadaeth (Prosiect Coed) | 85,543 | - |
| | 708,388 | 520,225 |



Parhau...

## 6. CODI ARIAN

### Gweithgareddau masnachol eraill

| | **31.12.24** | 31.12.23 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Stoc a ddaeth ymlaen | **10,412** | 16,457 |
| Pryniant | **279,399** | 259,939 |
| Stoc ar ddiwedd y flwyddyn | **(17,516)** | (10,412) |
| Dyledion drwg | **-** | (303) |
| | **272,295** | 265,681 |

## 7. COSTAU GWEITHGAREDDAU ELUSENNOL

| | Costau uniongyrchol | Costau cefnogol (gweler nodyn 8) | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ |
| Addysg a hyfforddiant | **1,382,964** | **71,544** | **1,454,508** |

## 8. COSTAU CEFNOGOL

| | Cyllid | Costau llywodraethu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ |
| Ffi archwilio | **-** | **7,175** | **7,175** |
| Ffioedd ymgynghorol, cyllidol a chyfreithiol | **-** | **38,130** | **38,130** |
| Costau banc | **14,593** | **-** | **14,593** |
| Llog banc | **11,646** | **-** | **11,646** |
| | **26,239** | **45,305** | **71,544** |

## 9. INCWM/(GWARIANT) NET

Nodir incwm / (gwariant) net ar ôl codi talu / (credydu):

| | **31.12.24** | 31.12.23 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Dibrisiant - asedau | **152,818** | 139,846 |
| Llogi offer a pheiriannau | **35,016** | 41,549 |
| Prydlesi gweithredol eraill | **250** | 250 |

## 10. TALIADAU ARCHWILIWR

| | 31.12.24 | 31.12.23 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Ffioedd sy'n daladwy i archwilwyr yr elusen am archwilio datganiadau ariannol yr elusen | **7,175** | 7,000 |

## 11. CYDNABYDDIAETH A BUDDION YR YMDDIRIEDOLWYR

Nid oedd unrhyw gydnabyddiaeth ariannol na buddion eraill ar gyfer y flwyddyn yn diweddu ar 31 Rhagfyr 2024, nac am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2023.

**Treuliau ymddiriedolwyr**

Ni thalwyd treuliau i'r ymddiriedolwyr am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2024 nac am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2023.

## 12. COSTAU STAFF

| | 31.12.24 | 31.12.23 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Cyflogau | **848,784** | 652,623 |
| Yswiriant gwladol | **73,711** | 45,933 |
| Costau pensiwn | **23,511** | 17,473 |
| | **946,006** | 716,029 |

Roedd y nifer cyfartalog o weithwyr yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | 31.12.24 | 31.12.23 |
|---|---|---|
| Rheolwyr allweddol | **4** | 5 |
| Gweithwyr eraill | **47** | 36 |
| | **51** | 41 |

Nifer y gweithwyr, lle y mae eu budd-daliadau gweithwyr (ac eithrio costau pensiwn cyflogwyr) yn fwy na £60,000 oedd:

| | 31.12.24 | 31.12.23 |
|---|---|---|
| £60,001 - £70,000 | **-** | 1 |
| £70,001- £80,000 | **1** | - |

Mae bwrdd yr ymddiriedolwyr yn ystyried mai personél rheoli allweddol yr elusen yw'r Prif Weithredwr a'r rheolwyr adrannol. Cyfanswm buddion cyflogaeth, gan gynnwys yswiriant gwladol cyflogwyr a chyfraniadau pensiwn y personél rheoli allweddol oedd £204,381 (2023: £167,574) yn y flwyddyn.



Parhau...

## 12. COSTAU STAFF parhau

Yn ystod y flwyddyn ariannol, gwnaed taliadau terfynu o £51,239 i ddau aelod o staff fel rhan o becynnau ymadael cytunedig. Roedd y taliadau hyn yn cynnwys iawndal diswyddo yn ogystal a £26,239 fel Taliad yn Lle Hysbysiad (PILON).

Gwnaed pob taliad terfynu yn unol â rhwymedigaethau cytundebol ac maent wedi'u cydnabod yn llawn yn y datganiadau ariannol. Nid oes unrhyw rwymedigaethau pellach yn weddill ar ddyddiad y fantolen.

## 13. ASEDAU SEFYDLOG GWELADWY

| | Eiddo Rhydd-ddaliadol £ | Gosodiadau a Ffitiadau £ | Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|
| **COST** | | | |
| Ar 1 Ionawr 2024 | **7,640,537** | **348,646** | **7,989,183** |
| Ychwanegiadau | **178,973** | **46,487** | **225,460** |
| Ar 31 Rhagfyr 2024 | **7,819,510** | **395,133** | **8,214,643** |
| **DIBRISIAD** | | | |
| Ar 1 Ionawr 2024 | **4,612,286** | **164,012** | **4,776,298** |
| Dibrisiant am y flwyddyn | **118,788** | **34,030** | **152,818** |
| Ar 31 Rhagfyr 2024 | **4,731,074** | **198,042** | **4,929,116** |
| **GWERTH LLYFR NET** | | | |
| Ar 31 Rhagfyr 2024 | **3,088,436** | **197,091** | **3,285,527** |
| Ar 31 Rhagfyr 2023 | 3,028,251 | 184,634 | 3,212,885 |

Cafodd safle'r cwmni elusennol ei brisio, ar sail y farchnad agored, gan Christie & Co. ym mis Hydref 2019, gyda gwerth o £3.3m yn cael ei briodoli iddo. Mae'r bwrdd o'r farn fod hyn yn adlewyrchiad teg o'i werth presennol, ac felly mae'r bwrdd yn cytuno nad oes angen prisiad newydd, na newid am amhariad eleni.

## 14. BUDDSODDIADAU ASEDAU SEFYDLOG

| | Cyfranddaliadau mewn ymgymeriadau grwp £ |
|---|---|
| **GWERTH MARCHNAD** | |
| Ar 1 Ionawr 2024 a 31 Rhagfyr 2024 | **100** |
| **GWERTH LLYFR NET** | |
| Ar 1 Ionawr 2024 a 31 Rhagfyr 2024 | **100** |

Nid oedd unrhyw asedau buddsoddi y tu allan i'r Deyrnas Unedig.



Parhau...

## 14. BUDDSODDIADAU ASEDAU SEFYDLOG - parhad

**Cwmni Nant Cyfyngedig**
Swyddfa Cofrestredig: Nant Gwrtheyrn, Llithfaen, Gwynedd, LL53 6NL
Natur y busnes: Ddim yn masnachu

| | % |
|---|---|
| Cyfranddaliadau: | cyfanswm |
| 100 o gyfranddaliadau cyffredin - £1 | **100** |

## 15. EIDDO BUDDSODDIADOL

| | £ |
|---|---|
| **GWERTH TEG** | |
| Ar 1 Ionawr 2024 | |
| a 31 Rhagfyr 2024 | **229,730** |
| | |
| **GWERTH LLYFR NET** | |
| Ar 31 Rhagfyr 2024 | **229,730** |
| | |
| Ar 31 Rhagfyr 2023 | 229,730 |

**Manylion o'r eiddo buddsoddi:**
Yn ystod 2007, trosglwyddwyd y tir ym Mhorth y Nant, Pistyll i'r cwmni fel rhodd gan Hanson Quarry Products Europe Ltd. Yn ôl y Bwrdd, a'r ddogfen sydd wedi ei chofrestru, nid oes gwerth i'r tir hwn. Hefyd yn ystod 2007, derbyniodd y cwmni elusennol rodd gan Ms Heulwen Richards o'r canlynol:-

- Yr Ogof, Ravenspoint, Bae Trearddur, Ynys Môn. Bu farw Ms. Richards yn ystod y flwyddyn. Yn hanesyddol roedd ganddi hawl dros yr eiddo am weddill ei hoes. Amcangyfrif o werth yr eiddo yw £227,758. Mae'r eiddo yn rhan o'r cronfeydd cyfyngedig.
- Cyfran o 49% mewn 5 cae yn ardal Caergybi a elwir yn Tir Môn. Gan mai dim ond 49% mae y cwmni berchen, mae'r gwerth yn y cyfrifon yn isel, gyda gwerth o ddim ond £1,972 yn cael ei briodoli.

Cafodd y tir a'r adeiladau cyfan eu prisio'n broffesiynol gan Dafydd Hardy MRICS ym mis Mai 2009, ond ers hynny mae'r ymddiriedolwyr wedi cadw llygad ar y farchnad leol, ac yn credu bod yr uchod yn frasamcan cywir o'u gwerth marchnad.

## 16. STOC

| | **31.12.24** | 31.12.23 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Stoc | **17,516** | 10,412 |

## 17. DYLEDWYR: SYMIAU SY'N DDYLEDUS O FEWN BLWYDDYN

| | **31.12.24** | 31.12.23 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Dyledwyr masnachol | **38,843** | 51,038 |
| Blaendaliadau | **6,873** | 9,860 |
| Dyledwyr eraill | **56,903** | - |
| | **102,619** | 60,898 |

## 18. CREDYDWYR: SYMIAU SY'N DDYLEDUS O FEWN BLWYDDYN

| | 31.12.24 | 31.12.23 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Benthyciadau banc a gorddrafftiau (gweler nodyn 20) | **16,066** | 91,545 |
| Credydwyr masnachol | **80,439** | 93,474 |
| Nawdd cymdeithasol a threthi eraill | **26,041** | 9,873 |
| Treth ar werth | **5,775** | 6,099 |
| Credydwyr eraill | **6,620** | 3,524 |
| Cyfalaf cyfranddaliadau yr is-gwmni | **100** | 100 |
| Incwm gohiriedig | **219,398** | 133,630 |
| Costau cronedig | **42,789** | 7,450 |
| | **397,228** | 345,695 |

## 19. CREDYDWYR: SYMIAU SY'N DDYLEDUS AR ÔL MWY NA BLWYDDYN

| | 31.12.24 | 31.12.23 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Benthyciadau banc (gweler nodyn 20) | **91,079** | 97,733 |
| Benthyciadau Eraill (gweler nodyn 20) | **13,858** | 13,858 |
| | **104,937** | 111,591 |

## 20. BENTHYCIADAU

Rhoddir dadansoddiad o aeddfedrwydd benthyciadau isod:

| | 31.12.24 | 31.12.23 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Symiau yn ddyledus, ar alw, o fewn blwyddyn: | | |
| Benthyciadau banc | **16,066** | 91,545 |
| Symiau sydd yn ddyledus o fewn blwyddyn i ddwy: | | |
| Benthyciadau banc - 1-2 flynedd | **16,066** | 26,314 |
| Symiau sydd yn ddyledus mewn dwy i bum mlynedd: | | |
| Benthyciadau banc - 2-5 mlynedd | **48,198** | 52,628 |
| Symiau sydd yn ddyledus ar ôl pum mlynedd: | | |
| Ad-daladwy drwy randdaliadau: | | |
| Benthyciad banc – mwy na 5 mlynedd | **26,815** | 18,791 |
| | **107,145** | 189,278 |

| | | |
|---|---|---|
| Benthyciadau eraill sydd yn ddyledus ar ôl pum mlynedd: | | |
| Benthyciadau eraill – mwy na 5 mlynedd | **13,858** | 13,858 |

## 21. CYTUNDEBAU PRYDLESU

Mae isafswm taliadau prydles oddi tan brydlesi gweithredol a na ellir eu canslo yn ddyledus fel a ganlyn:

| | **31.12.24** | 31.12.23 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| O fewn blwyddyn | 11,029 | 11,029 |
| Rhwng 1 a 5 mlynedd | 25,478 | 38,864 |
| | 36,507 | 49,893 |

## 22. DYLEDION GWARANTEDIG

Mae'r dyledion canlynol wedi'u gwarantu ac yn cael eu cynnwys o fewn y credydwyr:

| | **31.12.24** | 31.12.23 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Benthyciadau banc | **107,145** | 189,278 |

Ar hyn o bryd mae gan y cwmni elusennol 3 ffi weithredol ar ei gofrestr yn Tŷ'r Cwmnïau, gyda'r rhain yn gysylltiedig â'r benthyciadau a nodir yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol. Y prif fanylion ar eu cyfer yw:

a. Gweithred forgais, a grëwyd gan Lloyds Bank ar 2 Rhagfyr 2009. Mae'r tâl dros y rhifau teitl CYM64983, WA574689, CYM96651, a'r holl adeiladau a gosodiadau cysylltiedig.

b. Tâl cyfreithiol, a grëwyd gan Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ar 26 Mawrth 2010. Mae tâl dros y teitl rhif CYM64983.

c. Tâl cyfreithiol dros y teitl CYM368839, Yr Ogof, Bae Trearddur, Ynys Môn. Crëwyd hyn ar 5 Mawrth 2015, gyda'r canlynol yn dwyn y teitl: Syr James Douglas Spooner, Syr Martin Wakefield Jacomb, Arglwydd Sainsbury o Preston Candover KG. a'r Arglwydd Sainsbury o Preston Candover CBE.

## 23. SYMUD MEWN CRONFEYDD

| | Ar 1.1.24 | Symudiad net mewn cronfeydd | Trosglwyddiadau rhwng y cronfeydd | Ar 31.12.24 |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| **Cronfeydd anghyfyngedig** | | | | |
| Cronfa gyffredinol | **593,348** | **(52,053)** | **-** | **541,295** |
| Cronfa asedau sefydlog | **3,212,885** | **(68)** | **-** | **3,212,817** |
| | **3,806,233** | **(52,121)** | **-** | **3,754,112** |
| **Cronfeydd cyfyngedig** | | | | |
| Cronfa eiddo buddsoddi | **229,730** | **-** | **-** | **229,730** |
| Cronfa Treftadaeth (Prosiect Coed) | **-** | **72,710** | **-** | **72,710** |
| **CYFANSWM CRONFEYDD** | **4,035,963** | **20,589** | **-** | **4,056,552** |



Parhau...

## 23. SYMUD MEWN CRONFEYDD - parhad

Mae y symudiad net mewn cronfeydd, sydd wedi'u cynnwys yn yr uchod fel a ganlyn:

| | Incwm £ | Gwariant £ | Symudiad yn y cronfeydd £ |
|---|---|---|---|
| **Cronfeydd anghyfyngedig** | | | |
| Cronfa gyffredinol | **1,814,667** | **(1,866,788)** | **(52,121)** |
| Cronfa Treftadaeth (Prosiect Coed) | **85,543** | **(12,833)** | **72,710** |
| | **1,900,210** | **(1,879,621)** | **(20,589)** |
| **CYFANSWM CRONFEYDD** | **1,900,210** | **(1,879,621)** | **(20,589)** |

**Symud yng nghronfeydd y llynedd**

| | Ar 1.1.23 £ | Symudiad net mewn cronfeydd £ | Trosglwyddiadau rhwng y cronfeydd £ | Ar 31.12.23 £ |
|---|---|---|---|---|
| **Cronfeydd anghyfyngedig** | | | | |
| Cronfa gyffredinol | 562,291 | 134,055 | (102,999) | 593,347 |
| Cronfa asedau sefydlog | 3,249,732 | (139,845) | 102,999 | 3,212,886 |
| | 3,812,023 | (5,790) | - | 3,806,233 |
| **Cronfeydd cyfyngedig** | | | | |
| Cronfa eiddo buddsoddiadol | 229,730 | - | - | 229,730 |
| **CYFANSWM CRONFEYDD** | 4,041,753 | (5,790) | - | 4,035,963 |

Mae y symudiad net mewn cronfeydd, sydd wedi'u cynnwys yn yr uchod fel a ganlyn:

| | Incwm £ | Gwariant £ | Symudiad yn y cronfeydd £ |
|---|---|---|---|
| **Cronfeydd anghyfyngedig** | | | |
| Cronfa gyffredinol | 1,541,716 | (1,407,661) | 134,055 |
| Cronfa asedau sefydlog | - | (139,845) | (139,845) |
| | 1,541,716 | (1,547,506) | (5,790) |
| **CYFANSWM CRONFEYDD** | 1,541,716 | (1,547,506) | (5,790) |

**Trosglwyddiadau rhwng y cronfeydd**

Mae'r trosglwyddiad o'r gronfa gyffredinol i'r gronfa asedau sefydlog ddynodedig yn cynrychioli trosglwyddo costau ychwanegiadau'r flwyddyn ar gyfer yr asedau sefydlog rhwng y cronfeydd.



Parhau...

## 24. DATGELIADAU PARTION CYSYLLTIEDIG

Rheolir yr Elusen gan yr ymddiriedolwyr a enwir ar ddechrau'r ddogfen hon. Ni thalwyd unrhyw gostau teithio na chostau eraill i'r ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn hon na'r flwyddyn flaenorol.

Fodd bynnag, ar ddiwedd y flwyddyn roedd y swm canlynol yn daladwy i ysgrifennydd y cwmni : (Nid oes llog yn daladwy ar y benthyciad):- Mrs P M Ellis - £2,000 (2023: £2,000).

Yn ogystal, yn ystod y flwyddyn talwyd cyfanswm o £17,480 wrth fasnachu hyd braich gyda un aelod o’r Bwrdd (2023 – dim).

**Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn**

**Datganiad manwl o weithgareddau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2024**

| | 31.12.24 £ | 31.12.23 £ |
|---|---|---|
| **INCWM AC GWADDOLION** | | |
| **Rhoddion a chymynroddion** | | |
| Rhoddion | **2,012** | 9,103 |
| Ffrindiau'r Nant | **-** | 500 |
| Grantiau | **-** | 300 |
| Casgliadau tâl parcio gwirfoddol | **2,422** | 2,741 |
| | **4,434** | 12,644 |
| **Gweithgareddau masnachol eraill** | | |
| Rhentu lleoliadau a'r safle | **87,794** | 165,678 |
| Incwm arlwyo (caffi) | **533,665** | 433,592 |
| Incwm lletygarwch | **318,592** | 228,656 |
| Incwm o'r bar | **38,994** | 39,679 |
| Gwerthiant llyfrau | **12,728** | 4,712 |
| Llogi offer priodasol | **200** | 1,800 |
| Incwm adloniant | **633** | 2,845 |
| | **992,606** | 876,962 |
| **Incwm buddsoddiad** | | |
| Llog a dderbyniwyd | **24,778** | 22,357 |
| **Gweithgareddau elusennol** | | |
| Incwm o'r cyrsiau | **110,978** | 98,753 |
| Darlithoedd hanesyddol | **633** | 887 |
| Ymweliadau addysgol | **-** | 133 |
| Grantiau | **708,388** | 520,225 |
| | **819,999** | 619,998 |
| **Incwm arall** | | |
| Rhent | **4,562** | - |
| Incwm arall | **309** | 5,185 |
| Gwerthu coed | **53,522** | 4,544 |
| Costau postio/cludo | **-** | 27 |
| | **58,393** | 9,756 |
| **Cyfanswm adnoddau sy'n dod i fewn** | **1,900,210** | 1,541,717 |

Nid yw'r dudalen hon yn rhan o'r datganiadau ariannol statudol

## Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn

## Datganiad manwl o weithgareddau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2024

| | 31.12.24 | 31.12.23 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| **GWARIANT** | | |
| **Gweithgareddau masnachol eraill** | | |
| Stoc a gariwyd ymlaen | **10,412** | 16,457 |
| Pryniannau | **202,806** | 193,742 |
| Glanhau ac adnewyddu - lletygarwch | **76,593** | 66,197 |
| Drwg ddyledwyr | **-** | (303) |
| Stoc ar ddiwedd y flwyddyn | **(17,516)** | (10,412) |
| | **272,295** | 265,681 |
| | ======= | ======= |
| **Gweithgareddau elusennol** | | |
| Cyflogau | **848,784** | 652,623 |
| Yswiriant gwladol | **73,711** | 45,933 |
| Pensiynau | **23,511** | 17,473 |
| Taliadau cyflogaeth eithriadol | **51,239** | - |
| Llogi peiriannau ayyb | **35,016** | 41,549 |
| Prydlesi gweithredu eraill | **250** | 250 |
| Yswiriant | **8,125** | 7,746 |
| Golau a gwres | **104,948** | 69,958 |
| Ffon a rhyngrwyd ayyb | **5,013** | 2,175 |
| Postio a deunydd ysgrifennu | **5,645** | 5,055 |
| Hysbysiadau | **7,901** | 16,352 |
| Costau eraill | **11,358** | 5,473 |
| Costau’r cyrsiau | **20,072** | 13,708 |
| Trwyddedau a thanysgrifiadau | **7,504** | 8,398 |
| Hyfforddiant | **5,852** | 1,392 |
| Moduro a thrafaelio | **10,447** | 3,743 |
| Costau tiwtor a llafur achlysurol | **88,417** | 83,358 |
| Atgyweirio, cynnal a chadw eiddo | **18,615** | 16,227 |
| Cost cynnal a chadw eraill | **23,586** | 27,952 |
| Costau cynhaliaeth | **1,208** | - |
| Costau treth ar werth anadferadwy | **31,762** | 26,900 |
| | **1,382,964** | 1,046,265 |

Nid yw'r dudalen hon yn rhan o'r datganiadau ariannol statudol

**Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn**

**Datganiad manwl o weithgareddau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2024**

| | 31.12.24 | 31.12.23 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| **Costau cefnogol** | | |
| **Cyllid** | | |
| Costau bancio | **14,593** | 9,979 |
| Llog ar fenthyciadau banc | **11,646** | 15,520 |
| | **26,239** | 25,499 |
| **Cyllid** | | |
| **Costau llywodraethu** | | |
| Ffioedd proffesiynol | **3,149** | - |
| Tâl yr archwilwyr | **7,175** | 7,000 |
| Ffioedd ymgynghorol a chyfreithiol | **34,981** | 63,216 |
| | **45,305** | 70,216 |
| | **1,454,508** | 1,141,980 |
| Costau dibrisiant | **152,818** | 139,846 |
| Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd | **1,879,621** | 1,547,507 |
| **Incwm/(gwariant) net** | **20,589** | (5,790) |

Nid yw'r dudalen hon yn rhan o'r datganiadau ariannol statudol

**YMDDIRIEDOLAETH NANT GWRTHEYRN**

England & Wales - Charity number 1078543

# Accounts

RHIF CWMNI COFRESTREDIG: 03865538 (Cymru)
RHIF ELUSEN GOFRESTREDIG: 1078543

**Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a
Datganiadau ariannol wedi eu harchwilio, ar gyfer y flwyddyn
yn diweddu 31 Rhagfyr 2023**

**ar gyfer**

**Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn**

**(Cwmni cyfyngedig drwy warant)**

Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn

## Cynnwys y datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2023


| | Tudalen |
|---|---|
| Adroddiad yr Cadeirydd | 1 |
| Adroddiad yr Ymddiriedolwyr | 2 i 5 |
| Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol | 6 i 9 |
| Datganiad o Weithgareddau Ariannol | 10 |
| Mantolen | 11 i 12 |
| Datganiad Llif Arian | 13 |
| Nodiadau i'r Datganiad Llif Arian | 14 |
| Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol | 15 i 26 |

## Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn

### Adroddiad yr Cadeirydd
### ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2023

Mae hon wedi bod yn flwyddyn o fuddsoddi'n drwm yn ein staff a'n strwythurau. Y bwriad yw sicrhau fod gennym yr adnoddau, ar bob lefel, i'n galluogi i wneud y defnydd gorau posibl o'r safle, y cyfleusterau a'r enw da sydd gennym.

Yn dilyn proses o ymgynghori, gyda chymorth arbenigwyr allanol, penodwyd tri is-reolwr, o dan arweiniad y Prif Weithredwr, i arwain adrannau gafodd eu diffinio o'r newydd. Gwnaed nifer o benodiadau newydd ar draws y sefydliad ac adolygwyd cyflogau i sicrhau bod Nant Gwrtheyrn yn cael ei weld yn gyflogwr da, sy'n cynnig telerau deniadol.

Mae'r camau hyn yn gyfystyr â buddsoddiad sylweddol, gyda'r bwriad o sicrhau ad-daliad buan wrth gynyddu incwm a chyllid mewn llaw. Lluniwyd Cynllun Busnes 5-mlynedd cynhwysfawr fydd yn ganllaw cryf er mwyn sicrhau'r canlyniadau sy'n cael eu deisyfu. Rhannwyd y cynllun gyda'r staff i gyd a rhoddwyd trefniadau adolygu a chyfathrebu effeithiol mewn lle.

Coron ar waith y flwyddyn oedd canlyniadau gwych adolygiad Estyn o'n gwaith addysgiadol, gan ddyfarnu nod 'Rhagorol' yn y pum maes dan sylw. Rydym yn hyderus y bydd hyn yn sylfaen arbennig ar gyfer ehangu ac amrywio'r ddarpariaeth yn y dyfodol.

Tristwch mawr ar adeg cyhoeddi'r Adroddiad hwn, wrth ddiolch i'r holl ymddiriedolwyr a'r staff am eu cyfraniad, yw nodi marwolaeth Gwenda Griffith, a fu'n Ymddiriedolwr ers 2014. Byddwn yn colli ei chyfraniad manwl ac ymroddedig yn fawr.

**Huw Jones**
Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth
Mai 2024

## Adroddiad yr Ymddiriedolwyr
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2023

Mae'r ymddiriedolwyr, sydd hefyd yn gyfarwyddwyr yr elusen at ddibenion Deddf Cwmnïau 2006, yn cyflwyno eu hadroddiad gyda datganiadau ariannol yr elusen am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Rhagfyr 2023. Mae'r ymddiriedolwyr wedi mabwysiadu darpariaethau Cyfrifeg ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad o Ymarfer a Argymhellir sy'n berthnasol i elusennau sydd yn paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (daeth i rym 1 Ionawr 2019).

### AMCANION A GWEITHGAREDDAU

**Amcanion ac amcanion**

Pwrpas Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn, y cwmni, yw hyrwyddo a meithrin addysg a hyfforddiant yr iaith, diwylliant a llenyddiaeth Gymraeg, yng Nghymru. Mae'r cwmni'n cael ei redeg yn bennaf yng Nghanolfan Genedlaethol yr Iaith a Threftadaeth yn Nant Gwrtheyrn, ger Llithfaen, ond weithiau cynhelir gweithgareddau mewn canolfannau eraill pan fo angen.

**Budd y cyhoedd**

Mae'r ymddiriedolwyr yn cadarnhau eu bod wedi cydymffurfio â'r dyletswyddau a nodir yn adran 17(5) o Ddeddf Elusennau 2011, sef rhoi sylw dyledus i'r canllawiau budd cyhoeddus a gyhoeddir gan y Comisiwn Elusennau.

### ADOLYGIAD ARIANNOL

**Sefyllfa ariannol**

Daeth y cwmni elusennol i ddiwedd y flwyddyn gyda gorwariant dros incwm o £5,790 (2022: incwm o £91,088).

**Prif ffynonellau ariannu**

Daeth prif ffynhonnell ariannu yr amcanion elusennol o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, gyda defnydd strategol o asedau a lleoliad y cwmni yn ategu hyn. H.y. yn ogystal â ac mewn cefnogaeth i'r prif amcanion, cynhaliwyd rhai gweithgareddau masnachol cyfyngedig, gyda'r gweithgareddau hyn yn cynnwys gweithredu Caffi Meinir, defnyddio'r safle fel lleoliad priodas, a phan fydd lle yn caniatáu, rhywfaint o osod fel llety gwyliau cyfyngedig.

**Polisi wrth gefn**

Polisi'r cwmni yw cynnal cronfa wrth gefn ddigonol, er mwyn ei alluogi i gyflawni ei amcanion elusennol, bodloni ei ofynion beunyddiol parhaus, a chronni digon o arian i gynnal ac uwchraddio'r cyfleusterau y mae'n gweithredu ohonynt. Nod y polisi wrth gefn presennol yw cynnal gwarchodfa sy'n cyfateb i bedwar mis o'r costau rhedeg presennol.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, roedd cyfanswm y cronfeydd arian yn dod i £4,035,963 (2022: £4,041,753), ac roedd y cronfeydd rhydd wrth gefn, sydd yn eithrio asedau sefydlog a chronfeydd cyfyngedig, yn dod i £593,348 (2022: £562,291), gyda hyn yn dod i oddeutu phedwar mis o'r gwariant a wnaethpwyd yn y flwyddyn gyfredol.

### STRWYTHUR, LLYWODRAETHU A RHEOLI

**Dogfen lywodraethol**

Rheolir y cwmni elusennol gan ei ddogfennau llywodraethu, ei Femorandwm a'i Erthyglau Cymdeithasu, dyddiedig 21 Hydref 1999, a ddiwygiwyd 5 Gorffennaf 2023. Cwblhawyd y cofrestriad gyda'r Comisiwn Elusennau ar 10 Rhagfyr 1999. Felly mae'n gwmni cyfyngedig elusennol, sydd yn gyfyngedig drwy warant, fel y diffinnir gan Ddeddf Cwmnïau 2006, ac mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn unol â gofynion sydd yn berthnasol i gwmni elusennol.

**Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn**

**Adroddiad yr Ymddiriedolwyr**
**ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2023**

## STRWYTHUR, LLYWODRAETHU A RHEOLI

### Strwythur sefydliadol

Bwrdd yr ymddiriedolwyr sydd yn penderfynu ar bolisi a chyfeiriad cyffredinol y cwmni, ond dirprwyir y rheolaeth o ddydd i ddydd i'r Prif Swyddog Gweithredol, Mair Saunders. Mae'r bwrdd felly yn ystyried mai personél rheoli allweddol yr elusen yw Mair Saunders, a'r rheolwyr adrannol sy'n uniongyrchol atebol iddi.

### Sefydlu a hyfforddi ymddiriedolwyr newydd

Mae aelodaeth y cwmni yn agored i unrhyw unigolyn neu gorff sydd â diddordeb mewn hyrwyddo ei amcanion, sy'n gwneud cais i'r cwmni elusennol yn y ffurflen briodol ac yn derbyn cymeradwyaeth y bwrdd ymddiriedolwyr.

Mae gan y cwmni broses i sefydlu ymddiriedolwyr newydd. Etholir aelodau a swyddogion i'r bwrdd yn y Cyfarfod Blynyddol. Yr ymddiriedolwyr (y bwrdd), a all ddim fod yn fwy nag 11 mewn nifer, sydd yn rheoli'r cwmni, ei eiddo a'i arian. Mae gan y bwrdd hawl i gyfethol aelodau sydd â gwybodaeth neu ddiddordeb arbennig mewn maes perthnasol. Bydd unrhyw strategaethau a fabwysiadwyd yn cael eu gweithredu gan y staff. Cynhelir cyfarfodydd o leiaf bedair gwaith y flwyddyn.

Mae asesiad risg llawn ar gyfer Iechyd a Diogelwch wedi'i gwblhau.

## MANYLION CYFEIRIO A GWEINYDDOL

### Rhif cwmni cofrestredig

03865538 (Cymru)

### Rhif Elusen Gofrestredig
**1078543**

### Swyddfa gofrestredig

Canolfan Nant Gwrtheyrn
Nant Gwrtheyrn
Llithfaen
Pwllheli
Gwynedd
LL53 6NL

### Ymddiriedolwyr

| | | |
|---|---|---|
| Mrs P M Ellis | Prifathrawes Wedi Ymddeol | (ymddiswyddwyd 24.6.23) |
| Dr I Gruffydd | Rheolwr | (ymddiswyddwyd 24.6.23) |
| Ms R Ceiri | Dylunydd | |
| Mr M J Croydon | Darlithydd | |
| Mrs G Griffith | Rheolwr-Gyfarwyddwr | |
| Mrs E A Hughes | Dylunydd Mewnol | |
| Mrs J Iwan | Cyfarwyddwr Cwmni | |
| Mr W G Jones | Wedi Ymddeol | (apwyntiwyd 24.6.23) |
| Mrs E M Jones | Prif Reolwr | |
| Mr D H Jones | Ymgynghorydd | |
| Mr G L Lewis | Cyfarwyddwr | |

### Ysgrifennydd y Cwmni

Mrs P M Ellis

**MANYLION CYFEIRIO A GWEINYDDOL**
**Uwch Archwilydd Statudol**
Rhys Harris BSc FCA

**Archwilwyr**
Owain Bebb a'i Gwmni
Archwilwyr Statudol
32 Y Maes
Caernarfon
Gwynedd
LL55 2NN

**Cyfreithwyr**
Ellis Davies & Co
27 Stryd Bangor
Caernarfon
Gwynedd

**DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R YMDDIRIEDOLWYR**
Mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn at ddibenion cyfraith cwmnïau) yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifeg a Dderbynnir yn Gyffredinol y Deyrnas Unedig) gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102 "Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon".

Mae cyfraith cwmnïau yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg o gyflwr materion y cwmni elusennol ac adnoddau sy'n dod i mewn a'u cymhwyso, gan gynnwys incwm a gwariant, y cwmni elusennol am y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hynny, mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr:

- dewis polisïau cyfrifyddu addas ac yna eu cymhwyso'n gyson;
- dilyn y dulliau a'r egwyddorion yn yr SORP Elusennol;
- llunio barn ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddarbodus;
- paratoi'r datganiadau ariannol ar y sail y bydd parhad fel cwmni byw, oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y cwmni elusennol yn parhau mewn busnes.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n datgelu sefyllfa ariannol y cwmni elusennol yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg ac i'w galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r cwmni elusennol ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a datgelu twyll ac afreoleidd-dra eraill.

I'r graddau y mae'r ymddiriedolwyr yn ymwybodol:

- nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y cwmni elusennol yn ymwybodol ohoni; a

- bod yr ymddiriedolwyr wedi cymryd pob cam y dylent fod wedi'i gymryd i wneud eu hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

**ARCHWILWYR**

Ni fydd yr archwilwyr, Owain Bebb a'i Gwmni, yn cael eu cynnig i'w hailbenodi yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol eleni. Yn hytrach, bydd y cwmni olynol, Emyr Mortimer Archwilwyr Cyf, yn cael ei gynnig yn ei le.

Cymeradwywyd drwy orchymyn y bwrdd ymddiriedolwyr ar ......22/6/24......
Llofnodwyd ar ei ran gan:

..........P. M. Ellis..........
Mrs P M Ellis - Ysgrifennydd

**Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i Aelodau Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn**

**Barn**
Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn (y 'cwmni elusennol') ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2023 sy'n cynnwys y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian a nodiadau'r datganiadau ariannol, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Yr Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig), gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102 'Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon'.

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa materion y cwmni elusennol ar 31 Rhagfyr 2023 ac o'i adnoddau sy'n dod i mewn a'r defnydd o adnoddau, gan gynnwys ei incwm a'i wariant, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;

- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â'r Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102 'Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon'; ac

- wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

**Sail y farn**
Cynhaliwyd ein harchwiliad gennym yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) (ISAs (DU)) a chyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn yr adran cyfrifoldebau'r Archwilwyr am archwilio datganiadau ariannol yn ein hadroddiad. Rydym yn annibynnol ar y cwmni elusennol yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol yr FRC, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer ein barn.

**Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol**
Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rydym wedi dod i'r casgliad bod defnydd yr ymddiriedolwyr o'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rydym wedi'i gyflawni, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd sylfaenol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad pryd bydd y datganiadau ariannol yn cael eu hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir ein cyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

**Gwybodaeth arall**
Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am yr wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol, ac eithrio'r datganiadau ariannol a'n Hadroddiad fel Archwilwyr Annibynnol arnynt.

Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir fel arall yn benodol yn ein hadroddiad, nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arnynt.

**Gwybodaeth arall** - parhad
Mewn cysylltiad â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylfaenol anghyson â'r datganiadau ariannol neu a yw'n ymddangos bod ein gwybodaeth a gafwyd yn yr archwiliad neu fel arall wedi'i chamddatgan yn sylfaenol. Os byddwn yn nodi anghysondebau sylfaenol o'r fath neu gamddatganiadau sylfaenol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i ni benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad sylfaenol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddwn yn dod i'r casgliad, yn seiliedig ar y gwaith rydym wedi'i wneud, bod camddatganiad sylfaenol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i ni adrodd y ffaith honno. Nid oes gennym ddim i'w adrodd yn y cyswllt hwn.

**Barn ar faterion eraill a ragnodir gan Ddeddf Cwmnïau 2006**
Yn ein barn ni, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddwyd yn Adroddiad yr Ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol; ac

- mae Adroddiad yr Ymddiriedolwyr wedi cael ei baratoi yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

**Materion y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt drwy eithriad**
Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r cwmni elusennol a'i amgylchedd a sicrhawyd yn ystod yr archwiliad, nid ydym wedi nodi camddatganiadau sylfaenol yn Adroddiad yr Ymddiriedolwyr.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol lle mae Deddf Cwmnïau 2006 yn datgan ei bod yn ofynnol i ni adrodd i chi os, yn ein barn ni:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol neu ni dderbyniwyd ymatebion digonol ar gyfer ein harchwiliad gan ganghennau nad ydym wedi ymweld â hwy; neu

- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu

- nid yw rhai datgeliadau o dâl ymddiriedolwyr a bennir gan y gyfraith yn cael eu gwneud; neu

- nid ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd arnom eu hangen ar gyfer ein harchwiliad; neu

- nid oedd hawl gan yr ymddiriedolwyr i fanteisio ar yr eithriad cwmnïau bach o'r gofyniad i baratoi Adroddiad Strategol neu wrth baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr.

**Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr**
Fel yr eglurir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr, yr ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni elusennol at ddibenion y gyfraith cwmnïau) sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn cyflwyno darlun cywir a teg, ac am unrhyw reolaeth fewnol o'r fath y mae'r ymddiriedolwyr yn penderfynu sy'n angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau sylfaenol, boed hynny drwy dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel sy'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail busnes gweithredol i gyfrifyddu oni bai bod yr ymddiriedolwyr naill ai'n bwriadu diddymu'r cwmni elusennol neu roi'r gorau i weithredu, neu os nad oes ganddynt ddewis arall realistig heblaw am wneud hynny.

**Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i Aelodau**
**Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn**

**Ein cyfrifoldebau am archwilio'r datganiadau ariannol**
Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau sylfaenol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad sylfaenol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu gamgymeriad ac maent yn cael eu hystyried yn sylfaenol os gellid, yn unigol neu ar y cyd, rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Manylir isod ar i ba raddau mae ein gweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll:

**Adnabod ac asesu risgiau posibl yn ymwneud ag afreoleidd-dra**
Wrth adnabod ac asesu risgiau camddatganiad sylfaenol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll a diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, aethom ati i ystyried y canlynol:

**Adnabod ac asesu risgiau posibl:**
- natur y diwydiant a'r sector, yr amgylchedd rheoli a pherfformiad busnes.
- canlyniadau ein hymholiadau i reolwyr, a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, ynghylch eu gwaith eu hunain i adnabod ac asesu risgiau afreoleidd-dra.
- unrhyw faterion a nodwyd gennym ar ôl derbyn ac adolygu gwybodaeth y cwmni elusennol am ei bolisïau a'i weithdrefnau sy'n ymwneud ag:
    - adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oedd yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio.
    - canfod ac ymateb i risgiau o dwyll ac a oedd yn gwybod am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth o dwyll neu dwyll honedig.
    - y mesurau rheoli mewnol sydd wedi'u sefydlu i liniaru risgiau o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau; ac
    - unrhyw faterion a drafodwyd ymhlith tîm ymgysylltu'r archwiliad, gan gynnwys, os yw'n berthnasol, arbenigwyr allanol, unrhyw dreth neu brisiadau eraill nodedig, ac ati.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, aethom ati i ystyried y cyfleoedd a'r cymhellion a all fodoli o fewn y cwmni elusennol ar gyfer twyll a nodi'r potensial mwyaf i dwyll fod mewn perthynas â chydnabod refeniw, gyda gweithdrefnau penodol yn cael eu cyflawni yma. Yn ogystal, ac yn gyffredin â phob archwiliad o dan ISAs (DU), mae hefyd yn ofynnol i ni gyflawni gweithdrefnau penodol i ymateb i'r risg o ddiystyru rheolwyr.

Sicrhawyd dealltwriaeth gennym hefyd o'r fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol y mae'r cwmni elusennol yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar ddarpariaethau'r cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar bennu symiau a datgeliadau sylfaenol yn y datganiadau ariannol. Roedd y cyfreithiau a'r rheoliadau allweddol a ystyriwyd gennym yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Deddf Cwmnïau 2006, UK GAAP ac unrhyw gyfreithiau a rheoliadau eraill nad ydynt efallai'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol, ond y gallai cydymffurfiaeth â hwy fod yn sylfaenol i allu'r cwmni elusennol i weithredu neu i osgoi cosb faterol.

**Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i Aelodau Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn**

**Ymateb yr archwiliad i risgiau a nodwyd**
Roedd ein gweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau'r datganiadau ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â darpariaethau'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol y disgrifir eu bod yn cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol.

- holi'r rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl.

- cwblhau gweithdrefnau dadansoddol i nodi unrhyw berthnasoedd anarferol neu annisgwyl a all ddynodi risgiau o gamddatganiad sylfaenol oherwydd twyll.

- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a holi am unrhyw ohebiaeth neu faterion a godwyd gyda chyrff rheoleiddio perthnasol.

- sicrhau dealltwriaeth, drwy drafodaethau gyda'r rheolwyr, o'r sail ar gyfer cydnabod incwm; ac

- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy i reolwyr ddiystyru mesurau rheoli, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion sylweddol sy'n anarferol neu y tu hwnt i gwrs arferol y busnes.

Aethom ati hefyd i gyfleu cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau twyll posibl i bob aelod o'r tîm ymgysylltu, ac roeddem yn gyson effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Ceir disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol.

**Defnydd o'n hadroddiad**
Mae'r adroddiad hwn yn cael ei wneud i aelodau'r cwmni elusennol yn unig, fel corff, yn unol â Phennod 3 o Ran 16 Deddf Cwmnïau 2006. Mae ein gwaith archwilio wedi cael ei gwblhau er mwyn i ni allu datgan i aelodau'r cwmni elusennol y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan iddynt mewn adroddiad archwilwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau llawnaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn ysgwyddo cyfrifoldeb i unrhyw un ac eithrio'r cwmni elusennol ac aelodau'r cwmni elusennol fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, ac am y farn a ffurfiwyd gennym.

Rhys Harris BSc FCA
(Uwch Archwilydd Statudol)
ar gyfer ac ar ran

Owain Bebb a'i Gwmni
Archwilwyr Statudol
32 Y Maes
Caernarfon
Gwynedd. LL55 2NN

Dyddiad: 27/6/24

Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn

**Datganiad o weithgareddau ariannol**
**(Yn cynnwys cyfrif incwm a gwariant)**
**ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2023**

| | Nodyn | Cronfa Anghyfyngedig £ | Cronfa Cyfyngedig £ | **31.12.23 Cyfanswm Cronfeydd £** | 31.12.22 Cyfanswm Cronfeydd £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **INCWM A GWADDODION O** | | | | | |
| Rhoddion a chymynroddion | 2 | **12,644** | - | **12,644** | 63,900 |
| **Gweithgareddau elusennol** | 5 | | | | |
| Addysg a hyfforddiant | | **619,998** | - | **619,998** | 621,592 |
| Gweithgareddau masnachu eraill | 3 | **876,962** | - | **876,962** | 842,764 |
| Incwm buddsoddi | 4 | **22,357** | - | **22,357** | - |
| Incwm arall | | **9,756** | - | **9,756** | 1,330 |
| **Cyfanswm** | | **1,541,717** | - | **1,541,717** | 1,529,586 |
| **GWARIANT AR** | | | | | |
| Codi arian | 6 | **265,681** | - | **265,681** | 246,674 |
| **Gweithgareddau elusennol** | 7 | | | | |
| Addysg a hyfforddiant | | **1,134,980** | - | **1,134,980** | 1,054,279 |
| Arall | | **146,846** | - | **146,846** | 137,545 |
| **Cyfanswm** | | **1,547,507** | - | **1,547,507** | 1,438,498 |
| **INCWM NET/(GWARIANT)** | | **(5,790)** | - | **(5,790)** | 91,088 |
| **CYMODI CRONFEYDD** | | | | | |
| Cyfanswm y cronfeydd a ddaeth ymlaen | | **3,812,023** | **229,730** | **4,041,753** | 3,950,665 |
| **CYFANSWM YR ARIAN A GARWYD YMLAEN** | | **3,806,233** | **229,730** | **4,035,963** | 4,041,753 |

**GWEITHREDIADAU PARHAUS**
Mae'r holl incwm a gwariant wedi codi o weithgareddau parhaus.

**Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn**

**Mantolen**
**31 Rhagfyr 2023**

| | Nodyn | Cronfa Anghyfyngedig £ | Cronfa Cyfyngedig £ | **31.12.23 Cyfanswm Cronfeydd £** | 31.12.22 Cyfanswm Cronfeydd £ |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | £ | **£** £ |
| **ASEDAU SEFYDLOG** | | | | | |
| Asedau gweladwy | 13 | **3,212,885** | **-** | **3,212,885** | 3,249,732 |
| **Buddsoddiadau** | | | | | |
| Buddsoddiad mewn is-gwmni | 14 | **100** | **-** | **100** | 100 |
| Eiddo buddsoddi | 15 | **-** | **229,730** | **229,730** | 229,730 |
| | | **3,212,985** | **229,730** | **3,442,715** | 3,479,562 |
| **CASEDAU CYFREDOL** | | | | | |
| Stoc wrth law | 16 | **10,412** | **-** | **10,412** | 16,458 |
| Dyledwyr | 17 | **60,898** | **-** | **60,898** | 42,498 |
| Arian mewn llaw ac yn y banc | | **979,224** | **-** | **979,224** | 1,044,185 |
| | | **1,050,534** | **-** | **1,050,534** | 1,103,141 |
| **CREDYDWYR** | | | | | |
| Symiau'n dyladwy o fewn blwyddyn | 18 | **(345,695)** | **-** | **(345,695)** | (338,029) |
| **ASEDAU CYFREDOL NET** | | **704,839** | **-** | **704,839** | 765,112 |
| **CYFANSWM ASEDAU, LLAI CREDYDWYR CYFREDOL** | | **3,917,824** | **229,730** | **4,147,554** | 4,244,674 |
| **CREDYDWYR** | | | | | |
| Symiau'n dyladwy mewn mwy na deuddeg mis | 19 | **(111,591)** | **-** | **(111,591)** | (202,921) |
| **ASEDAU NET** | | **3,806,233** | **229,730** | **4,035,963** | 4,041,753 |
| **CRONFEYDD** | 23 | | | | |
| Cronfeydd anghyfyngedig | | | | **3,806,233** | 3,812,023 |
| Cronfeydd cyfyngedig | | | | **229,730** | 229,730 |
| **CYFANSWM Y CRONFEYDD** | | | | **4,035,963** | 4,041,753 |

Mae'r nodiadau hyn yn rhan o'r datganiadau ariannol



Parhau...

**Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn**

**Mantolen - parhad**
**31 Rhagfyr 2023**

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi'u paratoi yn unol â'r darpariaethau sy'n berthnasol i gwmnïau elusennol bach, yn unol a'r darpariaethau arbennig yn rhan 15 o'r Ddeddf Cwmnïau 2006.

Cytunwyd ar y datganiadau ariannol gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ac awdurdodwyd eu cyhoeddi ar.......22/6/24....... ac fe'i llofnodwyd ar ran y Bwrdd gan:

..........................................
Mr D H Jones - Ymddiriedolwyr

Mae'r nodiadau hyn yn rhan o'r datganiadau ariannol

## Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn

### Datganiad Llif Arian
### ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2023

| | Nodyn | 31.12.23 £ | 31.12.22 £ |
|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredol** | | | |
| Arian a gynhyrchwyd o weithrediadau | 1 | **109,070** | 262,406 |
| Llog a dalwyd | | **(15,520)** | (13,488) |
| Arian net a ddarperir gan weithgareddau gweithredu | | **93,550** | 248,918 |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Pryniant o asedau sefydlog tangadwy | | **(102,999)** | (21,646) |
| Llog a dderbyniwyd | | **22,357** | - |
| Arian net a ddefnyddir mewn gweithgareddau buddsoddi | | **(80,642)** | (21,646) |
| **Llif arian o weithgareddau ariannu** | | | |
| Ad-daliadau benthyca yn y flwyddyn | | **(77,869)** | (75,074) |
| Arian net a ddefnyddir mewn gweithgareddau ariannu | | **(77,869)** | (75,074) |
| **Newid mewn arian parod a chyfwerthiannau parod yn y cyfnod adrodd** | | **(64,961)** | 152,198 |
| **Arian parod a chyfwerthiadau arian ar ddechrau'r cyfnod adrodd** | | **1,044,185** | 891,987 |
| **Arian parod a chyfwerthiadau arian ar ddiwedd y cyfnod adrodd** | | **979,224** | 1,044,185 |

Mae'r nodiadau hyn yn rhan o'r datganiadau ariannol

Nodiadau i'r Llif Arian
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2023

## 1. CYSONI (GWARIANT) / INCWM NET I LIF ARIAN NET O WEITHGAREDDAU GWEITHREDOL

| | 31.12.23<br>£ | 31.12.22<br>£ |
|---|---|---|
| **Incwm/(gwariant) net ar gyfer y cyfnod adrodd (yn unol â'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol)** | (5,790) | 91,088 |
| **Newidiadau am:** | | |
| Costau dibrisiant | 139,846 | 137,545 |
| Llog a dderbyniwyd | (22,357) | - |
| Llog a dalwyd | 15,520 | 13,488 |
| Lleihad/(Cynnydd) mewn stoc | 6,046 | (2,006) |
| Cynnydd mewn dyledwyr | (18,400) | (31,508) |
| (Lleihad)/Cynnydd mewn credydwyr | (5,795) | 53,799 |
| **Arian net a ddarperir gan weithrediadau** | 109,070 | 262,406 |

## 2. DADANSODDIAD O NEWIDIADAU MEWN CRONFEYDD NET

| | Ar 1.1.23<br>£ | Llif arian<br>£ | Ar 31.12.23<br>£ |
|---|---|---|---|
| **Arian net** | | | |
| Arian mewn llaw ac yn y banc | 1,044,185 | (64,961) | 979,224 |
| | 1,044,185 | (64,961) | 979,224 |
| **Benthyciadau** | | | |
| Yn daliadwy o fewn blwyddyn | (78,084) | (13,461) | (91,545) |
| Yn daliadwy mewn mwy na blwyddyn | (202,921) | 91,330 | (111,591) |
| | (281,005) | 77,869 | (203,136) |
| **Cyfanswm** | 763,180 | 12,908 | 776,088 |

**Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn**

**Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol**
**ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben ar 31 Rhagfyr 2023**

## 1. POLISÏAU CYFRIFO

### Sail paratoi'r datganiadau ariannol
Paratowyd datganiadau ariannol y cwmni elusennol, sy'n endid budd cyhoeddus oddi tan FRS 102, yn unol â'r SORP Elusennol (FRS 102) 'Cyfrifeg ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad o Ymarfer a Argymhellir sy'n berthnasol i elusennau sydd yn paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (daeth i rym 1 Ionawr 2019)', Safon Adrodd Ariannol 102 'Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon' a Deddf Cwmnïau 2006. Paratowyd y datganiadau ariannol oddi tan y confensiwn cost hanesyddol, ac eithrio buddsoddiadau sydd wedi'u cynnwys ar werth y farchnad. Nid oedd ansicrwydd ynghylch a all yr elusen i barhau mewn busnes.

### Paratoi datganiadau ariannol cyfunol
Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys gwybodaeth am Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn fel cwmni unigol ac nid ydynt yn cynnwys gwybodaeth ariannol gyfunol fel rhiant i grŵp. Mae'r elusen wedi'i heithrio o dan Adran 399(2A) o Ddeddf Cwmnïau 2006 o'r gofynion i baratoi datganiadau ariannol cyfunol.

### Dyfarniadau cyfrifeg beirniadol a ffynonellau allweddol o ansicrwydd amcangyfrif
Wrth baratoi'r adroddiadau ariannol, mae'n rhaid i'r rheolwyr wneud dyfarniadau, amcangyfrifon a phenderfyniadau sy'n effeithio ar y ffigurau sy'n cael eu hadrodd. Mae'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac maent yn seiliedig ar brofiad a ffactorau eraill, gan gynnwys disgwyliadau o ddigwyddiadau yn y dyfodol y credir eu bod yn rhesymol oddi tan yr amgylchiadau.

### Incwm
Mae arian sy'n dod i fewn yn cael eu cynnwys yn y datganiad o weithgareddau ariannol pan fydd yr hawl i'r incwm wedi'i drosglwyddo i'r cwmni elusennol. Dilynir y polisïau penodol canlynol:-

- Cydnabyddir incwm o roddion a grantiau pan fydd tystiolaeth o'r rhodd a gellir ei fesur mewn modd dibynadwy.

- Cydnabyddir incwm o ffynonellau gwaddol a chymynroddion pan mae'n debygol y cytunwyd ar yr hawl i'w dderbyn.

- Caiff incwm o nwyddau a roddir i'r elusen ei fesur yn ôl gwerth teg y nwyddau hynny, ac eithrio os yw y dull hyn yn anymarferol. Yn y sefyllfa hon, mae'r gwerth a roddir arnynt yn deillio o'r gost i'r rhoddwr neu ei werth gwerthu amcangyfrifedig. Mae cyfleusterau a roddir a gwasanaethau a ddarperir yn cael eu cydnabod yn y cyfrifon os gellir eu mesur mewn modd dibynadwy. Nid oes gwerth yn cael ei roi ar lafur gwirfoddol.

- Cydnabyddir incwm o gytundebau ar gyfer darparu gwasanaethau wrth i'r cytundeb gael ei wireddu. Caiff hyn ei drin fel cronfeydd anghyfyngedig, ac eithrio os oes amod bod yn rhaid defnyddio'r incwm at ddiben penodol, ac yn y sefyllfa hon caiff ei drin fel cronfa gyfyngedig.



Parhau...

## 1. POLISÏAU CYFRIFO - parhad

**Gwariant**
Cydnabyddir rhwymedigaethau fel gwariant cyn gynted ag y bydd rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol yn ymrwymo'r elusen i'r gwariant hwnnw, mae'n debygol y bydd angen trosglwyddo buddion economaidd wrth setlo a gellir mesur swm y rhwymedigaeth yn ddibynadwy. Cyfrifir gwariant ar sail groniadau ac fe'i dosbarthwyd o dan benawdau sy'n cydgrynhoi'r holl gostau sy'n gysylltiedig â'r categori. Lle na ellir priodoli'r costau'n uniongyrchol i benawdau penodol, fe'u dyrannwyd i weithgareddau ar sail sy'n gyson â'r defnydd o adnoddau.

Mae taliadau prydles gweithredol yn cael eu cydnabod fel cost dros gyfnod y cytundeb ac fe'u cofnodir ar sail llinell syth.

**Asedau sefydlog tangadwy**
Eiddo, Peiriannau ac Offer
Cofnodir asedau sefydlog i ddechrau yn ôl eu cost, ac yna fe'u nodir ar eu cost llai dibrisiant a namau. Mae unrhyw asedau sefydlog sydd wedi cael eu hailbrisio yn cael eu cofnodi ar eu gwerth teg ar ddyddiad prisio, ac llai dibrisiant cronedig ac unrhyw addasiadau am nam.

Mae asedau sefydlog, oddi tan y model cost, yn cael eu datgan ar gost hanesyddol llai ddibrisiant cronedig ac unrhyw golledion nam cronedig. Mae cost hanesyddol yn cynnwys gwariant y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i ddod â'r ased i'r lleoliad a'r amod sy'n angenrheidiol er mwyn iddo allu gweithredu yn y modd a fwriadwyd gan reolwyr. Mae unrhyw asedau sefydlog sydd wedi cael eu hailbrisio yn cael eu cofnodi ar eu gwerth teg ar ddyddiad prisio, llai dibrisiant cronedig ac unrhyw addasiadau am namau.

Nid yw'r tir yn cael ei ddibrisio. Darperir dibrisiant ar asedau eraill ar y cyfraddau blynyddol canlynol er mwyn dyrannu cost yr asedau, llai eu gwerth gweddilliol, dros y bywyd defnyddiol a amcangyfrifed:

Safle'r Nant - 1% - 10% ar sail llinell syth
Offer a pheiriannau ayyb - 5% - 20% ar sail llinell syth

Mae gwerthoedd gweddilliol, bywydau defnyddiol a dulliau dibrisiant yr asedau'n cael eu hadolygu, a'u haddasu fel y bo'n briodol, neu os oes arwydd o newid arwyddocaol ers y dyddiad adrodd diwethaf.

Mae enillion a cholledion ar warediadau yn cael eu pennu trwy gymharu'r enillion â'r swm cario ac yn cael eu cydnabod yn y daflen incwm a gwariant.

Buddsoddiadau asedau sefydlog
Caiff buddsoddiadau rhestredig eu mesur ar eu gwerth teg gyda'r newid yn y prisiad a gofnodir fel incwm neu wariant ar y datganiad o weithgareddau ariannol. Os nad oes modd mesur gwerth teg, yna fe'u cofnodir ar eu cost llai o amhariad. Cofnodir buddsoddiadau heb eu rhestru, fel cyfalaf cyfranddaliadau yr is-gwmni segur, ar gost.

**Eiddo buddsoddi**
Dangosir eiddo buddsoddi ar eu prisiad diweddaraf. Mae unrhyw warged neu ddiffyg cyfanredol sy'n deillio o newidiadau mewn gwerth teg yn cael eu cydnabod yn y datganiad o weithgareddau ariannol.

## 1. POLISÏAU CYFRIFO - parhad

**Stoc wrth law**
Mae stoc yn cael eu prisio ar yr isaf o'u cost isaf a gwerth gwirioneddu net, ar ôl gwneud lwfans dyledus ar gyfer eitemau darfodedig a symud yn araf.

**Trethiant**
Mae'r elusen wedi'i heithrio rhag treth gorfforaeth ar ei gweithgareddau elusennol.

Mae'r elusen wedi ei gofrestru am dreth ar werth, felly lle bynnag y bydd yn briodol, bydd y ffigyrau yn y ddogfen hon yn cael eu dangos yn net o'r dreth hon.

**Cronfeydd**
Gellir defnyddio cronfeydd anghyfyngedig yn unol â'r amcanion elusennol ac yn ôl disgresiwn yr ymddiriedolwyr.

Mae'r cronfeydd dynodedig yn gronfeydd anghyfyngedig sydd wedi'u clustnodi gan yr ymddiriedolwyr ar gyfer prosiect penodol neu gyfnod yn y dyfodol.

Dim ond at ddibenion cyfyngedig penodol y gellir defnyddio arian cyfyngedig o fewn amcanion yr elusen. Mae cyfyngiadau'n codi pan bennir gan y rhoddwr neu pan godir arian at ddibenion cyfyngedig penodol.

Mae esboniad pellach o natur a phwrpas pob cronfa wedi'i chynnwys yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol.

**Llogi ymrwymiadau prynu a phrydlesu**
Codir rhenti a delir oddi tan prydlesi gweithredol i'r datganiad o weithgareddau ariannol ar sail llinell syth dros gyfnod y les.

**Costau pensiwn a budd-daliadau ôl-ymddeol eraill**
Mae'r cwmni elusennol yn gweithredu cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig. Codir cyfraniadau sy'n daladwy i gynllun pensiwn y cwmni elusennol i'r datganiad o weithgareddau ariannol yn y cyfnod y maent yn perthyn iddo.

## 2. RHODDION A CHYMYNRODDION

| | **31.12.23** | 31.12.22 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Rhoddion | **9,103** | 1,644 |
| Ffrindiau'r Nant | **500** | 2,000 |
| Grantiau | **300** | 56,974 |
| Casglu tâl parcio gwirfoddol | **2,741** | 3,282 |
| | **12,644** | 63,900 |

Mae'r grantiau a dderbynnir, sydd wedi'u cynnwys yn yr uchod, fel a ganlyn:

| | **31.12.23** | 31.12.22 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Grantiau eraill | **300** | 56,974 |



Parhau...

## 3. GWEITHGAREDDAU MASNACHOL ERAILL

| | 31.12.23 | 31.12.22 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Llogi lleoliad a safle | 165,678 | 84,785 |
| Incwm arlwyo (caffi) | 433,592 | 481,268 |
| Incwm lletygarwch | 228,656 | 214,578 |
| Incwm bar | 39,679 | 44,254 |
| Gwerthu llyfrau | 4,712 | 10,145 |
| Rhentu nwyddau priodasol | 1,800 | 7,567 |
| Incwm adloniant | 2,845 | 167 |
| | 876,962 | 842,764 |

## 4. INCWM BUDDSODDI

| | 31.12.23 | 31.12.22 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Llog banc a dderbyniwyd | 22,357 | - |

## 5. INCWM O WEITHGAREDDAU ELUSENNOL

| | 31.12.23 | 31.12.22 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Incwm o'r cyrsiau | 98,753 | 80,809 |
| Darlithoedd hanesyddol | 887 | 315 |
| Ymweliadau addysgol | 133 | 468 |
| Grantiau | 520,225 | 540,000 |
| | 619,998 | 621,592 |

Mae'r grantiau a dderbynnir, sydd wedi'u cynnwys yn yr uchod, fel a ganlyn:

| | 31.12.23 | 31.12.22 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol | 520,225 | 540,000 |



Parhau...

## 6. CODI ARIAN

**Gweithgareddau masnachol eraill**

| | 31.12.23 £ | 31.12.22 £ |
|---|---|---|
| Stoc a ddaeth ymlaen | **16,457** | 14,377 |
| Pryniant | **259,939** | 248,750 |
| Stoc ar ddiwedd y flwyddyn | **(10,412)** | (16,457) |
| Dyledion drwg | **(303)** | 4 |
| | **265,681** | 246,674 |

## 7. COSTAU GWEITHGAREDDAU ELUSENNOL

| | Costau uniongyrchol £ | Costau cefnogol (gweler nodyn 8) £ | Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|
| Addysg a hyfforddiant | **1,046,265** | **88,715** | **1,134,980** |

## 8. COSTAU CEFNOGOL

| | Cyllid £ | Costau llywodraethu £ | Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|
| Adnoddau eraill a wariwyd | **-** | **7,000** | **7,000** |
| Addysg a hyfforddiant | **25,499** | **63,216** | **88,715** |
| | **25,499** | **70,216** | **95,715** |

## 9. INCWM/(GWARIANT) NET

Nodir incwm / (gwariant) net ar ôl codi talu / (credydu):

| | 31.12.23 £ | 31.12.22 £ |
|---|---|---|
| Dibrisiant - asedau | **139,846** | 110,630 |
| Llogi offer a pheiriannau | **41,549** | 19,002 |
| Prydlesi gweithredol eraill | **250** | 250 |



Parhau...

## 10. TALIADAU ARCHWILWYR

| | 31.12.23 | 31.12.22 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Ffioedd sy'n daladwy i archwilwyr yr elusen am archwilio datganiadau ariannol yr elusen | **7,000** | 5,000 |

## 11. CYDNABYDDIAETH A BUDDION YR YMDDIRIEDOLWYR

Nid oedd unrhyw gydnabyddiaeth ariannol na buddion eraill ar gyfer y flwyddyn yn diweddu ar 31 Rhagfyr 2023, nac am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2022.

**Treuliau ymddiriedolwyr**

Ni thalwyd treuliau i'r ymddiriedolwyr am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2023 nac am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2022.

## 12. COSTAU STAFF

| | 31.12.23 | 31.12.22 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Cyflogau | **652,623** | 543,349 |
| Yswiriant gwladol | **45,933** | 44,773 |
| Costau pensiwn | **17,473** | 17,981 |
| | **716,029** | 606,103 |

Roedd y nifer cyfartalog o weithwyr yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | 31.12.23 | 31.12.22 |
|---|---|---|
| Rheolwyr allweddol | **5** | 2 |
| Gweithwyr eraill | **36** | 25 |
| | **41** | 27 |

Roedd nifer y gweithwyr, lle y mae eu budd-daliadau gweithwyr (ac eithrio costau pensiwn cyflogwyr) yn fwy na £60,000 oedd:

| | 31.12.23 | 31.12.22 |
|---|---|---|
| £60,001 - £70,000 | **1** | - |

Mae'r bwrdd yr ymddiriedolwyr yn ystyried mai personél rheoli allweddol yr elusen yw'r Prif Swyddog Gweithredol a'r rheolwyr adrannol. Cyfanswm y buddion cyflogaeth, gan gynnwys yswiriant gwladol cyflogwyr a chyfraniadau pensiwn y personél rheoli allweddol oedd £167,574 (2022: £88,721) yn y flwyddyn.



Parhau...

## 13. ASEDAU SEFYDLOG TANGADWY

| | Eiddo Rhydd-ddaliadol £ | Gosodiadau a Ffitiadau £ | Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|
| **COST** | | | |
| Ar 1 Ionawr 2023 | **7,591,536** | **294,648** | **7,886,184** |
| Ychwanegiadau | **49,001** | **53,998** | **102,999** |
| Ar 31 Rhagfyr 2023 | **7,640,537** | **348,646** | **7,989,183** |
| **DIBRISIAD** | | | |
| Ar 1 Ionawr 2023 | **4,501,044** | **135,408** | **4,636,452** |
| Dibriant am y flwyddyn | **111,242** | **28,604** | **139,846** |
| Ar 31 Rhagfyr 2023 | **4,612,286** | **164,012** | **4,776,298** |
| **NET BOOK VALUE** | | | |
| Ar 31 Rhagfyr 2023 | **3,028,251** | **184,634** | **3,212,885** |
| Ar 31 Rhagfyr 2022 | 3,090,492 | 159,240 | 3,249,732 |

Cafodd safle'r cwmni elusennol ei brisio, ar sail y farchnad agored, gan Christies ym mis Hydref 2019, gyda gwerth o £3.3m yn cael ei briodoli iddo. Mae'r bwrdd o'r farn fod hyn yn adlewyrchiad teg o'i werth presennol, ac felly mae'r bwrdd yn cytuno nad oes angen prisiad newydd, na newid am amhariad eleni.

## 14. BUDDSODDIADAU ASEDAU SEFYDLOG

| | Cyfranddaliadau mewn ymgymeriadau grwp £ |
|---|---|
| **GWERTH MARCHNAD** | |
| Ar 1 Ionawr 2023 a 31 Rhagfyr 2023 | **100** |
| **GWERTH LLYFR NET** | |
| Ar 31 Rhagfyr 2023 | **100** |
| Ar 31 Rhagfyr 2022 | 100 |

Nid oedd unrhyw asedau buddsoddi y tu allan i'r Deyrnas Unedig.



Parhau...

**14. BUDDSODDIADAU ASEDAU SEFYDLOG - parhad**

**Cwmni Nant Cyfyngedig**
Swyddfa Cofrestredig: Nant Gwrtheyrn, Llithfaen, Gwynedd, LL53 6NL
Natur y busnes: Ddim yn masnachu

| Cyfranddaliadau: | % cyfanswm |
|---|---|
| 100 o gyfranddaliadau cyffredin - £1 | **100** |

**15. EIDDO BUDDSODDI**

| | £ |
|---|---|
| **GWERTH TEG** | |
| Ar 1 Ionawr 2023 a 31 Rhagfyr 2023 | **229,730** |
| **GWERTH LLYFR NET** | |
| Ar 31 Rhagfyr 2023 | **229,730** |
| Ar 31 Rhagfyr 2022 | 229,730 |

Manylion o'r eiddo buddsoddi:
Yn ystod 2007, trosglwyddwyd y tir ym Mhorth y Nant, Pistyll i'r cwmni fel rhodd gan Hanson Quarry Products Europe Ltd. Yn ôl y Bwrdd, a'r ddogfen sydd wedi ei chofrestru, nid oes gwerth i'r tir hwn.

Hefyd yn ystod 2007, derbyniodd y cwmni elusennol rodd gan Ms Heulwen Richards o'r canlynol:-

- Yr Ogof, Ravenspoint, Bae Trearddur, Ynys Môn, sef cartref Ms Richards. Mae ganddi hawl dros yr eiddo am weddill ei hoes. Amcangyfrif o werth yr eiddo yw £227,758. Mae'r eiddo yn rhan o'r cronfeydd cyfyngedig.
- Cyfran o 49% mewn 5 cae yn ardal Caergybi a elwir yn Tir Môn. Gan mai dim ond 49% mae y cwmni berchen, mae'r gwerth yn y cyfrifon yn isel, gyda gwerth o ddim ond £1,972 yn cael ei briodoli.

Cafodd y tir a'r adeiladau cyfan eu prisio'n broffesiynol gan Dafydd Hardy MRICS ym mis Mai 2009, ond ers hynny mae'r ymddiriedolwyr wedi cadw llygad ar y farchnad leol, ac yn credu bod yr uchod yn frasamcan cywir o werth eu marchnad.

**16. STOC**

| | **31.12.23** £ | 31.12.22 £ |
|---|---|---|
| Stoc | **10,412** | 16,458 |

**17. DYLEDWYR: SYMIAU SY'N DDYLEDUS O FEWN BLWYDDYN**

| | **31.12.23** £ | 31.12.22 £ |
|---|---|---|
| Dyledwyr masnachol | **51,038** | 32,213 |
| Blaendaliadau | **9,860** | 10,285 |
| | **60,898** | 42,498 |



Parhau...

## 18. CREDYDWYR: SYMIAU SY'N DDYLEDUS O FEWN BLWYDDYN

| | 31.12.23 | 31.12.22 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Benthyciadau banc a gorddrafftiau (gweler nodyn 20) | **91,545** | 78,084 |
| Credydwyr masnachol | **93,474** | 65,445 |
| Nawdd cymdeithasol a threthi eraill | **9,873** | 10,643 |
| Treth ar werth | **6,099** | 597 |
| Credydwyr eraill | **3,524** | - |
| Cyfalaf cyfranddaliadau yr is-gwmni | **100** | 100 |
| Incwm gohiriedig | **133,630** | 95,062 |
| Costau cronedig | **7,450** | 88,098 |
| | **345,695** | 338,029 |

## 19. CREDYDWYR: SYMIAU SY'N DDYLEDUS AR ÔL MWY NA BLWYDDYN

| | 31.12.23 | 31.12.22 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Benthyciadau banc (gweler nodyn 20) | **97,733** | 189,063 |
| Benthyciadau Eraill (gweler nodyn 20) | **13,858** | 13,858 |
| | **111,591** | 202,921 |

## 20. BENTHYCIADAU

Rhoddir dadansoddiad o aeddfedrwydd benthyciadau isod:

| | 31.12.23 | 31.12.22 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Symiau sydd yn ddyledus, ar alw, o fewn blwyddyn: | | |
| Benthyciadau banc | **91,545** | 78,084 |
| Symiau sydd yn ddyledus o fewn blwyddyn i ddwy: | | |
| Benthyciadau banc - 1-2 flynedd | **26,314** | 78,084 |
| Symiau sydd yn ddyledus mewn dwy i bum mlynedd: | | |
| Benthyciadau banc - 2-5 mlynedd | **52,628** | 43,566 |
| Symiau sydd yn ddyledus ar ôl pum mlynedd: | | |
| Ad-daladwy drwy rhandaliadau: | | |
| Benthyciadau banc - mwy na 5 mlynedd | **18,791** | 67,413 |
| Ad-daladwy ad eithrio rhandaliadau: | | |
| Benthyciadau eraill - mwy na 5 mlynedd | **13,858** | 13,858 |



Parhau...

## 21. CYTUNDEBAU PRYDLESU

Mae isafswm taliadau prydles oddi tan brydlesi gweithredol a na ellir eu canslo yn ddyledus fel a ganlyn:

| | 31.12.23 | 31.12.22 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| O fewn blwyddyn | 11,029 | - |
| Rhwng 1 a 5 mlynedd | 38,864 | 18,021 |
| | 49,893 | 18,021 |

## 22. DYLEDION GWARANTEDIG

Mae'r dyledion canlynol wedi'u gwarantu ac yn cael eu cynnwys o fewn y credydwyr:

| | 31.12.23 | 31.12.22 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Benthyciadau banc | 189,278 | 267,147 |

Ar hyn o bryd mae gan y cwmni elusennol 3 ffi weithredol ar ei gofrestr yn Thŷ'r Cwmnïau, gyda'r rhain yn gysylltiedig â'r benthyciadau a nodir yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol. Y prif fanylion ar eu cyfer yw:

1. Gweithred forgais, a grëwyd gan Lloyds Bank ar 2 Rhagfyr 2009. Mae'r tâl dros y rhifau teitl CYM64983, WA574689, CYM96651, a'r holl adeiladau a gosodiadau cysylltiedig.

2. Tâl cyfreithiol, a grëwyd gan Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ar 26 Mawrth 2010. Mae tâl dros y teitl rhif CYM64983.

3. Tâl cyfreithiol dros y teitl CYM368839, Yr Ogof, Bae Trearddur, Ynys Môn. Crëwyd hyn ar 5 Mawrth 2015, gyda'r canlynol yn dwyn y teitl: Syr James Douglas Spooner, Syr Martin Wakefield Jacomb, Arglwydd Sainsbury o Preston Candover KG. a'r Arglwydd Sainsbury o Preston Candover CBE.

## 23. SYMUD MEWN CRONFEYDD

| | Ar 1.1.23 | Symudiad net mewn cronfeydd | Trosglwyddiadau rhwng y cronfeydd | Ar 31.12.23 |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| **Cronfeydd anghyfyngedig** | | | | |
| Cronfa gyffredinol | 562,291 | 134,055 | (102,999) | 593,347 |
| Cronfa asedau sefydlog | 3,249,732 | (139,845) | 102,999 | 3,212,886 |
| | 3,812,023 | (5,790) | - | 3,806,233 |
| **Cronfeydd cyfyngedig** | | | | |
| Cronfa eiddo buddsoddi | 229,730 | - | - | 229,730 |
| **CYFANSWM CRONFEYDD** | 4,041,753 | (5,790) | - | 4,035,963 |



Parhau...

## 23. SYMUD MEWN CRONFEYDD - parhad

Mae y symudiad net mewn cronfeydd, sydd wedi'u cynnwys yn yr uchod fel a ganlyn:

| | Incwm £ | Gwariant £ | Symudiad yn y cronfeydd £ |
|---|---|---|---|
| **Cronfeydd anghyfyngedig** | | | |
| Cronfa gyffredinol | **1,541,716** | **(1,407,661)** | **134,055** |
| Cronfa asedau sefydlog | **-** | **(139,845)** | **(139,845)** |
| | **1,541,716** | **(1,547,506)** | **(5,790)** |
| **CYFANSWM CRONFEYDD** | **1,541,716** | **(1,547,506)** | **(5,790)** |

**Symud yn cronfeydd y llynedd**

| | Ar 1.1.22 £ | Symudiad net mewn cronfeydd £ | Trosglwyddiadau rhwng y cronfeydd £ | Ar 31.12.22 £ |
|---|---|---|---|---|
| **Cronfeydd anghyfyngedig** | | | | |
| Cronfa gyffredinol | 355,304 | 228,633 | (21,646) | 562,291 |
| Cronfa asedau sefydlog | 3,365,631 | (137,545) | 21,646 | 3,249,732 |
| | 3,720,935 | 91,088 | - | 3,812,023 |
| **Cronfeydd cyfyngedig** | | | | |
| Cronfa eiddo buddsoddi | 229,730 | - | - | 229,730 |
| **CYFANSWM CRONFEYDD** | 3,950,665 | 91,088 | - | 4,041,753 |

Mae y symudiad net mewn cronfeydd, sydd wedi'u cynnwys yn yr uchod fel a ganlyn:

| | Incwm £ | Gwariant £ | Symudiad yn y cronfeydd £ |
|---|---|---|---|
| **Cronfeydd anghyfyngedig** | | | |
| Cronfa gyffredinol | 1,529,586 | (1,300,953) | 228,633 |
| Cronfa asedau sefydlog | - | (137,545) | (137,545) |
| | 1,529,586 | (1,438,498) | 91,088 |
| **CYFANSWM CRONFEYDD** | 1,529,586 | (1,438,498) | 91,088 |

**Trosglwyddiadau rhwng y cronfeydd**

Mae'r trosglwyddiad rhwng yr cronfeydd yn cynrychioli trosglwyddo'r costau ychwanegiadau i'r asedau sefydlog yn y flwyddyn, hyn o'r gronfa gyffredinol ac i fewn i'r gronfa asedau sefydlog dynodedig.



Parhau...

## 24. RHWYMEDIGAETHAU BUDD-DAL GWEITHWYR

Y swm a gynhwyswyd oddi fewn y cyfrif incwm a gwariant ar gyfer y cynllun pensiwn oedd £17,473 (2022: £17,981).

## 25. YMRWYMIADAU ARIANNOL ERAILL

Hyd at 31 Rhagfyr 2023, mae'r cwmni wedi derbyn grantiau cyfalaf gan nifer o ddarparwyr, gyda'r cronfeydd hyn i ddatblygu'r Capel, y Ganolfan Ddehongli, y ffordd i lawr i'r ganolfan a'r safle ehangach yn gyffredinol. Nodir cyfanswm y grantiau hyn isod, ac efallai y bydd yn rhaid i'r cwmni ad-dalu'r grant, gydag ef mewn cyfnod penodol, os yw'r cwmni'n newid neu'n methu â bodloni'r amodau a nodir yn y cytundebau.

WEFO, cam 2 - £600,000 (2022: £600,000)
Loteri - £523,846 (2022: £523,846)

## 26. DATGELIADAU PARTION CYSYLLTIEDIG

Rheolir yr Elusen gan yr ymddiriedolwyr a enwir ar ddechrau'r ddogfen hon. Ni thalwyd unrhyw gostau teithio na chostau eraill i'r ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn hon na'r flwyddyn flaenorol.

Fodd bynnag, ar ddiwedd y flwyddyn roedd y swm canlynol yn daladwy i aelodau'r bwrdd o ymddiriedolwyr: (Nid oes llog yn daladwy ar y benthyciad):- Mrs P M Ellis - £2,000 (2022: £2,000).

**YMDDIRIEDOLAETH NANT GWRTHEYRN**

England & Wales - Charity number 1078543

# Accounts

# YMDDIRIEDOLAETH NANT GWRTHEYRN
# (CYFYNGEDIG TRWY WARANT)

## ADRODDIADAU ARIANNOL

## AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2022

**(Rhif y Cwmni  3865538)**
**(Rhif Elusen 1078543)**

# YMDDIRIEDOLAETH NANT GWRTHEYRN

## ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

Cyflwyna'r ymddiriedolwyr eu hadroddiad ynghyd â'r cyfrifon wedi eu harchwilio am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2022.

### Prif Weithgaredd ac Adolygiad

Pwrpas Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn yw hyrwyddo a meithrin, yng Nghymru, addysg a hyfforddiant o'r iaith, diwylliant a llenyddiaeth Cymraeg. Gweithreda'r Cwmni yn bennaf yng Nghanolfan Iaith a Threftadaeth Genedlaethol Nant Gwrtheyrn ger Llithfaen ond hefyd cynhelir gweithgareddau mewn canolfannau eraill, pan yn briodol.

### Manylion eraill

| | | |
|---|---|---|
| **Rhif y Cwmni:** | 3865538 | |
| **Rhif yr Elusen:** | 1078543 | |
| **Swyddfa Gofrestredig:** | Canolfan Genedlaethol Iaith a Diwylliant<br>Nant Gwrtheyrn<br>Llithfaen<br>Pwllheli | |
| **Archwilwyr:** | Owain Bebb a'i Gwmni<br>32 Y Maes<br>Caernarfon | |
| **Bancwyr:** | HSBC<br>Pwllheli | Lloyds TSB<br>Bangor |
| **Cyfreithwyr:** | Ellis Davies & Co.<br>27 Stryd Bangor<br>Caernarfon | |

### Ymddiriedolwyr

Dan y Ddeddf Cwmnïau mae gan yr Ymddiriedolwyr yr un cyfrifoldebau â Chyfarwyddwyr. Mae Cyfarwyddwyr yr Ymddiriedolaeth yn cael eu hethol o'r aelodaeth yn flynyddol yn ystod y Cyfarfod Blynyddol a'r aelodau a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn ac ar hyn o bryd yw:-

Y Meddyg Carl Clowes
Clive Wolfendale (Trysorydd) (ymddiswyddodd 23.7.22)
Gwenda Griffith
Myrddin ap Dafydd (ymddiswyddodd 23.7.22)
Ann Hughes
Martin Croydon (penodwyd 23.7.22)
Garffild Lloyd Lewis (penodwyd 23.7.22)
Phyllis Ellis (Ysgrifenydd)
Huw Jones (Cadeirydd)
Menna Jones (Is-gadeirydd)
Ifor Gruffydd
Jo Iwan
Rhiannon Ceiri (penodwyd 23.7.22)

### Prif Aelodau Staff

Mair Saunders - Prif Weithredwr

### Strwythur, Llywodraethu a Rheoli

Elusen gofrestredig a chwmni cyfyngedig trwy warant yw Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn, a gaiff ei lywodraethu gan Femorandwm ac Erthyglau'r Cwmni. Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi yn unol â gofynion sy'n berthnasol i gwmni elusennol.

**Strwythur, Llywodraethu a Rheoli - parhad**

Mae aelodaeth Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn yn agored i unrhyw unigolyn neu gorff gyda diddordeb mewn hyrwyddo ei amcanion, sydd yn gwneud cais i'r cwmni elusennol ar y ffurflen briodol ac sydd yn derbyn cymeradwyaeth Ymddiriedolwyr yr Ymddiriedolaeth.

Mae gan y cwmni broses i anwytho ymddiriedolwyr newydd. Etholir aelodau a swyddogion i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth yn y Cyfarfod Blynyddol. Mae Ymddiriedolwyr yr Ymddiriedolaeth (Y Bwrdd), nad ydynt yn fwy nag 11 mewn nifer, yn rheoli'r Cwmni Elusennol, ei eiddo a'i gronfeydd. Mae hawl gan y Bwrdd i gyfethol aelodau gyda gwybodaeth neu ddiddordeb arbennig mewn maes perthnasol. Gweithredir unrhyw strategaethau a fabwysiedir gan staff yr Ymddiriedolaeth. Cynhelir cyfarfodydd y Bwrdd o leiaf bedair gwaith y flwyddyn.

Mae asesiad risg llawn ar gyfer Iechyd a Diogelwch wedi ei gwblhau.

**Amcanion a Gweithgareddau**

Amcanion y Cwmni yw meithrin addysg yng Nghymru ac i hyrwyddo addysg ac astudiaeth y cyhoedd yn yr iaith Gymraeg, llenyddiaeth a diwylliant Cymraeg ac i weithredu hyn mewn canolfan neu ganolfannau addas (rhai preswyl neu ddibreswyl) yng Nghymru. Bu holl weithgareddau'r Cwmni yn ystod 2022 yn unol â'r amcanion hyn.

**Adroddiad ar Weithgareddau'r Flwyddyn**

Dyma'r flwyddyn gyntaf o weithgareddau llawn yn dilyn adferiad rhannol 2021, wedi cyfyngiadau Covid.

Llwyddodd yr Adran Addysg i barhau i ddarparu dulliau ychwanegol o ddysgu Cymraeg arlein, yn ogystal ag ystod lawn o gyrsiau preswyl ar y safle. Mae'r gallu i gynnig dewis eang o gyfleodd dysgu yn allweddol os am gynyddu i'r eithaf nifer y rhai sy'n dysgu'r iaith. Fe barhaodd yr arlwy i ddenu adborth ffafriol a chanmoliaeth gan y dysgwyr.

Bu'n flwyddyn hynod o brysur o ran ein gweithgareddau masnachol, sydd mor hanfodol er mwyn cynnal y safle a'r gweithgarwch. Gohiriwyd llawer o briodasau yn 2020 a 2021 yn sgil Covid ac o'r herwydd croesawyd mwy na'r nifer arferol ohonynt yn 2022 wrth i ddyddiadau gael eu hail-drefnu.

Golygodd hyn fod pwysau sylweddol ar ysgwyddau ein staff a hynny ar adeg pan oedd y diwydiant lletygarwch yn gyffredinol yn wynebu problemau staffio mawr. Gwnaed ymdrech arwrol i gynnal pob elfen o'r gwasanaeth ar y lefel uchaf.

Mae gwybodaeth am y Nant fel mangre hudolus i ymweld ag ef yn dal i gynyddu gan greu prysurdeb mawr yng Nghaffi Meinir ar ddyddiau braf. Mae nifer cyson o ymwelwyr bob wythnos yn mwynhau'r cyflwyniadau treftadaeth yn y Capel, y Tŷ Cyfnod a'r Feddygfa.

Gwnaed buddsoddiad sylweddol unwaith eto yn yr adnoddau ar y safle, gan adnewyddu dau o'r unedau llety i safon sylweddol uwch. Mae'n fwriad llunio rhaglen estynedig i sicrhau cynnal a chadw ac uwch-raddio'r holl unedau dros gyfnod o rai blynyddoedd.

Mae lleoliad, hanes a chyfleusterau Nant Gwrtheyrn yn adnodd amhrisiadwy i'r genedl. Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth am sicrhau fod posibiliadau'r Nant ar gyfer Dysgu, Ysbrydoli a Mwynhau yn cael eu gwireddu'n llawn ac mae'r gwaith o gynllunio'n strategol ar gyfer sicrhau cyflawni'r amcan yma eisoes wedi dechrau.

### Adolygiad Ariannol

Mae'r elusen wedi gwneud gwarged yn y flwyddyn hon o £91,088 (2021: gwarged - £381,159).

### Polisi'r elusen ynglŷn â'r cronfeydd wrth gefn

Y mae'r Elusen wedi mabwysiadu polisi cronfa wrth gefn. Bydd y cwmni yn anelu i gadw mewn cronfa wrth gefn dau fis o gostau rhedeg cyfredol, gan geisio cynyddu'r gronfa i swm sydd yn gyfartal i bedwar mis o gostau rhedeg.

### Datganiad Budd y Cyhoedd

Mae'r Bwrdd wedi ystyried adroddiad y Comisiwn Elusennau ynglŷn â Budd i'r Cyhoedd ac maent yn fodlon bod gweithgareddau'r elusen yn ystod y flwyddyn, fel y disgrifiwyd uchod, yn unol â'r prawf hwnnw.

### Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr

Mae'r Ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr o'r cwmni at bwrpas cyfraith cwmni) yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r adroddiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig (UKGAAP).

Mae cyfraith cwmni yn ei wneud yn ofynnol i Ymddiriedolwyr baratoi Adroddiadau Ariannol sydd yn rhoi golwg cywir a theg o sefyllfa ariannol y cwmni elusennol ac o'r adnoddau i mewn ac allan gan gynnwys incwm a gwariant o'r cwmni elusennol am y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r adroddiadau ariannol, mae yn rhaid i'r Ymddiriedolwyr:-

- ddewis polisïau cyfrifo addas ac yna eu gweithredu yn gyson.
- dilyn egwyddorion a gweithdrefnau sydd yn y SORP elusennau.
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon sydd yn rhesymol ac yn ddarbodus.
- datgan os yw Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig perthnasol wedi eu dilyn, yn amodol i unrhyw newid materol sydd wedi eu datguddio a'u hegluro yn yr Adroddiadau Ariannol, a
- paratoi adroddiadau ariannol ar sail bod y busnes yn parhau oni bai nad yw yn addas i gymeryd y bydd y cwmni elusennol yn parhau mewn busnes.

## ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR - parhad

### Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr - parhad

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifo digonol sydd yn datgelu gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol y cwmni elusennol, ac i'w galluogi i sicrhau bod yr Adroddiadau Ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Maent hefyd yn gyfrifol am sicrhau asedion y cwmni elusennol a thrwy hynny cymeryd camau rhesymol er mwyn atal a datgelu unrhyw dwyll neu anghysondeb arall.

Cyn belled a bod yr Ymddiriedolwyr yn ymwybodol:-

- nid oes unrhyw wybodaeth archwilio nad yw archwilwyr y cwmni elusennol yn ymwybodol ohono, ac

- y mae'r Ymddiriedolwyr wedi cymryd y camau sy'n ddyletswydd arnynt i sicrhau eu bod yn hysbys o unrhyw wybodaeth fyddai'n berthnasol i'r archwiliad, ac i sicrhau fod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth hynny.

Mae'r adroddiad hwn wedi ei arwyddo ar ran y Bwrdd ar gan:

.................................................. Phyllis Ellis (Ysgrifennydd)

**YMDDIRIEDOLAETH NANT GWRTHEYRN**

**ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL**
**I AELODAU YMDDIRIEDOLAETH NANT GWRTHEYRN**

**Barn**

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2022 sy'n cynnwys Datganiad o Symudiadau Ariannol, Mantolen, a datganiad llif Arian a nodiadau ar y datganiadau ariannol, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu pwysig. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd i'w paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102: Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:-

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Elusen ar y 31 Rhagfyr 2022 ac o'r adnoddau a ddaeth i law a'r defnydd o adnoddau am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â'r Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig;
- wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

**Sail y farn**

Rydym wedi cynnal ein harchwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) (ISAs (y DU)) a'r gyfraith berthnasol. Caiff ein cyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach o dan adran cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol yn ein hadroddiad. Rydym yn annibynnol ar yr Elusen yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad ar ddatganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol [a'r darpariaethau sydd ar gael i gyrff bach, o dan yr amgylchiadau sydd yn nodyn 2 ar y datganiadau ariannol], ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Rydym yn credu bod y dystiolaeth archwilio rydym wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol er mwyn rhoi sail ar gyfer ein barn.

**Casgliadau'n ymwneud â busnes byw**

Nid oes gennym ddim i adrodd yn ei gylch yng nghyswllt y materion canlynol lle mae ISAs (y DU) yn ei gwneud yn ofynnol i ni roi gwybod i chi:-

- os nad yw defnydd yr ymddiriedolwyr o sail cyfrifyddu busnes byw wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- os nad yw'r ymddiriedolwyr wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd o bwys a ganfuwyd a allai fwrw amheuaeth sylweddol dros allu'r Elusen i barhau i fabwysiadu'r sail cyfrifyddu busnes byw am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad pryd yr awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

**Gwybodaeth arall**

Yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol, ac eithrio'r datganiadau ariannol a'n hadroddiad ni fel archwilydd arnynt. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall ac nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny, ac eithrio i'r graddau y gwnaed hynny'n benodol fel arall yn ein hadroddiad.

Yng nghyswllt ein harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen yr wybodaeth arall a, drwy wneud hynny, ystyried a oes anghysondeb o bwys rhwng yr wybodaeth arall a'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth rydym ni wedi'i chael yn yr archwiliad, neu a yw'n ymddangos bod camddatganiad o bwys yn yr wybodaeth arall. Os byddwn yn canfod anghysonderau o bwys neu gamddatganiadau o bwys tybiedig, mae'n ofynnol i ni bennu a oes camddatganiad o bwys yn y datganiadau ariannol neu gamddatganiad o bwys o'r wybodaeth arall. Ar sail y gwaith rydym wedi'i wneud, os byddwn yn dod i'r casgliad bod camddatganiad o bwys o'r wybodaeth arall hon, mae'n rhaid i ni adrodd ar y ffaith honno.

Nid oes gennym ddim i'w adrodd i'r perwyl hwn.

## ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL I AELODAU YMDDIRIEDOLAETH NANT GWRTHEYRN

**Barn ar faterion eraill a bennir gan Ddeddf Cwmnïau 2006**

Yn ein barn ni, ar sail y gwaith a wnaed wrth gynnal yr archwiliad:-

- mae'r wybodaeth yn adroddiad yr ymddiriedolwyr (sy'n cynnwys yr adroddiad strategol ac adroddiad y cyfarwyddwyr) ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi ar ei chyfer, yn gydnaws â'r datganiadau ariannol; ac
- mae adroddiad yr ymddiriedolwyr (sy'n cynnwys yr adroddiad strategol ac adroddiad y cyfarwyddwyr) wedi cael eu paratoi yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

**Materion y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt drwy eithriad**

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Elusen a'i hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, dydyn ni ddim wedi dod o hyd i unrhyw gamddatganiadau sylweddol yn Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr [gan gynnwys yr Adroddiad Strategol].

Nid oes gennym ddim i'w adrodd yng nghyswllt y materion canlynol lle mae'n ofynnol inni o dan Ddeddf Cwmnïau 2006 roi adroddiad ichi os, yn ein barn ni:-

- nad oes cofnodion cyfrifyddu priodol wedi cael eu cadw, neu nad oes ffurflenni perthnasol i'n harchwiliad wedi cael eu cyflwyno gan ganghennau nad ydym wedi ymweld â nhw;
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r ffurflenni a'r cofnodion cyfrifyddu;
- nad yw rhai o daliadau'r ymddiriedolwyr, a nodir yn y gyfraith, wedi cael eu datgelu; neu
- nad ydym wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sy'n angenrheidiol ar gyfer ein harchwiliad.

**Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr**

Fel yr esboniwyd yn fwy manwl yn y datganiad o gyfrifoldebau ymddiriedolwyr [a nodwyd ar dudalen 3], mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac am y rheolaeth fewnol sy'n angenrheidiol yn eu barn hwy er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sydd ddim yn cynnwys camddatganiadau o bwys, boed o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad.
Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r Elusen i barhau fel busnes byw, gan ddatgelu, fel bo'n berthnasol, faterion sy'n gysylltiedig â busnes byw a defnyddio sail cyfrifyddu busnes byw oni fo'r ymddiriedolwyr un ai'n bwriadu diddymu'r Elusen neu roi'r gorau i weithredu, neu nad oes ganddynt unrhyw opsiwn realistig arall heblaw am hynny.

**Ein cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol**

Ein hamcanion ni yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau o bwys, boed y rheini wedi'u gwneud drwy dwyll neu gamgymeriad, a rhoi ein barn ni ar ffurf adroddiad yr archwilydd. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (y DU) bob amser yn dod o hyd i gamddatganiad o bwys pan fydd yn bodoli. Mae camddatganiadau'n gallu codi drwy dwyll neu gamgymeriad ac maent yn cael eu hystyried yn rhai o bwys os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y byddai'n rhesymol disgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol i'w ganfod ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: [www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities]. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n hadroddiad fel archwilydd.

## ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL I AELODAU YMDDIRIEDOLAETH NANT GWRTHEYRN

### Defnyddio ein hadroddiad

Caiff yr adroddiad hwn ei wneud ar gyfer aelodau’r Elusen yn unig, fel corff, yn unol â Phennod 3, Rhan 16 o Ddeddf Cwmnïau 2006. Cyflawnwyd ein gwaith archwilio er mwyn i ni allu datgan wrth aelodau’r Elusen y materion hynny y mae’n ofynnol i ni eu datgan wrthynt mewn adroddiad archwilydd, ac i ddim pwrpas arall. I'r graddau mwyaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn ysgwyddo cyfrifoldeb i neb, ac eithrio i aelodau’r Elusen fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.

***Rhys Harris***
***Prif Archwiliwr Statudol***
***Dros ac ar ran***
***Owain Bebb a’i Gwmni***
***Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilwyr Statudol***
***32 Y Maes,***
***Caernarfon.***

## DATGANIAD O SYMUDIADAU ARIANNOL (INCWM A GWARIANT) A DATGANIAD O HOLL ENILLION/COLLEDION

## AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR, 2022

| | Nodyn | Cronfeydd Anghyfyngedig £ | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Cyfanswm 2022 £ | Cyfanswm 2021 £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm a Gwaddolion** | | | | | |
| Rhoddion a Chymunroddion | **5** | 3,644 | **-** | 3,644 | 28,500 |
| Gweithgareddau Elusennol | **6** | 620,809 | - | 620,809 | 887,580 |
| Incwm Buddsoddiadol | **7** | - | **-** | **-** | - |
| Gweithgareddau Masnachol | | 905,044 | - | 905,044 | 733,199 |
| **Cyfanswm Incwm** | | 1,529,497 | - | 1,529,497 | 1,649,279 |
| **Gwariant** | | | | | |
| Gwariant ar weithgareddau elusennol | **8,9** | 1,438,409 | - | 143,809 | 1,268,120 |
| **Cyfanswm y gwariant** | | 1,438,409 | - | 1,438,409 | 1,268,120 |
| **Incwm Net** | | 9,1088 | **-** | 9,1088 | 38,1159 |
| Trosglwyddiad rhwng cronfeydd | | - | - | - | - |
| **Symudiadau Net yn y Cronfeydd** | | 91,088 | **-** | 91,088 | 38,1159 |
| **Cymodlannedd y Cronfeydd** | | | | | |
| Cyfanswm y Cronfeydd d/y | | 3,722,578 | 228,087 | 3,950,665 | 3,569,506 |
| **Cyfanswm y Cronfeydd c/y** | | 3,813,666 | 228,087 | 4,041,753 | 3,950,665 |

Mae'r datganiad hwn yn cynnwys holl enillion a cholledion cydnabyddedig y flwyddyn.

Mae'r cyfan o'r incwm a'r gwariant yn deillio o weithgareddau sy'n parhau.

**YMDDIRIEDOLAETH NANT GWRTHEYRN**

**MANTOLEN**

**AR 31 RHAGFYR, 2022**

| | Nodyn | 2022 | 2021 |
|---|---|---|---|
| | | £ | £ |
| **ASEDAU SEFYDLOG** | | | |
| Asedau Gweladwy | **17** | 3,249,732 | 3,365,631 |
| Tir ac adeilad buddsoddiadol | **18** | 229,730 | 229,730 |
| | | ------------ | ------------ |
| | | 3,479,462 | 3,595,361 |
| | | ------------ | ------------ |
| **ASEDAU CYFREDOL** | | | |
| Stoc | **19** | 16,457 | 14,452 |
| Dyledwyr | **20** | 42,498 | 10,990 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | | 1,044,185 | 891,987 |
| | | ------------ | ----------- |
| | | 1,103,140 | 917,429 |
| **CREDYDWYR** - symiau'n daladwy o fewn blwyddyn | **21** | (337,928) | (292,884) |
| | | ------------ | ----------- |
| **(CREDYDWYR)/ASEDAU CYFREDOL NET** | | 765,212 | 624,545 |
| | | ------------ | ------------ |
| **CYFANSWM ASEDAU LLAI CREDYDWYR CYFREDOL** | | 4,244,674 | 4,219,906 |
| **CREDYDWYR** - symiau'n daladwy ar ôl blwyddyn | **22** | (202,921) | (269,241) |
| | | ------------ | ------------ |
| **ASEDAU NET** | | 4,041,753 | 3,950,665 |
| | | ======= | ======= |
| **CRONFEYDD** | | | |
| Cronfeydd Anghyfyngedig | | 3,813,666 | 3,722,578 |
| Cronfeydd Cyfyngedig | | 228,087 | 228,087 |
| | | ------------ | ------------ |
| | **25** | 4,041,753 | 3,950,665 |
| | | ======= | ======= |

Mae'r cyfrifon wedi eu mabwysiadu gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ac wedi eu harwyddo ar ran y Bwrdd ar gan:

........................................................ Huw Jones (Cadeirydd)

Mae'r nodiadau ar dudalennau 11 i 21 yn ffurfio rhan gyflawn o'r cyfrifon hyn.

## DATGANIAD LLIF ARIAN

## AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU'R 31 RHAGFYR, 2022

| | 2022<br>£ | 2021<br>£ |
|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredol** | | |
| Incwm net | 91,088 | 38,1159 |
| Addasiad ar gyfer: | | |
| Dibrisio asedau dirweddol | 137,545 | 135,337 |
| Llôg a dalwyd a chostau tebyg | 13,488 | 7,445 |
| Newidiadau mewn: | | |
| Stoc | (2,005) | (828) |
| Dyledwyr masnachol a dyledwyr eraill | (31,508) | 79,206 |
| Credydwyr masnachol a chredydwyr eraill | 53,798 | (156,265) |
| Arian a gynhyrchwyd o weithgareddau | 262,406 | 446,054 |
| Llôg a dalwyd | (13,488) | (7,445) |
| Arian net o weithgareddau gweithredol | 248,918 | 438,609 |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | |
| Pryniant asedau sefydlog | (21,646) | (117,645) |
| Defnydd net arian ar weithgareddau buddsoddiadol | (21,646) | (117,645) |
| **Llif arian o weithgareddau cyllidol** | | |
| Taliadau ar fenthyciadau | (75,074) | (277,828) |
| Arian net/(defnyddiwyd) o weithgareddau cyllidol | (75,074) | (277,828) |
| **Cynnydd net mewn arian a'r hyn sy'n cyfateb i arian** | 152,198 | 43,136 |
| **Arian a'r hyn sy'n cyfateb i arian ar ddechrau'r flwyddyn** | 891,987 | 848,851 |
| **Arian a'r hyn sy'n cyfateb i arian ar ddiwedd y flwyddyn** | 1,044,185 | 891,987 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 11 i 21 yn ffurfio rhan gyflawn o'r cyfrifon hyn.

## NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL

## AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR, 2022

1. **Gwybodaeth Cyffredinol**

Mae'r elusen yn gwmni preifat yn gyfyngedig trwy warant ac yn elusen a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr. Cyfeiriad y swyddfa gofrestredig yw Canolfan Nant Gwrtheyrn, Nant Gwrtheyrn, Llithfaen, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6NL.

2. **Datganiad o Gydymffurfiad**

Mae'r Datganiadau Ariannol yma wedi eu paratoi yn unol ag FRS 102, 'The Financial Reporting Standard applicable in the UK and the Republic of Ireland', a'r 'Statement of Recommended Practice' sy'n berthnasol i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol ag FRS 102 yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (SORP Elusennau (FRS 102)) a Deddf Elusennau 2011.

3. **Polisïau Cyfrifo**

**Sail Paratoi**

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol wedi eu haddasu gan ail brisiad mewn rhai asedau, rhwymedigaethau ac eiddo buddsoddiadol, wedi eu mesur yn ôl gwerth teg trwy'r Cyfrif Incwm a Gwariant.

**Busnes Hyfyw**

Nid oes unrhyw ansicrwydd ynglŷn â gallu'r elusen i barhau mewn busnes.

**Dyfarniadau a phrif ansicrwydd parthed amcangyfrifon**

Wrth baratoi'r Adroddiadau Ariannol mae'n rhaid i'r rheolwyr wneud dyfarniadau, amcangyfrifon a phenderfyniadau sy'n effeithio ar y ffigyrau a adroddwyd. Mae'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau yma yn cael eu hadolygu yn gyson ac maent wedi eu seilio ar brofiad a ffactorau eraill gan gynnwys disgwyliadau o ddigwyddiadau yn y dyfodol y credir eu bod yn rhesymol o dan yr amgylchiadau.

**Cyfrifo ar gyfer y cronfeydd**

Mae'r cronfeydd anghyfyngedig ar gael i'w defnyddio ar ddisgresiwn yr Ymddiriedolwyr er mwyn hybu nôd elusennol y cwmni.

Mae cronfeydd penodedig yn gronfeydd anghyfyngedig sydd wedi eu clustnodi gan yr Ymddiriedolwyr ar gyfer pwrpas penodol yn y dyfodol.

Mae cronfeydd cyfyngedig wedi eu cyfyngu yn ôl eu defnydd gan ddymuniad y sawl a wnaeth y rhodd ac maent yn disgyn i fewn i un o ddau ddosbarth, sef cronfeydd cyfyngedig neu cronfeydd cymunroddion.

3. **Polisïau Cyfrifo - parhad**

**Cronfeydd i fewn**

Mae cronfeydd i fewn yn cael eu cynnwys yn y Datganiad o Symudiad Ariannol pan mae'r hawl i'r incwm wedi ei basio i'r elusen. Mae'r polisïau penodol canlynol yn cael eu dilyn:-

- mae incwm o rhoddion a grantiau yn cael ei gydnabod pan mae yna dystiolaeth o'r rhodd ac mae posib ei fesur mewn modd dibynadwy.

- mae incwm o gymunroddion yn cael ei gydnabod pan mae'n debygol bod yr hawl i'w dderbyn wedi ei gytuno.

- mae incwm o nwyddau a roddwyd yn cael ei fesur yn ôl gwerth teg y nwyddau hynny heblaw ei fod yn anymarferol i'w fesur yn y modd yma, ac yn y sefyllfa yma mae'r gwerth a roddir arnynt yn deillio o'r cost i'r rhoddwr neu amcangyfrif o'i gwerth o'u gwerthu. Mae cyfleusterau a rhoddwyd a gwasanaethau yn cael eu cydnabod yn y cyfrifon os oes posib eu mesur mewn modd dibynnol. Nid oes unrhyw werth yn cael ei rhoi ar lafur gwirfoddolwyr.

- mae incwm o gytundebau ar gyfer darparu gwasanaethau yn cael ei gydnabod wrth i'r cytundeb cael ei wireddu. Mae hwn yn cael ei drin fel cronfeydd anghyfyngedig heblaw bod yna amod bod yn rhaid i'r incwm cael ei ddefnyddio at bwrpas penodol, ac yn y sefyllfa yma mae'n cael ei drin fel cronfa cyfyngedig.

**Adnoddau a wariwyd**

Mae gwariant yn cael ei gydnabod fel mae'r cost yn cronni. Mae gwariant yn cynnwys unrhyw Treth ar Werth nad oes posib ei hawlio yn ôl yn gyfan gwbl ac mae'n cael ei ddosbarthu o dan y pennawd y mae'r gweithgaredd yn perthyn iddo:-

- mae gwariant ar godi arian yn cynnwys y gweithgareddau codi arian, digwyddiadau, gweithgareddau masnachu an-elusennol a gwerthiant o nwyddau a dderbyniwyd.

- mae gwariant ar weithgareddau elusennol yn cynnwys y cyfan o gostau'r elusen o gwrdd â nôd yr elusen, ac mae rhain yn cynnwys costau cefnogol a llywodraethol yr elusen sydd wedi eu dosrannau i'r gweithgareddau elusennol.

- mae gwariant arall yn cynnwys gwariant nad yw'n berthnasol i godi arian nac i weithgareddau elusennol.

Mae costau yn cael eu dosrannu i gategorïau sy'n adlewyrchu defnydd yr adnodd. Mae costau uniongyrchol ar gyfer gweithgaredd unigol yn cael ei dosrannu'n uniongyrchol i'r gweithgaredd hwnnw. Mae costau sydd yn gyffredin i fwy nac un gweithgaredd yn cael ei dosrannu ar sail rhesymol a chyson.

**Lesau gweithredol**

Mae taliadau lês yn cael eu cydnabod fel cost dros gyfnod y lês ar sail llinell syth.

3. **Polisïau Cyfrifo - parhad**

**Asedau Sefydlog**

Mae asedau sefydlog yn cael eu cofnodi yn wreiddiol yn ôl eu cost, ac yna maent yn cael eu nodi yn ôl eu cost llai dibrisio a cholledion amhariad. Mae unrhyw asedau sefydlog sydd wedi eu hail brisio yn cael eu cofnodi yn ôl eu gwerth teg ar ddyddiad yr ail brisiad, llai dibrisio ac unrhyw colledion amhariad.

**Dibrisio**

Mae dibrisio yn cael ei ddarparu er mwyn ysgrifennu i ffwrdd cost neu gwerth ased llai ei werth gwaddodol dros ei oes economaidd fel a ganlyn:-

| | | |
|---|---|---|
| Safle'r Nant | - | 1% - 10% llinell syth |
| Offer | - | 5% - 20% llinell syth |

**Buddsoddiadau**

Mae buddsoddiadau ecwiti sydd heb eu rhestru yn cael eu cofnodi yn ôl eu cost gwreiddiol ac yna maent yn cael eu cofnodi yn ôl eu gwerth teg. Os nad oes posib mesur gwerth teg yna maent yn cael eu cofnodi yn ôl eu cost llai amhariad.

Mae buddsoddiadau sydd wedi eu rhestru yn cael eu mesur yn ôl eu gwerth teg gyda'r newidiad yn y gwerth teg yn cael ei gofnodi fel incwm neu gwariant.

**Eiddo Buddsoddiadol**

Mae eiddo buddsoddiadol yn cael ei gofnodi yn wreiddiol yn ôl ei gost sydd yn cynnwys cost prynnu ac unrhyw gostau uniongyrchol.

Mae eiddo buddsoddiadol yn cael ei ail brisio i'w gwerth teg ar pob diwedd flwyddyn ac mae unrhyw symudiad yn y gwerth teg yn cael ei gydnabod fel incwm neu gwariant.

**Stoc**

Mae stoc yn cael ei fesur yn ôl cost neu ei werth o'i werthu pa'r un bynnag yw'r isaf.

4. **Cyfyngedig trwy Warant**

Mae Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn yn elusen cofrestredig ac yn gwmni cyfyngedig trwy warant sy'n cael ei reoli gan y Memorandwm a'r Erthyglau o Gymdeithasiad.

5. **Rhoddion a chymunrhoddion**

| **2022** | **Cronfeydd Anghyfyngedig £** | **Cronfeydd Cyfyngedig £** | **Cyfanswm 2022 £** |
|---|---|---|---|
| **Rhoddion** | | | |
| Aelodaeth Ffrindiau'r Nant | 2,000 | - | 2,000 |
| Rhoddion a chymunrhoddion | 1,644 | - | 1,644 |
| | 3,644 | - | 3,644 |

| **2021** | **Cronfeydd Anghyfyngedig £** | **Cronfeydd Cyfyngedig £** | **Cyfanswm 2021 £** |
|---|---|---|---|
| **Rhoddion** | | | |
| Aelodaeth Ffrindiau'r Nant | 1,300 | - | 1,300 |
| Rhoddion a chymunrhoddion | 27,200 | - | 27,200 |
| | 28,500 | - | 28,500 |

6. **Gweithgareddau Elusennol**

| | **2022 £** | **2021 £** |
|---|---|---|
| Grant Cadernid Economaidd | - | 212,758 |
| Grant Canolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol | 540,000 | 614,664 |
| Gweithgareddau elusennol | 80,809 | 60,158 |
| | 620,809 | 887,580 |

7. **Incwm Buddsoddiadol**

| | **Cronfeydd Anghyfyngedig £** | **Cyfanswm 2022 £** | **Cronfeydd Anghyfyngedig £** | **Cyfanswm 2021 £** |
|---|---|---|---|---|
| Llôg banc a dderbyniwyd | - | - | - | - |

8. **Gwariant ar weithgareddau elusennol**

| **Anghyfyngedig** | **Elusennol** £ | **Masnachol** £ | **Cyfanswm Cronfeydd Anghyfyngedig 2022** £ | **Cyfanswm Cronfeydd 2021** £ |
|---|---|---|---|---|
| Gwariant uniongyrchol | 657,152 | 742,368 | 1,399,520 | 1,239,741 |
| Costau cefnogol | 19,600 | 19,289 | 38,889 | 28,379 |
| | 676,752 | 761,657 | 1,438,409 | 1,268,120 |

9. **Gwariant ar weithgareddau elusennol yn ôl math y gweithgaredd**

| | **Gweithgareddau Uniongyrchol** £ | **Costau Cefnogol** £ | **Cyfanswm 2022** £ | **Cyfanswm 2021** £ |
|---|---|---|---|---|
| Gweithgareddau elusennol | 1,399,520 | 19,003 | 1,418,523 | 1,260,979 |
| Costau llywodraethol | - | 19,886 | 19,886 | 7,141 |
| | 1,399,520 | 38,889 | 1,438,409 | 1,268,120 |

10. **Dadansoddiad o Gostau Cefnogol**

Costau Llywodraethol:

| | **2022** £ | **2021** £ |
|---|---|---|
| Cyfrifo a gwasanaethau cyfrifyddol ac archwilio | 5,000 | 4,075 |
| Costau proffesiynol eraill | 14,886 | 3,066 |
| | 19,886 | 7,141 |

11. **Incwm Net**

Mae incwm net wedi ei ddatgan ar ôl y canlynol:-

| | **2022** £ | **2021** £ |
|---|---|---|
| Dibrisio eiddo sefydlog | 137,545 | 135,337 |
| Costau lesi gweithredol | 19,003 | 21,238 |

12. **Tâl yr Archwilwyr**

| | **2022** | **2021** |
|---|---|---|
| | **£** | **£** |
| Ffi am archwilio'r adroddiadau ariannol | 5,000 | 4,075 |
| | ===== | ===== |

13. **Costau Staff**

Mae costau staff fel a ganlyn:-

| | **2022** | **2021** |
|---|---|---|
| | **£** | **£** |
| Cyflogau | 637,049 | 602,067 |
| Costau Yswiriant Gwladol | 44,773 | 40,056 |
| Cyfraniadau'r cyflogwr i gynllun pensiwn | 17,981 | 18,651 |
| | ---------- | ---------- |
| | 699,803 | 660,774 |
| | ====== | ====== |

Ar gyfartaledd fe gyflogwyd 27 person yn ystod y flwyddyn (2021: 34).

Ni dderbyniodd unrhyw staff mwy na £60,000 fel cyflog yn ystod y flwyddyn (2021: dim).

14. **Costau a thâl yr Ymddiriedolwyr**

Ni thalwyd unrhyw gyflog na buddion i unrhyw un o'r Ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn yn diweddu'r 31.12.22 na 31.12.21.

Ni hawliodd dim o'r Ymddiriedolwyr unrhyw gostau teithio yn ystod y flwyddyn yn diweddu'r 31.12.22 na 31.12.21.

15. **Asedau Rhodd**

Yn ystod 2007 trosglwyddwyd tir Porth y Nant, Pistyll i'r cwmni fel rhodd gan Hanson Quarry Products Europe Ltd. Yn ôl y Bwrdd, a'r ddogfen a gofrestrwyd, nid oes gwerth i'r tir hwn.

Yn ystod 2007 derbyniodd y cwmni rhodd gan Ms Heulwen Richards o'r canlynol:-

Yr Ogof, Ravenspoint, Bae Trearddur, Ynys Môn, sef cartref Ms Richards. Mae ganddi les ar yr eiddo am weddill ei hoes. Gwerth yr eiddo yw £228,087. Mae'r eiddo hwn yn ffurfio rhan o'r cronfeydd cyfyngedig.

Siâr 75% mewn darn o dir a elwir yn Cae Capel, Caergybi. Gwerth y tir oedd £269,171. Fe werthwyd y darn tir yma yn ystod 2020 am swm o £184,700 ar ôl costau cyfreithiol, a talu siâr heulwen Richards iddi.

Siâr 49% mewn 6 cae yn ardal Caergybi a adnabyddir fel Tir Môn. Oherwydd mai ond 49% sydd yn berchen i'r cwmni, mae'r gwerth a roddir iddo yn y cyfrifon yn isel, sef £1,972. Fe werthwyd y caeau yma, ac fe dderbyniodd y cwmni swm o £160,707 am ei siâr 49%.

Fe briswyd y cyfan o'r darnau tir ac adeiladau gan Dafydd Hardy MRICS ym mis Mai 2009.

16. **Ymrwymiadau Amodol - Grantiau**

Hyd at y 31 Rhagfyr, 2022 mae'r Nant wedi derbyn grantiau cyfalaf gan nifer o arianwyr i ddatblygu'r Capel a Chanolfan Ddehongli, Ffordd i'r Nant a Safle'r Nant. Mae cyfanswm y grantiau yma wedi eu nodi isod, ac efallai y bydd yn rhaid i'r Nant ad-dalu'r grant yn ôl mewn cyfnod penodol os yw'r cwmni yn newid yr amodau yn y cytundeb.

| | 2022<br>£ | 2021<br>£ |
|---|---|---|
| WEFO - cam 2 | 600,000 | 60,0000 |
| Loteri | 523,846 | 523,846 |
| | ====== | ====== |

17. **Asedau Sefydlog**

| | Safle'r Nant<br>£ | Offer<br>£ | Cyfanswm<br>£ |
|---|---|---|---|
| **Cost** | | | |
| Ar 1 Ionawr 2022 | 7,591,536 | 273,002 | 7,864,538 |
| Ychwanegiadau | - | 21,646 | 21,646 |
| | ------------ | ---------- | ------------ |
| Ar 31 Rhagfyr 2022 | 7,591,536 | 294,648 | 7,886,184 |
| | ======= | ====== | ======= |
| **Dibrisio** | | | |
| Ar 1 Ionawr 2022 | 4,390,414 | 108,493 | 4,498,907 |
| Am y flwyddyn | 110,630 | 26,915 | 137,545 |
| | ------------ | ---------- | ------------ |
| Ar 31 Rhagfyr 2022 | 4,501,044 | 135,408 | 4,636,452 |
| | ======= | ====== | ======= |
| **Gwerth yn y Llyfrau** | | | |
| Ar 31 Rhagfyr 2022 | 3,090,492 | 159,240 | 3,249,732 |
| | ======= | ====== | ======= |
| Ar 31 Rhagfyr 2021 | 3,200,125 | 165,506 | 3,365,631 |
| | ======= | ====== | ======= |

Mae Safle'r Nant wedi ei brisio ar y farchnad agored gan Christies yn Hydref 2019 fel £3.3m. Mae'r Bwrdd o'r farn bod gwerth y safle ar 31 Rhagfyr, 2022 yn adlewyrchiad teg, ac felly mae'r Bwrdd yn cytuno nid oes angen cost amhariad yn ystod y flwyddyn.

18. **Buddsoddiadau**

| **Eiddo Buddsoddiadol** | **2022**<br>**£** | **2021**<br>**£** |
|---|---|---|
| **Cost** | | |
| Ar 1 Ionawr 2022 | 229,730 | 499,230 |
| | ---------- | ---------- |
| Ar y 31 Rhagfyr 2022 | 229,730 | 229,730 |
| | ====== | ====== |
| **Gwerth yn y llyfrau** | | |
| Ar 1 Ionawr 2022 | 229,730 | 229,730 |
| | ====== | ====== |
| Ar 1 Ionawr 2021 | 229,730 | 229,730 |
| | ====== | ====== |

Mae’r cyfan o’r buddsoddiadau a ddangosir uchod yn cael eu dangos yn ôl eu gwerth.

19. **Stoc**

| | **2022**<br>**£** | **2021**<br>**£** |
|---|---|---|
| Stoc | 16,457 | 14,452 |
| | ===== | ===== |

20. **Dyledwyr**

| | **2022**<br>**£** | **2021**<br>**£** |
|---|---|---|
| Dyledwyr masnachol | 32,213 | 5,178 |
| Taliadau ymlaen llaw ac incwm wedi cronni | 10,285 | 5,812 |
| | ---------- | ---------- |
| | 42,498 | 10,990 |
| | ====== | ====== |

21. **Credydwyr: symiau'n daladwy o fewn blwyddyn**

| | 2022 £ | 2021 £ |
|---|---|---|
| Benthyciadau banc a gorddrafft | 78,084 | 86,838 |
| Incwm ymlaen llaw | 95,062 | 74,333 |
| Credydwyr masnachol | 65,444 | 77,872 |
| Costau wedi cronni ac incwm a ohiriwyd | 88,098 | 44,967 |
| Treth ac Yswiriant Gwladol | 11,240 | 8,874 |
| | 337,928 | 292,884 |

22. **Credydwyr: symiau'n ddyledus ymhen mwy na blwyddyn**

| | 2022 £ | 2021 £ |
|---|---|---|
| Cyfeillion y Nant | 13,858 | 13,858 |
| Benthyciadau banc | 189,063 | 255,383 |
| | 202,921 | 269,241 |

| | 2022 £ | 2021 £ |
|---|---|---|
| Benthyciad banc yn daladwy ymhen mwy na 5 mlynedd | 68,413 | 85,909 |

Mae'r benthyciadau wedi eu sicrhau ar dir ac adeiladau'r elusen.

23. **Incwm a Ohiriwyd**

Mae incwm gohiriedig yn cynnwys blaendaliadau wedi eu derbyn yn ystod y flwyddyn am gyrsiau a digwyddiadau sydd yn digwydd mewn blynyddoedd i ddod. Cyfanswm yr incwm gohiriedig ar y 31.12.22 oedd £95,062 ac ar y 31.12.21 yn £74,333.

24. **Pensiynau**

**Cynllun lle mae cyfraniadau wedi eu diffinio**

Y swm a gynhwyswyd yn y Cyfrif Incwm a Gwariant ar gyfer cynllun pensiwn lle mae'r cyfraniadau wedi eu diffinio oedd £17,981 (2021: £18,651)

25. **Cronfeydd**

**Cronfeydd Anghyfyngedig**

| | **Ar 1 Ionawr 2022** | **Incwm** | **Gwariant** | **Trosglwyddiadau** | **Ar 31 Rhagfyr 2022** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** |
| Cronfa Gyffredin | 127,217 | 1,529,497 | (1,300,864) | (21,646) | 334,204 |
| Cronfa Asedau Sefydlog | 3,365,631 | - | (137,545) | 21,646 | 3,249,732 |
| Cronfa Asedau Buddsoddiad | 229,730 | - | - | - | 229,730 |
| | 3,722,578 | 1,529,497 | (1,438,409) | - | 3,813,666 |

Mae'r Gronfa Asedau Buddsoddiadol yn cynnwys rhodd o eiddo a dderbyniwyd gan berson sy'n dymuno aros yn anhysbys.

**Cronfeydd Cyfyngedig**

| | **Ar 1 Ionawr 2022** | **Incwm** | **Gwariant** | **Trosglwyddiadau** | **Ar 31 Rhagfyr 2022** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** |
| Cronfa rhodd anhysbus | 228,087 | - | - | - | 228,087 |
| | 228,087 | - | - | - | 228,087 |

26. **Dadansoddiad o'r Cronfeydd rhwng yr Asedau Net**

| | **Cronfeydd Anghyfyngedig** | **Cronfeydd Cyfyngedig** | **Cyfanswm 2022** | **Cyfanswm 2021** |
|---|---|---|---|---|
| | **£** | **£** | **£** | **£** |
| Asedau Sefydlog | 3,251,375 | 228,087 | 3,479,462 | 3,595,361 |
| Asedau Cyfredol | 1,103,230 | - | 1,103,140 | 917,429 |
| Credydwyr llai na blwyddyn | (337,928) | - | (337,928) | (292,884) |
| Credydwyr mwy na blwyddyn | (202,921) | - | (202,921) | (269,241) |
| | 3,813,756 | 228,087 | 4,041,753 | 3,950,665 |

27. **Gwariant Cyfalaf**

Gwariant cyfalaf wedi ei gytundebu ond heb ei gynnwys yn y cyfrifon.

| | **2022** **£** | **2021** **£** |
|---|---|---|
| Datblygiad rhan 2 o'r safle | - | - |
| | ====== | ====== |

28. **Ymrwymiadau Lesiau Gweithredol**

Cyfanswm y taliadau sy'n berthnasol i lesau nad oes posib eu canslo oedd:-

| | **2022** **£** | **2021** **£** |
|---|---|---|
| Yn dod i ben rhwng 1 a 5 mlynedd | 18,021 | 17,542 |
| | --------- | --------- |
| | 18,021 | 17,542 |
| | ===== | ===== |

29. **Trafodion gyda Phartïon Perthynol**

Mae'r Elusen yn cael ei rheoli gan yr Ymddiriedolwyr sydd wedi eu henwi ar gychwyn yr adroddiad yma. Ni thalwyd unrhyw gostau teithio i'r Ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn hon na'r flwyddyn cynt.

Ar ddiwedd y flwyddyn roedd y swm canlynol yn daladwy i Ymddiriedolwyr (nid yw llôg yn daladwy ar y benthyciad):-

| | **2022** **£** | **2021** **£** |
|---|---|---|
| P. Ellis | 2,000 | 2,000 |
| | ===== | ===== |

**YMDDIRIEDOLAETH NANT GWRTHEYRN**

**DATGANIAD MANWL O WEITHGAREDDAU ARIANNOL**

**AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR, 2022**

| | 2022 £ | 2021 £ |
|---|---|---|
| **Incwm a gwaddolion** | | |
| **Rhoddion a chymunroddion** | | |
| Ffrindiau'r Nant | 2,000 | 1,300 |
| Rhoddion a chymunroddion | 1,644 | 27,200 |
| | 3,644 | 28,500 |
| Grantiau Llywodraeth Cymru | 52,974 | 43,190 |
| Grantiau Covid | 4,000 | 102,239 |
| Gweithgareddau masnachol | 848,070 | 587,770 |
| | 905,044 | 733,199 |
| **Gweithgareddau Elusennol** | | |
| Cyrsiau, bwyd a llety | 80,809 | 60,158 |
| Grantiau eraill | - | 212,758 |
| Grant Canolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol | 540,000 | 614,664 |
| | 620,809 | 887,580 |
| **Incwm Buddsoddiadol** | | |
| Llôg banc a dderbyniwyd | - | - |
| **Cyfanswm incwm** | 1,529,497 | 1,649,279 |
| **Gwariant** | | |
| **Gwariant ar weithgareddau elusennol** | | |
| ***Gweithgareddau uniongyrchol*** | | |
| Cyrsiau, priodasau, bwyd a llety | (252,695) | (151,249) |
| Cyflogau, hyfforddiant a teithio | (640,588) | (602,067) |
| Yswiriant Cenedlaethol | (44,773) | (40,056) |
| Costau pensiwn | (17,981) | (18,651) |
| Costau lesi gweithredol | (19,003) | (21,238) |
| Gwres a golau | (69,913) | (55,814) |
| Cynnal a chadw | (112,899) | (104,384) |
| Yswiriant | (6,274) | (7,648) |
| Ffôn | (4,709) | (4,260) |
| Costau swyddfa eraill | (35,072) | (40,105) |
| Dibrisio | (137,545) | (135,337) |
| Llôg ar fenthyciadau banc a gorddrafft | (13,488) | (7,445) |
| TAW anadferadwy | (28,759) | (18,088) |
| Hysbysebu | (20,811) | (43,737) |
| Deunyddiau | (5,009) | (3,527) |
| Costau banc | (9,004) | (7,373) |
| | (1,418,523) | (1,260,979) |
| **Costau Llywodraethu** | | |
| Ffioedd archwilio | (5,000) | (4,075) |
| Costau cyfreithiol a chostau proffesiynol | 14,886 | (3,066) |
| | 19,886 | (7,141) |
| **Gwariant ar weithgareddau elusennol** | (1,438,409) | (1,268,120) |

# Accounts

# YMDDIRIEDOLAETH NANT GWRTHEYRN
# (CYFYNGEDIG TRWY WARANT)

## ADRODDIADAU ARIANNOL

## AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2021

**(Rhif y Cwmni  3865538)**
**(Rhif Elusen 1078543)**

## YMDDIRIEDOLAETH NANT GWRTHEYRN

## ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

Cyflwyna'r ymddiriedolwyr eu hadroddiad ynghyd â'r cyfrifon wedi eu harchwilio am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2021.

**Prif Weithgaredd ac Adolygiad**

Pwrpas Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn yw hyrwyddo a meithrin, yng Nghymru, addysg a hyfforddiant o'r iaith, diwylliant a llenyddiaeth Cymraeg. Gweithreda'r Cwmni yn bennaf yng Nghanolfan Iaith a Threftadaeth Genedlaethol Nant Gwrtheyrn ger Llithfaen ond hefyd cynhelir gweithgareddau mewn canolfannau eraill, pan yn briodol.

**Manylion eraill**

| | | |
|---|---|---|
| **Rhif y Cwmni:** | 3865538 | |
| **Rhif yr Elusen:** | 1078543 | |
| **Swyddfa Gofrestredig:** | Canolfan Genedlaethol Iaith a Diwylliant<br>Nant Gwrtheyrn<br>Llithfaen<br>Pwllheli | |
| **Archwilwyr:** | Owain Bebb a'i Gwmni<br>32 Y Maes<br>Caernarfon | |
| **Bancwyr:** | HSBC<br>Pwllheli | Lloyds TSB<br>Bangor |
| **Cyfreithwyr:** | Ellis Davies & Co.<br>27 Stryd Bangor<br>Caernarfon | |

**Ymddiriedolwyr**

Dan y Ddeddf Cwmnïau mae gan yr Ymddiriedolwyr yr un cyfrifoldebau â Chyfarwyddwyr. Mae Cyfarwyddwyr yr Ymddiriedolaeth yn cael eu hethol o'r aelodaeth yn flynyddol yn ystod y Cyfarfod Blynyddol a'r aelodau a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn ac ar hyn o bryd yw:-

Y Meddyg Carl Clowes
Clive Wolfendale (Trysorydd)
Gwenda Griffith
Myrddin ap Dafydd
Ann Hughes
Phyllis Ellis (Ysgrifenydd)
Huw Jones (Cadeirydd)
Menna Jones (Is-gadeirydd)
Ifor Gruffydd
Jo Iwan

**Prif Aelodau Staff**

Mair Saunders - Prif Reolwr

**Strwythur, Llywodraethu a Rheoli**

Elusen gofrestredig a chwmni cyfyngedig trwy warant yw Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn, a gaiff ei lywodraethu gan Femorandwm ac Erthyglau'r Cwmni. Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi yn unol â gofynion sy'n berthnasol i gwmni elusennol.

**Strwythur, Llywodraethu a Rheoli - parhad**

Mae aelodaeth Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn yn agored i unrhyw unigolyn neu gorff gyda diddordeb mewn hyrwyddo ei amcanion, sydd yn gwneud cais i'r cwmni elusennol ar y ffurflen briodol ac sydd yn derbyn cymeradwyaeth Ymddiriedolwyr yr Ymddiriedolaeth.

Mae gan y cwmni broses i anwytho ymddiriedolwyr newydd. Etholir aelodau a swyddogion i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth yn y Cyfarfod Blynyddol. Mae Ymddiriedolwyr yr Ymddiriedolaeth (Y Bwrdd), nad ydynt yn fwy nag 11 mewn nifer, yn rheoli'r Cwmni Elusennol, ei eiddo a'i gronfeydd. Mae hawl gan y Bwrdd i gyfethol aelodau gyda gwybodaeth neu ddiddordeb arbennig mewn maes perthnasol. Gweithredir unrhyw strategaethau a fabwysiedir gan staff yr Ymddiriedolaeth. Cynhelir cyfarfodydd y Bwrdd o leiaf bedair gwaith y flwyddyn.

Mae asesiad risg llawn ar gyfer Iechyd a Diogelwch wedi ei gwblhau.

**Amcanion a Gweithgareddau**

Amcanion y Cwmni yw meithrin addysg yng Nghymru ac i hyrwyddo addysg ac astudiaeth y cyhoedd yn yr iaith Gymraeg, llenyddiaeth a diwylliant Cymraeg ac i weithredu hyn mewn canolfan neu ganolfannau addas (rhai preswyl neu ddibreswyl) yng Nghymru. Bu holl weithgareddau'r Cwmni yn ystod 2020 yn unol â'r amcanion hyn.

**Adroddiad ar Weithgareddau'r Flwyddyn**

Dechreuodd y flwyddyn gyda'r drysau unwaith eto ar gau oherwydd cyfyngiadau Covid ac nid oedd yn bosibl ail-agor tan ganol mis Ebrill, a hynny o dan gyfyngiadau rhannol.

Parhaodd y tîm Addysg felly i ddarparu gwersi arlein yn hytrach nag ar y safle, gyda chymorth a chefnogaeth bwysig i'r gweithgareddau hyn gan y Ganolfan Genedlaethol Cymraeg i Oedolion. Bu'n rhaid disgwyl tan fis Gorffennaf cyn y gellid croesawu dysgwyr yn ôl i'r safle.

Er hynny, gellir ystyried fod yr angen i arbrofi, a hynny'n llwyddiannus, gyda dulliau dysgu newydd, wedi bod yn fuddiol wrth addasu'r cyrsiau a ddarperir ac wrth greu perthynas gyda grwpiau newydd o ddysgwyr. Yn y dyfodol bydd dysgu arlein a dysgu dwys ar y safle yn ddulliau fydd yn atgyfnerthu ei gilydd er budd y dysgwr.

Yn yr un modd, nid tan Ebrill y bu hi'n bosibl ail-agor y safle ar gyfer ymwelwyr dyddiol ac ar gyfer dathliadau, gan gynnwys priodasau. Mae'r gefnogaeth a roddwyd gan Lywodraeth Cymru drwy'r cyfnod tywyll i gyrff yn y maes diwylliant wedi bod yn allweddol i'r Nant, ochr yn ochr â'r defnydd a wnaed o gronfa ffyrlo Llywodraeth y DU. Fe sicrhaodd y gefnogaeth gyhoeddus hyn na fu'n rhaid diswyddo unrhyw aelod o staff am resymau diweithdra a felly bod y gweithlu ar gael ac yn awyddus i ail-afael yn yr awennau pan ddaeth hynny'n bosibl. Yn ogystal â'r tiwtoriaid a fu'n dysgu'n ddi-dor, fe fu tîm bychan, dan arweiniad Mair Saunders, y Prif Weithredwr, yn gweithio drwy'r holl gyfnod, i sicrhau bod y safle'n cael ei warchod, gwaith cynnal a chadw'n digwydd, a'r cysylltiadau gyda dysgwyr a chwsmeriaid yn cael eu cynnal. Gwnaed ymdrech dda i sicrhau bod gwefan y Nant yn parhau'n fywiog drwy'r cyfnod gyda llu o straeon am arbenigrwydd ein safle hynod.

Yn sgîl hyn oll, llwyddwyd i droi colled 2020, a fyddai wedi bod yn fwy sylweddol onibai am werthiant y tiroedd ym Môn a gafwyd yn rhodd gan Ms Heulwen Richards, yn elw yn 2021 – gyda rhodd arall yn dod trwy ewyllys cefnogwr nad oedd yn adnabyddus i ni.

Ychwanegwyd at adnoddau'r safle mewn mwy nag un ffordd gan nad oedd y cyfyngiadau yn rhwystro gwaith datblygu rhag bwrw ymlaen. Uwchraddiwyd dau o'r tai yn sylweddol gyda golwg ar ofynion y dyfodol, ac ail-godwyd meddygfa wreiddiol Llithfaen ar y safle. Ynddi gellir gweld a chlywed ar fideo y Dr Carl Clowes yn adrodd ei hanes fel meddyg teulu yn y 70au ac yn disgrifio heriau gwireddu'r freuddwyd o brynu ac adfer y Nant ac agor y Ganolfan Iaith.

**Adroddiad ar Weithgareddau'r Flwyddyn - parhad**

Tristwch enbyd ar ddiwedd y flwyddyn oedd colli Carl, ein Llywydd Anrhydeddus ac aelod o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr am gyfnod di-dor, yn dilyn salwch byr ac annisgwyl. Talwyd teyrngedau haeddiannol a niferus iddo ar y cyfryngau a bu'n fraint i'r Nant fedru gweithredu fel lleoliad ei wasanaeth coffa. Does dim amheuaeth mai gweledigaeth ac unplygrwydd Carl Clowes yn fwy nag unrhyw beth arall, sydd wedi sicrhau fod Nant Gwrtheyrn y llwyddiant yr ydyw heddiw. Mae ein diolch ni, a'r genedl gyfan, iddo yn ddibendraw.

**Adolygiad Ariannol**

Mae'r elusen wedi gwneud gwarged yn y flwyddyn hon o £381,159 (2020: colled - £151,886).

**Polisi'r elusen ynglŷn â'r cronfeydd wrth gefn**

Y mae'r Elusen wedi mabwysiadu polisi cronfa wrth gefn. Bydd y cwmni yn anelu i gadw mewn cronfa wrth gefn dau fis o gostau rhedeg cyfredol, gan geisio cynyddu'r gronfa i swm sydd yn gyfartal i bedwar mis o gostau rhedeg.

**Datganiad Budd y Cyhoedd**

Mae'r Bwrdd wedi ystyried adroddiad y Comisiwn Elusennau ynglŷn â Budd i'r Cyhoedd ac maent yn fodlon bod gweithgareddau'r elusen yn ystod y flwyddyn, fel y disgrifiwyd uchod, yn unol â'r prawf hwnnw.

**Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr**

Mae'r Ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr o'r cwmni at bwrpas cyfraith cwmni) yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r adroddiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig (UKGAAP).

Mae cyfraith cwmni yn ei wneud yn ofynnol i Ymddiriedolwyr baratoi Adroddiadau Ariannol sydd yn rhoi golwg cywir a theg o sefyllfa ariannol y cwmni elusennol ac o'r adnoddau i mewn ac allan gan gynnwys incwm a gwariant o'r cwmni elusennol am y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r adroddiadau ariannol, mae yn rhaid i'r Ymddiriedolwyr:-

- ddewis polisïau cyfrifo addas ac yna eu gweithredu yn gyson.
- dilyn egwyddorion a gweithdrefnau sydd yn y SORP elusennau.
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon sydd yn rhesymol ac yn ddarbodus.
- datgan os yw Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig perthnasol wedi eu dilyn, yn amodol i unrhyw newid materol sydd wedi eu datguddio a'u hegluro yn yr Adroddiadau Ariannol, a
- paratoi adroddiadau ariannol ar sail bod y busnes yn parhau oni bai nad yw yn addas i gymeryd y bydd y cwmni elusennol yn parhau mewn busnes.

## ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR - parhad

### Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr - parhad

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifo digonol sydd yn datgelu gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol y cwmni elusennol, ac i'w galluogi i sicrhau bod yr Adroddiadau Ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Maent hefyd yn gyfrifol am sicrhau asedion y cwmni elusennol a thrwy hynny cymeryd camau rhesymol er mwyn atal a datgelu unrhyw dwyll neu anghysondeb arall.

Cyn belled a bod yr Ymddiriedolwyr yn ymwybodol:-

- nid oes unrhyw wybodaeth archwilio nad yw archwilwyr y cwmni elusennol yn ymwybodol ohono, ac

- y mae'r Ymddiriedolwyr wedi cymryd y camau sy'n ddyletswydd arnynt i sicrhau eu bod yn hysbys o unrhyw wybodaeth fyddai'n berthnasol i'r archwiliad, ac i sicrhau fod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth hynny.

Mae'r adroddiad hwn wedi ei arwyddo ar ran y Bwrdd ar gan:

............................................................ Phyllis Ellis (Ysgrifennydd)

## ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL
## I AELODAU YMDDIRIEDOLAETH NANT GWRTHEYRN

**Barn**

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2021 sy'n cynnwys Datganiad o Symudiadau Ariannol, Mantolen, a datganiad llif Arian a nodiadau ar y datganiadau ariannol, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu pwysig. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd i'w paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102: Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:-

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Elusen ar y 31 Rhagfyr 2021 ac o'r adnoddau a ddaeth i law a'r defnydd o adnoddau am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â'r Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig;
- wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

**Sail y farn**

Rydym wedi cynnal ein harchwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) (ISAs (y DU)) a'r gyfraith berthnasol. Caiff ein cyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach o dan adran cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol yn ein hadroddiad. Rydym yn annibynnol ar yr Elusen yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad ar ddatganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol [a'r darpariaethau sydd ar gael i gyrff bach, o dan yr amgylchiadau sydd yn nodyn 2 ar y datganiadau ariannol], ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Rydym yn credu bod y dystiolaeth archwilio rydym wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol er mwyn rhoi sail ar gyfer ein barn.

**Casgliadau'n ymwneud â busnes byw**

Nid oes gennym ddim i adrodd yn ei gylch yng nghyswllt y materion canlynol lle mae ISAs (y DU) yn ei gwneud yn ofynnol i ni roi gwybod i chi:-

- os nad yw defnydd yr ymddiriedolwyr o sail cyfrifyddu busnes byw wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- os nad yw'r ymddiriedolwyr wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd o bwys a ganfuwyd a allai fwrw amheuaeth sylweddol dros allu'r Elusen i barhau i fabwysiadu'r sail cyfrifyddu busnes byw am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad pryd yr awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

**Gwybodaeth arall**

Yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol, ac eithrio'r datganiadau ariannol a'n hadroddiad ni fel archwilydd arnynt. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall ac nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny, ac eithrio i'r graddau y gwnaed hynny'n benodol fel arall yn ein hadroddiad.

Yng nghyswllt ein harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen yr wybodaeth arall a, drwy wneud hynny, ystyried a oes anghysondeb o bwys rhwng yr wybodaeth arall a'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth rydym ni wedi'i chael yn yr archwiliad, neu a yw'n ymddangos bod camddatganiad o bwys yn yr wybodaeth arall. Os byddwn yn canfod anghysonderau o bwys neu gamddatganiadau o bwys tybiedig, mae'n ofynnol i ni bennu a oes camddatganiad o bwys yn y datganiadau ariannol neu gamddatganiad o bwys o'r wybodaeth arall. Ar sail y gwaith rydym wedi'i wneud, os byddwn yn dod i'r casgliad bod camddatganiad o bwys o'r wybodaeth arall hon, mae'n rhaid i ni adrodd ar y ffaith honno.

Nid oes gennym ddim i'w adrodd i'r perwyl hwn.

## ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL I AELODAU YMDDIRIEDOLAETH NANT GWRTHEYRN

**Barn ar faterion eraill a bennir gan Ddeddf Cwmnïau 2006**

Yn ein barn ni, ar sail y gwaith a wnaed wrth gynnal yr archwiliad:-

- mae'r wybodaeth yn adroddiad yr ymddiriedolwyr (sy'n cynnwys yr adroddiad strategol ac adroddiad y cyfarwyddwyr) ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi ar ei chyfer, yn gydnaws â'r datganiadau ariannol; ac
- mae adroddiad yr ymddiriedolwyr (sy'n cynnwys yr adroddiad strategol ac adroddiad y cyfarwyddwyr) wedi cael eu paratoi yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

**Materion y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt drwy eithriad**

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Elusen a'i hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, dydyn ni ddim wedi dod o hyd i unrhyw gamddatganiadau sylweddol yn Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr [gan gynnwys yr Adroddiad Strategol].

Nid oes gennym ddim i'w adrodd yng nghyswllt y materion canlynol lle mae'n ofynnol inni o dan Ddeddf Cwmnïau 2006 roi adroddiad ichi os, yn ein barn ni:-

- nad oes cofnodion cyfrifyddu priodol wedi cael eu cadw, neu nad oes ffurflenni perthnasol i'n harchwiliad wedi cael eu cyflwyno gan ganghennau nad ydym wedi ymweld â nhw;
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r ffurflenni a'r cofnodion cyfrifyddu;
- nad yw rhai o daliadau'r ymddiriedolwyr, a nodir yn y gyfraith, wedi cael eu datgelu; neu
- nad ydym wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sy'n angenrheidiol ar gyfer ein harchwiliad.

**Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr**

Fel yr esboniwyd yn fwy manwl yn y datganiad o gyfrifoldebau ymddiriedolwyr [a nodwyd ar dudalen 3], mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac am y rheolaeth fewnol sy'n angenrheidiol yn eu barn hwy er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sydd ddim yn cynnwys camddatganiadau o bwys, boed o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad.
Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r Elusen i barhau fel busnes byw, gan ddatgelu, fel bo'n berthnasol, faterion sy'n gysylltiedig â busnes byw a defnyddio sail cyfrifyddu busnes byw oni fo'r ymddiriedolwyr un ai'n bwriadu diddymu'r Elusen neu roi'r gorau i weithredu, neu nad oes ganddynt unrhyw opsiwn realistig arall heblaw am hynny.

**Ein cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol**

Ein hamcanion ni yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau o bwys, boed y rheini wedi'u gwneud drwy dwyll neu gamgymeriad, a rhoi ein barn ni ar ffurf adroddiad yr archwilydd. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (y DU) bob amser yn dod o hyd i gamddatganiad o bwys pan fydd yn bodoli. Mae camddatganiadau'n gallu codi drwy dwyll neu gamgymeriad ac maent yn cael eu hystyried yn rhai o bwys os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y byddai'n rhesymol disgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol i'w ganfod ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: [www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities]. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n hadroddiad fel archwilydd.

## ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL
## I AELODAU YMDDIRIEDOLAETH NANT GWRTHEYRN

**Defnyddio ein hadroddiad**

Caiff yr adroddiad hwn ei wneud ar gyfer aelodau'r Elusen yn unig, fel corff, yn unol â Phennod 3, Rhan 16 o Ddeddf Cwmnïau 2006. Cyflawnwyd ein gwaith archwilio er mwyn i ni allu datgan wrth aelodau'r Elusen y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan wrthynt mewn adroddiad archwilydd, ac i ddim pwrpas arall. I'r graddau mwyaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn ysgwyddo cyfrifoldeb i neb, ac eithrio i aelodau'r Elusen fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.

20/7/2022

***Rhys Harris***
***Prif Archwiliwr Statudol***
***Dros ac ar ran***
***Owain Bebb a'i Gwmni***
***Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilwyr Statudol***
***32 Y Maes,***
***Caernarfon.***

## DATGANIAD O SYMUDIADAU ARIANNOL (INCWM A GWARIANT) A DATGANIAD O HOLL ENILLION/COLLEDION

### AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR, 2021

| | Nodyn | Cronfeydd Anghyfyngedig £ | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Cyfanswm 2021 £ | Cyfanswm 2020 £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm a Gwaddolion** | | | | | |
| Rhoddion a Chymunroddion | 5 | 28500 | - | 28500 | 2036 |
| Gweithgareddau Elusennol | 6 | 887580 | - | 887580 | 404898 |
| Incwm Buddsoddiadol | 7 | - | - | - | 6 |
| Gweithgareddau Masnachol | | 733199 | - | 733199 | 469055 |
| **Cyfanswm Incwm** | | 1649279 | - | 1649279 | 875995 |
| **Gwariant** | | | | | |
| Gwariant ar weithgareddau elusennol | 8,9 | 1268120 | - | 1268120 | 1027881 |
| **Cyfanswm y gwariant** | | 1268120 | - | 1268120 | 1027881 |
| **Incwm Net** | | 381159 | - | 381159 | (151886) |
| Trosglwyddiad rhwng cronfeydd | | - | - | - | - |
| **Symudiadau Net yn y Cronfeydd** | | 381159 | - | 381159 | (151886) |
| **Cymodiannedd y Cronfeydd** | | | | | |
| Cyfanswm y Cronfeydd d/y | | 3341419 | 228087 | 3569506 | 3721392 |
| **Cronfeydd y Cronfeydd c/y** | | 3722578 | 228087 | 3950665 | 3569506 |

Mae'r datganiad hwn yn cynnwys holl enillion a cholledion cydnabyddedig y flwyddyn.

Mae'r cyfan o'r incwm a'r gwariant yn deillio o weithgareddau sy'n parhau.

## MANTOLEN

### AR 31 RHAGFYR, 2021

| | Nodyn | 2021 £ | 2020 £ |
|---|---|---|---|
| **ASEDAU SEFYDLOG** | | | |
| Asedau Gweladwy | 17 | 3365631 | 3383323 |
| Tir ac adeilad buddsoddiadol | 18 | 229730 | 229730 |
| | | 3595361 | 3613053 |
| **ASEDAU CYFREDOL** | | | |
| Stoc | 19 | 14452 | 13624 |
| Dyledwyr | 20 | 10990 | 90196 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | | 891987 | 848851 |
| | | 917429 | 952671 |
| **CREDYDWYR** - symiau'n daladwy o fewn blwyddyn | 21 | (292884) | (449149) |
| **(CREDYDWYR)/ASEDAU CYFREDOL NET** | | 624545 | 503522 |
| **CYFANSWM ASEDAU LLAI CREDYDWYR CYFREDOL** | | 4219906 | 4116575 |
| **CREDYDWYR** - symiau'n daladwy ar ôl blwyddyn | 22 | (269241) | (547069) |
| **ASEDAU NET** | | 3950665 | 3569506 |
| **CRONFEYDD** | | | |
| Cronfeydd Anghyfyngedig | | 3722578 | 3341419 |
| Cronfeydd Cyfyngedig | | 228087 | 228087 |
| | 25 | 3950665 | 3569506 |

Mae'r cyfrifon wedi eu mabwysiadu gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ac wedi eu harwyddo ar ran y Bwrdd ar gan:

........................................ Huw Jones (Cadeirydd)

Mae'r nodiadau ar dudalennau 11 i 21 yn ffurfio rhan gyflawn o'r cyfrifon hyn.

## DATGANIAD LLIF ARIAN

### AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU'R 31 RHAGFYR, 2021

| | 2021<br>£ | 2020<br>£ |
|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredol** | | |
| Incwm net | 381159 | (151886) |
| Addasiad ar gyfer: | | |
| Dibrisio asedau dirweddol | 135337 | 125389 |
| Elw ar warediadau asedau | - | (75547) |
| Llôg a dderbyniwyd ac incwm tebyg | - | (6) |
| Llôg a dalwyd a chostau tebyg | 7445 | 12676 |
| Costau/(incwm) wedi cronni | - | - |
| Newidiadau mewn: | | |
| Stoc | (828) | 3627 |
| Dyledwyr masnachol a dyledwyr eraill | 79206 | 36501 |
| Credydwyr masnachol a chredydwyr eraill | (156265) | 102105 |
| Arian a gynhyrchwyd o weithgareddau | 446054 | 52859 |
| Llôg a dalwyd | (7445) | (12676) |
| Llôg a dderbyniwyd | - | 6 |
| Arian net o weithgareddau gweithredol | 438609 | 40189 |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | |
| Pryniant asedau sefydlog | (117645) | (44301) |
| Incwm gwarediadau asedau | - | 345047 |
| Defnydd net arian ar weithgareddau buddsoddiadol | (117645) | 300746 |
| **Llif arian o weithgareddau cyllidol** | | |
| Taliadau ar fenthyciadau | (277828) | (66617) |
| Arian net/(defnyddiwyd) o weithgareddau cyllidol | (277828) | (66617) |
| **Cynnydd net mewn arian a'r hyn sy'n cyfateb i arian** | 43136 | 274318 |
| **Arian a'r hyn sy'n cyfateb i arian ar ddechrau'r flwyddyn** | 848851 | 574533 |
| **Arian a'r hyn sy'n cyfateb i arian ar ddiwedd y flwyddyn** | 891987 | 848851 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 11 i 21 yn ffurfio rhan gyflawn o'r cyfrifon hyn.

**YMDDIRIEDOLAETH NANT GWRTHEYRN**

**NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL**

**AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR, 2021**

1. **Gwybodaeth Cyffredinol**

Mae'r elusen yn gwmni preifat yn gyfyngedig trwy warant ac yn elusen a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr. Cyfeiriad y swyddfa gofrestredig yw Canolfan Nant Gwrtheyrn, Nant Gwrtheyrn, Llithfaen, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6NL.

2. **Datganiad o Gydymffurfiad**

Mae'r Datganiadau Ariannol yma wedi eu paratoi yn unol ag FRS 102, 'The Financial Reporting Standard applicable in the UK and the Republic of Ireland', a'r 'Statement of Recommended Practice' sy'n berthnasol i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol ag FRS 102 yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (SORP Elusennau (FRS 102)) a Deddf Elusennau 2011.

3. **Polisiau Cyfrifo**

**Sail Paratoi**

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol wedi eu haddasu gan ail brisiad mewn rhai asedau, rhwymedigaethau ac eiddo buddsoddiadol, wedi eu mesur yn ôl gwerth teg trwy'r Cyfrif Incwm a Gwariant.

**Busnes Hyfyw**

Nid oes unrhyw ansicrwydd ynglŷn â gallu'r elusen i barhau mewn busnes.

**Dyfarniadau a phrif ansicrwydd parthed amcangyfrifon**

Wrth baratoi'r Adrodiadau Ariannol mae'n rhaid i'r rheolwyr wneud dyfarniadau, amcangyfrifon a phenderfyniadau sy'n effeithio ar y ffigyrau a adroddwyd. Mae'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau yma yn cael eu hadolygu yn gyson ac maent wedi eu seilio ar brofiad a ffactorau eraill gan gynnwys disgwyliadau o ddigwyddiadau yn y dyfodol y credir eu bod yn rhesymol o dan yr amgylchiadau.

**Cyfrifo ar gyfer y cronfeydd**

Mae'r cronfeydd anghyfyngedig ar gael i'w defnyddio ar ddisgresiwn yr Ymddiriedolwyr er mwyn hybu nôd elusennol y cwmni.

Mae cronfeydd penodedig yn gronfeydd anghyfyngedig sydd wedi eu clustnodi gan yr Ymddiriedolwyr ar gyfer pwrpas penodol yn y dyfodol.

Mae cronfeydd cyfyngedig wedi eu cyfyngu yn ôl eu defnydd gan ddymudiad y sawl a wnaeth y rhodd ac maent yn disgyn i fewn i un o ddau ddosbarth, sef cronfeydd cyfyngedig neu cronfeydd cymunroddion.

3. **Polisiau Cyfrifo - parhad**

**Cronfeydd i fewn**

Mae cronfeydd i fewn yn cael eu cynnwys yn y Datganiad o Symudiad Ariannol pan mae'r hawl i'r incwm wedi ei basio i'r elusen. Mae'r polisiau penodol canlynol yn cael eu dilyn:-

- mae incwm o rhoddion a grantiau yn cael ei gydnabod pan mae yna dystiolaeth o'r rhodd ac mae posib ei fesur mewn modd dibynadwy.

- mae incwm o gymunroddion yn cael ei gydnabod pan mae'n debygol bod yr hawl i'w dderbyn wedi ei gytuno.

- mae incwm o nwyddau a roddwyd yn cael ei fesur yn ôl gwerth teg y nwyddau hynny heblaw ei fod yn anymarferol i'w fesur yn y modd yma, ac yn y sefyllfa yma mae'r gwerth a roddir arnynt yn deillio o'r cost i'r rhoddwr neu amcangyfrif o'i gwerth o'u gwerthu. Mae cyfleusterau a rhoddwyd a gwasanaethau yn cael eu cydnabod yn y cyfrifon os oes posib eu mesur mewn modd dibynnol. Nid oes unrhyw werth yn cael ei rhoi ar lafur gwirfoddolwyr.

- mae incwm o gytundebau ar gyfer darparu gwasanaethau yn cael ei gydnabod wrth i'r cytundeb cael ei wireddu. Mae hwn yn cael ei drin fel cronfeydd anghyfyngedig heblaw bod yna amod bod yn rhaid i'r incwm cael ei ddefnyddio at bwrpas penodol, ac yn y sefyllfa yma mae'n cael ei drin fel cronfa cyfyngedig.

**Adnoddau a wariwyd**

Mae gwariant yn cael ei gydnabod fel mae'r cost yn cronni. Mae gwariant yn cynnwys unrhyw Treth ar Werth nad oes posib ei hawlio yn ôl yn gyfan gwbl ac mae'n cael ei ddosbarthu o dan y penawd y mae'r gweithgaredd yn perthyn iddo:-

- mae gwariant ar godi arian yn cynnwys y gweithgareddau codi arian, digwyddiadau, gweithgareddau masnachu an-elusennol a gwerthiant o nwyddau a dderbyniwyd.

- mae gwariant ar weithgareddau elusennol yn cynnwys y cyfan o gostau'r elusen o gwrdd â nôd yr elusen, ac mae rhain yn cynnwys costau cefnogol a llywodraethol yr elusen sydd wedi eu dosrannau i'r gweithgareddau elusennol.

- mae gwariant arall yn cynnwys gwariant nad yw'n berthnasol i godi arian nac i weithgareddau elusennol.

Mae costau yn cael eu dosrannu i gategoriau sy'n adlewyrchu defnydd yr adnodd. Mae costau uniongyrchol ar gyfer gweithgaredd unigol yn cael ei dosrannu'n uniongyrchol i'r gweithgaredd hwnnw. Mae costau sydd yn gyffredin i fwy nac un gweithgaredd yn cael ei dosrannu ar sail rhesymol a chyson.

**Lesau gweithredol**

Mae taliadau lês yn cael eu cydnabod fel cost dros gyfnod y lês ar sail llinell syth.

3. **Polisiau Cyfrifo - parhad**

**Asedau Sefydlog**

Mae asedau sefydlog yn cael eu cofnodi yn wreiddiol yn ôl eu cost, ac yna maent yn cael eu nodi yn ôl eu cost llai dibrisio a cholledion amhariad. Mae unrhyw asedau sefydlog sydd wedi eu hail brisio yn cael eu cofnodi yn ôl eu gwerth teg ar ddyddiad yr ail brisiad, llai dibrisio ac unrhyw colledion amhariad.

**Dibrisio**

Mae dibrisio yn cael ei ddarparu er mwyn ysgrifennu i ffwrdd cost neu gwerth ased llai ei werth gwaddodol dros ei oes economaidd fel a ganlyn:-

| | | |
|---|---|---|
| Safle'r Nant | - | 1% - 10% llinell syth |
| Offer | - | 5% - 20% llinell syth |

**Buddsoddiadau**

Mae buddsoddiadau ecwiti sydd heb eu rhestru yn cael eu cofnodi yn ôl eu cost gwreiddiol ac yna maent yn cael eu cofnodi yn ôl eu gwerth teg. Os nad oes posib mesur gwerth teg yna maent yn cael eu cofnodi yn ôl eu cost llai amhariad.

Mae buddsoddiadau sydd wedi eu rhestru yn cael eu mesur yn ôl eu gwerth teg gyda'r newidiad yn y gwerth teg yn cael ei gofnodi fel incwm neu gwariant.

**Eiddo buddsoddiadol**

Mae eiddo buddsoddiadol yn cael ei gofnodi yn wreiddiol yn ôl ei gost sydd yn cynnwys cost prynnu ac unrhyw gostau uniongyrchol.

Mae eiddo buddsoddiadol yn cael ei ail brisio i'w gwerth teg ar pob diwedd flwyddyn ac mae unrhyw symudiad yn y gwerth teg yn cael ei gydnabod fel incwm neu gwariant.

**Stoc**

Mae stoc yn cael ei fesur yn ôl cost neu ei werth o'i werthu pa'r un bynnag yw'r isaf.

4. **Cyfyngedig trwy Warant**

Mae Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn yn elusen cofrestredig ac yn gwmni cyfyngedig trwy warant sy'n cael ei reoli gan y Memorwndwm a'r Erthyglau o Gymdeithasiad.

5. **Rhoddion a chymunrhoddion**

| **2021** | **Cronfeydd Anghyfyngedig £** | **Cronfeydd Cyfyngedig £** | **Cyfanswm 2021 £** |
|---|---|---|---|
| **Rhoddion** | | | |
| Aelodaeth Ffrindiau'r Nant | 1300 | - | 1300 |
| Rhoddion a chymunrhoddion | 27200 | - | 27200 |
| | 28500 | - | 28500 |

| **2020** | **Cronfeydd Anghyfyngedig £** | **Cronfeydd Cyfyngedig £** | **Cyfanswm 2020 £** |
|---|---|---|---|
| **Rhoddion** | | | |
| Aelodaeth Ffrindiau'r Nant | 1558 | - | 1558 |
| Rhoddion a chymunrhoddion | 478 | - | 478 |
| | 2036 | - | 2036 |

6. **Gweithgareddau Elusennol**

| | **2021 £** | **2020 £** |
|---|---|---|
| Grant Cadernid Economaidd | 212758 | - |
| Grant Canolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol | 614664 | 360766 |
| Gweithgareddau elusennol | 60158 | 44132 |
| | 887580 | 404898 |

7. **Incwm Buddsoddiadol**

| | **Cronfeydd Anghyfyngedig £** | **Cyfanswm 2021 £** | **Cronfeydd Anghyfyngedig £** | **Cyfanswm 2020 £** |
|---|---|---|---|---|
| Llôg banc a dderbyniwyd | - | - | 6 | 6 |

## 8. Gwariant ar weithgareddau elusennol

| | Elusennol | Masnachol | Cyfanswm Cronfeydd Anghyfyngedig 2021 | Cyfanswm Cronfeydd Anghyfyngedig 2020 |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| Gwariant uniongyrchol | 619464 | 620277 | 1239741 | 990049 |
| Costau cefnogol | 15540 | 12839 | 28379 | 37832 |
| | 635004 | 633116 | 1268120 | 1027881 |

## 9. Gwariant ar weithgareddau elusennol yn ôl math y gweithgaredd

| | Gweithgareddau Uniongyrchol | Costau Cefnogol | Cyfanswm 2021 | Cyfanswm 2020 |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| Gweithgareddau elusennol | 1239741 | - | 1239741 | 1010433 |
| Costau llywodraethol | 21238 | 7141 | 28379 | 37832 |
| | 1260979 | 7141 | 1268120 | 1027881 |

## 10. Dadansoddiad o Gostau Cefnogol

Costau Llywodraethol:

| | 2021 | 2020 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Cyfrifo a gwasanaethau cyfrifyddol ac archwilio | 4075 | 7967 |
| Costau proffesiynol eraill | 3066 | 9481 |
| | 7141 | 17448 |

## 11. Incwm Net

Mae incwm net wedi ei ddatgan ar ôl y canlynol:-

| | 2021 | 2020 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Dibrisio eiddo sefydlog | 135337 | 125389 |
| Costau lesi gweithredol | 21238 | 20384 |

12. **Tâl yr Archwilwyr**

| | 2021 | 2020 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Ffi am archwilio'r adroddiadau ariannol | 4075 | 5720 |
| | ===== | ===== |

13. **Costau Staff**

Mae costau staff fel a ganlyn:-

| | 2021 | 2020 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Cyflogau | 602067 | 518285 |
| Costau Yswiriant Gwladol | 40056 | 39567 |
| Cyfraniadau'r cyflogwr i gynllun pensiwn | 18651 | 18683 |
| | ---------- | ---------- |
| | 660774 | 576535 |
| | ====== | ====== |

Ar gyfartaledd fe gyflogwyd 34 person yn ystod y flwyddyn (2020: 28).

Ni dderbyniodd unrhyw staff mwy na £60,000 fel cyflog yn ystod y flwyddyn (2020: dim).

14. **Costau a thâl yr Ymddiriedolwyr**

Ni thalwyd unrhyw gyflog na buddion i unrhyw un o'r Ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn yn diweddu'r 31.12.21 na 31.12.20.

Ni hawliodd dim o'r Ymddiriedolwyr unrhyw gostau teithio yn ystod y flwyddyn yn diweddu'r 31.12.21 na 31.12.20.

15. **Asedau Rhodd**

Yn ystod 2007 trosglwyddwyd tir Porth y Nant, Pistyll i'r cwmni fel rhodd gan Hanson Quarry Products Europe Ltd. Yn ôl y Bwrdd, a'r ddogfen a gofrestrwyd, nid oes gwerth i'r tir hwn.

Yn ystod 2007 derbyniodd y cwmni rhodd gan Ms Heulwen Richards o'r canlynol:-

Yr Ogof, Ravenspoint, Bae Trearddur, Ynys Mon, sef cartref Ms Richards. Mae ganddi les ar yr eiddo am weddill ei hoes. Gwerth yr eiddo yw £228,087. Mae'r eiddo hwn yn ffurfio rhan o'r cronfeydd cyfyngedig.

Siar 75% mewn darn o dir a elwir yn Cae Capel, Caergybi. Gwerth y tir oedd £269,171. Fe werthwyd y darn tir yma yn ystod 2020 am swm o £184,700 ar ôl costau cyfreithiol, a talu siar heulwen Richards iddi.

Siar 49% mewn 6 cae yn ardal Caergybi a adnabyddir fel Tir Môn. Oherwydd mai ond 49% sydd yn berchen i'r cwmni, mae'r gwerth a roddir iddo yn y cyfrifon yn isel, sef £1,972. Fe werthwyd y caeau yma, ac fe dderbyniodd y cwmni swm o £160,707 am ei siar 49%.

Fe briswyd y cyfan o'r darnau tir ac adeiladau gan Dafydd Hardy MRICS ym mis Mai 2009.

## 16. Ymrwymiadau Amodol - Grantiau

Hyd at y 31 Rhagfyr, 2021 mae'r Nant wedi derbyn grantiau cyfalaf gan nifer o arianwyr i ddatblygu'r Capel a Chanolfan Ddehongli, Ffordd i'r Nant a Safle'r Nant. Mae cyfanswm y grantiau yma wedi eu nodi isod, ac efallai y bydd yn rhaid i'r Nant ad-dalu'r grant yn ôl mewn cyfnod penodol os yw'r cwmni yn newid yr amodau yn y cytundeb.

| | 2021<br>£ | 2020<br>£ |
|---|---|---|
| WEFO - cam 2 | 600000 | 600000 |
| Loteri | 523846 | 523846 |
| | ====== | ====== |

## 17. Asedau Sefydlog

| | Safle'r Nant<br>£ | Offer<br>£ | Cyfanswm<br>£ |
|---|---|---|---|
| **Cost** | | | |
| Ar 1 Ionawr 2021 | 7590539 | 154606 | 7745145 |
| Ychwanegiadau | - | 117645 | 117645 |
| | ------------ | ---------- | ------------ |
| Ar 31 Rhagfyr 2021 | 750539 | 272251 | 7862790 |
| | ======= | ====== | ======= |
| **Dibrisio** | | | |
| Ar 1 Ionawr 2021 | 4279806 | 82016 | 4361822 |
| Am y flwyddyn | 110608 | 24729 | 135337 |
| | ------------ | ---------- | ------------ |
| Ar 31 Rhagfyr 2021 | 4390414 | 106745 | 4497159 |
| | ======= | ====== | ======= |
| **Gwerth yn y Llyfrau** | | | |
| Ar 31 Rhagfyr 2021 | 3200125 | 165506 | 3365631 |
| | ======= | ====== | ======= |
| Ar 31 Rhagfyr 2020 | 3310733 | 72590 | 3383323 |
| | ======= | ====== | ======= |

Mae Safle'r Nant wedi ei brisio ar y farchnad agored gan Christies yn Hydref 2019 fel £3.3m. Mae'r Bwrdd o'r farn bod gwerth y safle ar 31 Rhagfyr, 2020 yn adlewyrchiad teg, ac felly mae'r Bwrdd yn cytuno nid oes angen cost amhariad yn ystod y flwyddyn.

18. **Buddsoddiadau**

| **Eiddo Buddsoddiadol** | **2021** £ | **2020** £ |
|---|---|---|
| **Cost** | | |
| Ar 1 Ionawr 2021 | 229730 | 499230 |
| | ---------- | ---------- |
| Ar y 31 Rhagfyr 2021 | 229730 | 499230 |
| | ====== | ====== |
| **Gwerth yn y llyfrau** | | |
| Ar 1 Ionawr 2021 | 229730 | 229730 |
| | ====== | ====== |
| Ar 1 Ionawr 2020 | 229730 | 499230 |
| | ====== | ====== |

Mae'r cyfan o'r buddsoddiadau a ddangosir uchod yn cael eu dangos yn ôl eu gwerth.

**Eiddo Buddsoddiadol**

Yr eiddo a waredwyd yn ystod 2020 oedd Cae Capel, Bae Trearddur oedd a gwerth d/y £269,171, a'r 6 cae a adwaenid fel Tir Mon oedd a gwerth yn y cyfrifon o £1,972. Felly erbyn 31 Rhagfyr 2020, dim ond tŷ Yr Ogof oedd ar ol.

19. **Stoc**

| | **2021** £ | **2020** £ |
|---|---|---|
| Stoc | 14452 | 13624 |
| | ===== | ===== |

20. **Dyledwyr**

| | **2021** £ | **2020** £ |
|---|---|---|
| Dyledwyr masnachol | 5178 | 65689 |
| Taliadau ymlaen llaw ac incwm wedi cronni | 5812 | 7324 |
| Dyledwyr eraill | - | 17183 |
| | ---------- | ---------- |
| | 10990 | 90196 |
| | ====== | ====== |

21. **Credydwyr: symiau'n daladwy o fewn blwyddyn**

| | 2021<br>£ | 2020<br>£ |
|---|---|---|
| Benthyciadau banc a gorddrafft | 86838 | 86838 |
| Incwm ymlaen llaw | 74333 | 279883 |
| Credydwyr masnachol | 77872 | 4656 |
| Costau wedi cronni ac incwm a ohiriwyd | 44967 | 60795 |
| Treth ac Yswiriant Gwladol | 8874 | 16977 |
| | ---------- | ---------- |
| | 292884 | 449149 |
| | ====== | ====== |

22. **Credydwyr: symniau'n ddyledus ymhen mwy na blwyddyn**

| | 2021<br>£ | 2020<br>£ |
|---|---|---|
| Benthyciadau banc | 259241 | 547069 |
| | ====== | ====== |

| | 2021<br>£ | 2020<br>£ |
|---|---|---|
| Benthyciad banc yn daladwy ymhen mwy na 5 mlynedd | - | 166578 |
| | ====== | ====== |

Mae'r benthyciadau wedi eu sicrhau ar dir ac adeiladau'r elusen.

23. **Incwm a Ohiriwyd**

Mae incwm gohiriedig yn cynnwys blaendaliadau wedi eu derbyn yn ystod y flwyddyn am gyrsiau a digwyddiadau sydd yn digwydd mewn blynyddoedd i ddod. Cyfanswm yr incwm gohiriedig ar y 31.12.21 oedd £74,333 ac ar y 31.12.20 yn £279,883.

24. **Pensiynau**

**Cynllun lle mae cyfraniadau wedi eu diffinio**

Y swm a gynhwyswyd yn y Cyfrif Incwm a Gwariant ar gyfer cynllun pensiwn lle mae'r cyfraniadau wedi eu diffinio oedd £18,651 (2020: £18.683)

25. **Cronfeydd**

**Cronfeydd Anghyfyngedig**

| | Ar 1 Ionawr 2021 £ | Incwm £ | Gwariant £ | Trosglwyddiadau £ | Ar 31 Rhagfyr 2021 £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa Gyffredin | (271634) | 1649279 | (1132783) | (117645) | 127217 |
| Cronfa Asedau Sefydlog | 3383323 | - | (135337) | 117645 | 3365631 |
| Cronfa Asedau Buddsoddiad | 229730 | - | - | - | 229730 |
| | 3341419 | 1649279 | (1268120) | - | 3722578 |

Mae'r Gronfa Asedau Buddsoddiadol yn cynnwys rhodd o eiddo a dderbyniwyd gan berson sy'n dymuno aros yn anhysbys.

**Cronfeydd Cyfyngedig**

| | Ar 1 Ionawr 2021 £ | Incwm £ | Gwariant £ | Trosglwyddiadau £ | Ar 31 Rhagfyr 2021 £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa rhodd anhysbus | 228087 | - | - | - | 228087 |
| | 228087 | - | - | - | 228087 |

26. **Dadansoddiad o'r Cronfeydd rhwng yr Asedau Net**

| | Cronfeydd Anghyfyngedig £ | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Cyfanswm 2021 £ | Cyfanswm 2020 £ |
|---|---|---|---|---|
| Asedau Sefydlog | 3367274 | 228087 | 3595361 | 3613053 |
| Asedau Cyfredol | 917429 | - | 917429 | 952671 |
| Credydwyr llai na blwyddyn | (292884) | - | (292884) | (449149) |
| Credydwyr mwy na blwyddyn | (269241) | - | (269241) | (547069) |
| | 3733578 | 228087 | 3950665 | 3569506 |

27. **Gwariant Cyfalaf**

Gwariant cyfalaf wedi ei gytundebu ond heb ei gynnwys yn y cyfrifon.

| | 2021<br>£ | 2020<br>£ |
|---|---|---|
| Datblygiad rhan 2 o'r safle | - | - |
| | ====== | ====== |

28. **Ymrwymiadau Lesiau Gweithredol**

Cyfanswm y taliadau sy'n berthnasol i lesau nad oes posib eu canslo oedd:-

| | 2021<br>£ | 2020<br>£ |
|---|---|---|
| Llai na blwyddyn | 17542 | 17542 |
| | --------- | --------- |
| | 17542 | 17542 |
| | ===== | ===== |

29. **Trafodion gyda Phartïon Perthynol**

Mae'r Elusen yn cael ei rheoli gan yr Ymddiriedolwyr sydd wedi eu henwi ar gychwyn yr adroddiad yma. Ni thalwyd unrhyw gostau teithio i'r Ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn hon na'r flwyddyn cynt.

Ar ddiwedd y flwyddyn roedd y swm canlynol yn daladwy i Ymddiriedolwyr (nid yw llôg yn daladwy ar y benthyciad):-

| | 2021<br>£ | 2020<br>£ |
|---|---|---|
| P. Ellis | 2000 | 2000 |
| | ===== | ===== |

**YMDDIRIEDOLAETH NANT GWRTHEYRN**

**DATGANIAD MANWL O WEITHGAREDDAU ARIANNOL**

**AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR, 2021**

| | 2021 £ | 2020 £ |
|---|---|---|
| **Incwm a gwaddolion** | | |
| **Rhoddion a chymunroddion** | | |
| Ffrindiau'r Nant | 1300 | 1558 |
| Rhoddion a chymunroddion | 27200 | 478 |
| | 28500 | 2036 |
| Grantiau Llywodraeth Cymru | 43190 | - |
| Grantiau Covid | 102239 | 172675 |
| Gweithgareddau masnachol | 587770 | 220833 |
| Elw ar werthu tir | - | 75547 |
| | 733199 | 469055 |
| **Gweithgareddau Elusennol** | | |
| Cyrsiau, bwyd a llety | 60158 | 44132 |
| Grantiau eraill | 212758 | - |
| Grant Canolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol | 614664 | 360766 |
| | 887580 | 404898 |
| **Incwm Buddsoddiadol** | | |
| Llôg banc a dderbyniwyd | - | 6 |
| **Cyfanswm incwm** | 1649279 | 875995 |
| **Gwariant** | | |
| **Gwariant ar weithgareddau elusennol** | | |
| ***Gweithgareddau uniongyrchol*** | | |
| Cyrsiau, priodasau, bwyd a llety | (151249) | (108664) |
| Cyflogau, hyfforddiant a teithio | (602067) | (520414) |
| Yswiriant Cenedlaethol | (40056) | (39567) |
| Costau pensiwn | (18651) | (18683) |
| Costau lesi gweithredol | (21238) | (20384) |
| Gwres a golau | (55814) | (36732) |
| Cynnal a chadw | (104384) | (46687) |
| Yswiriant | (7648) | (6836) |
| Ffôn | (4260) | (4400) |
| Costau swyddfa eraill | (40105) | (30756) |
| Dibrisio | (135337) | (125389) |
| Llôg ar fenthyciadau banc a gorddrafft | (7445) | (12676) |
| TAW anadferadwy | (18088) | (27182) |
| Hysbysebu | (43737) | (2228) |
| Deunyddiau | (3527) | (4039) |
| Costau banc | (7373) | (5796) |
| | (1260979) | (1010433) |
| **Costau Llywodraethu** | | |
| Ffioedd cyfrifo | - | (2467) |
| Ffioedd archwilio | (4075) | (5500) |
| Costau cyfreithiol a chostau proffesiynol | (3066) | (9481) |
| | (7141) | (17448) |
| **Gwariant ar weithgareddau elusennol** | (1268120) | (1027881) |

**YMDDIRIEDOLAETH NANT GWRTHEYRN**

England & Wales - Charity number 1078543

# Accounts

Signed Copy

# YMDDIRIEDOLAETH NANT GWRTHEYRN
# (CYFYNGEDIG TRWY WARANT)

## ADRODDIADAU ARIANNOL

## AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2020

(Rhif y Cwmni 3865538)
(Rhif Elusen 1078543)

# YMDDIRIEDOLAETH NANT GWRTHEYRN

## ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

Cyflwyna'r ymddiriedolwyr eu hadroddiad ynghyd â'r cyfrifon wedi eu harchwilio am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2020.

### Prif Weithgaredd ac Adolygiad

Pwrpas Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn yw hyrwyddo a meithrin, yng Nghymru, addysg a hyfforddiant o'r iaith, diwylliant a llenyddiaeth Cymraeg. Gweithreda'r Cwmni yn bennaf yng Nghanolfan Iaith a Threftadaeth Genedlaethol Nant Gwrtheyrn ger Llithfaen ond hefyd cynhelir gweithgareddau mewn canolfannau eraill, pan yn briodol.

### Manylion eraill

| | | |
|---|---|---|
| **Rhif y Cwmni:** | 3865538 | |
| **Rhif yr Elusen:** | 1078543 | |
| **Swyddfa Gofrestredig:** | Canolfan Genedlaethol Iaith a Diwylliant<br>Nant Gwrtheyrn<br>Llithfaen<br>Pwllheli | |
| **Archwilwyr:** | Owain Bebb a'i Gwmni<br>32 Y Maes<br>Caernarfon | |
| **Bancwyr:** | HSBC<br>Pwllheli | Lloyds TSB<br>Bangor |
| **Cyfreithwyr:** | Ellis Davies & Co.<br>27 Stryd Bangor<br>Caernarfon | |

### Ymddiriedolwyr

Dan y Ddeddf Cwmnïau mae gan yr Ymddiriedolwyr yr un cyfrifoldebau â Chyfarwyddwyr. Mae Cyfarwyddwyr yr Ymddiriedolaeth yn cael eu hethol o'r aelodaeth yn flynyddol yn ystod y Cyfarfod Blynyddol a'r aelodau a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn ac ar hyn o bryd yw:-

Y Meddyg Carl Clowes
Phyllis Ellis (Ysgrifenydd)
Huw Jones (Cadeirydd)
Menna Jones (Is-gadeirydd)
Ifor Gruffydd
Jo Iwan
Jeff Williams-Jones (Ymddiswyddodd Gorffennaf 2020)
Clive Wolfendale (Trysorydd)
Gwenda Griffith
Myrddin ap Dafydd
Ann Hughes

### Prif Aelodau Staff

Mair Saunders - Prif Reolwr

### Strwythur, Llywodraethu a Rheoli

Elusen gofrestredig a chwmni cyfyngedig trwy warant yw Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn, a gaiff ei lywodraethu gan Femorandwm ac Erthyglau'r Cwmni. Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi yn unol â gofynion sy'n berthnasol i gwmni elusennol.

**Strwythur, Llywodraethu a Rheoli - parhad**

Mae aelodaeth Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn yn agored i unrhyw unigolyn neu gorff gyda diddordeb mewn hyrwyddo ei amcanion, sydd yn gwneud cais i'r cwmni elusennol ar y ffurflen briodol ac sydd yn derbyn cymeradwyaeth Ymddiriedolwyr yr Ymddiriedolaeth.

Mae gan y cwmni broses i anwytho ymddiriedolwyr newydd. Etholir aelodau a swyddogion i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth yn y Cyfarfod Blynyddol. Mae Ymddiriedolwyr yr Ymddiriedolaeth (Y Bwrdd), nad ydynt yn fwy nag 11 mewn nifer, yn rheoli'r Cwmni Elusennol, ei eiddo a'i gronfeydd. Mae hawl gan y Bwrdd i gyfethol aelodau gyda gwybodaeth neu ddiddordeb arbennig mewn maes perthnasol. Gweithredir unrhyw strategaethau a fabwysiedir gan staff yr Ymddiriedolaeth. Cynhelir cyfarfodydd y Bwrdd o leiaf bedair gwaith y flwyddyn.

Mae asesiad risg llawn ar gyfer Iechyd a Diogelwch wedi ei gwblhau.

**Amcanion a Gweithgareddau**

Amcanion y Cwmni yw meithrin addysg yng Nghymru ac i hyrwyddo addysg ac astudiaeth y cyhoedd yn yr iaith Gymraeg, llenyddiaeth a diwylliant Cymraeg ac i weithredu hyn mewn canolfan neu ganolfannau addas (rhai preswyl neu ddibreswyl) yng Nghymru. Bu holl weithgareddau'r Cwmni yn ystod 2020 yn unol â'r amcanion hyn.

**Adroddiad ar Weithgareddau'r Flwyddyn**

Roedd 2020 yn flwyddyn unigryw i Nant Gwrtheyrn , fel i bawb arall, oherwydd Covid-19.

O ddiwedd Mawrth ymlaen, bu'r safle ar gau am y rhan fwyaf o'r flwyddyn, ac eithrio pan laciwyd ar y cyfyngiadau ar gyfer misoedd yr haf.

O'r herwydd effeithiwyd yn ddirfawr ar berfformiad ariannol yr Ymddiriedolaeth ac mae'r cyfrifon yn dangos hynny yn y golled am y flwyddyn o £151,886, o'i gymharu a'r gwarged o £232,534 a gafwyd yn 2019.

Er hynny, gallwn ymfalchïo fod y sefyllfa yn llai tywyll, a'r golled yn llai, nag y gallai fod wedi bod. Roeddd nifer o ffactorau yn gyfrifol am hynny.

Sicrhaodd cynllun Seibiant Llywodraeth y DU fod modd gwarchod swyddi'r mwyafrif llethol o'r staff. Aed ati i adnabod y swyddi hynny fyddai angen parhau i weithredu drwy'r cyfnod, gyda rhai'n dychwelyd yn rhan amser am gyfnodau, a chofrestrwyd mwyafrif y gweddill ar y cynllun hwn.

Bu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol yn gefnogol iawn i ymdrechion ein hadran Addysg i addasu'n gyflym iawn i ddarparu gwersi arlein, yn hytrach na wyneb-yn-wyneb. Arbrofwyd gyda dulliau dysgu a bydd y profiad hwn yn berthnasol a gwerthfawr ar gyfer y dyfodol. Llwyddwyd i sicrhau parhad cyfran sylweddol o'r arian grant disgwyliedig.

Cyflwynwyd ceisiadau am grantiau Covid ar gyfer busnesau a chyrff eraill lle roeddent ar gael, a chyfrannodd pob un o'r rhain at ostwng y golled anochel yn sgil cau'r caffi a chanslo pob priodas a chynhadledd. Cafwyd trafodaethau aeddfed gyda'r rhai oedd wedi gwneud trefniadau i ddod atom a bu'n bosibl cytuno ar ddyddiadau newydd yn 2021 a 2022 ar gyfer y mwyafrif.

Yn ystod y flwyddyn, cwblhawyd gwerthiant dau ddarn o dir ar Ynys Môn a gafwyd yn rhodd yn 2007 gan Ms Heulwen Richards. Roedd amgylchiadau penodol y ddau leoliad wedi creu cryn rwystrau yn flaenorol ar gyfer eu gwerthu, ond trwy ddyfalbarhad daethpwyd i ben â'r gwerthiannau gan olygu fod ein cronfa-wrth-gefn ar gyfer argyfwng yn cael ei gryfhau yr union adeg yr oedd ei angen. Hoffai'r Ymddiriedolaeth gofnodi unwaith eto ei diolch didwyll i Ms Richards am ei haelioni.

**Adroddiad ar Weithgareddau'r Flwyddyn - parhad**

Felly hefyd ei diolch i Mair Saunders, y Prif Reolwr, a'r tim bach fu'n cario'r baich trwm o sicrhau trefniadau pridol ar gyfer gwarchod, cynnal a datblygu'r safle, delio â chwsmeriaid dros y ffôn a'r we, cyflwyno'r ceisiadau am gymorth a pharatoi ar gyfer ail-agor a chau yn ôl y rheolau.

Gydag ail-agor rhannol ar gyfer haf 2021 ar y gorwel, gellir dechrau edrych ymlaen at gyfnod o weithredu mwy arferol, ond gyda'r parch angenrheidiol at y Covid a'r canllawiau synhwyrol sy'n dal i fod angen eu gweithredu. Mae tŷ Caerffili wedi ei ail-wampio'n sylweddol i greu lle teilwng ar gyfer pob priodasferch ddaw i'r Nant i ddathlu ei diwrnod mawr, ac mae gwaith ar droed i gyflwyno gwedd newydd ferwnol i rai o'r tai eraill, o gofio fod yna bellach 12 mlynedd wedi mynd heibio ers yr ail-adeiladu mawr diwethaf. Fe fydd yna atyniadau newydd hefyd - yr Hen Feddygfa o Lithfaen lle gellir clywed Dr Carl Clowes yn adrodd ei hanes o drin cleifion yno yn y 70au, a sut y ganwyd yno'r syniad o drawsnewid Nant Gwrtheyrn yn Ganolfan Iaith. Fe fydd yna gyflwyniadau fideo newydd i'w gweld yn y Ganolfan Dreftadaeth, ar hanes y Nant a hanes yr iaith Gymraeg.

Mae'n fwy anodd nag erioed rhagweld beth yn union fydd hanes y flwyddyn nesaf. Eisoes collwyd traean ohoni, ond o gymryd na fydd tonnau ychwanegol o'r pandemig yn dod ar ein traws, rydym yn weddol hyderus y bydd yr awydd i ddod at ein gilydd, i fwynhau harddwch naturiol y Nant, i ddysgu'r iaith Gymraeg gydag athrawon ymroddedig, i gyd-ddathlu a chyd-drafod, oll yn golygu y bydd yna alw mawr am adnoddau a nodweddion unigryw Nant Gwrtheyrn unwaith yn rhagor.

**Adolygiad Ariannol**

Mae'r elusen wedi gwneud diffyg yn y flwyddyn hon o £151,886 (2019: gwarged - £232,534).

**Polisi'r elusen ynglŷn â'r cronfeydd wrth gefn**

Y mae'r Elusen wedi mabwysiadu polisi cronfa wrth gefn. Bydd y cwmni yn anelu i gadw mewn cronfa wrth gefn dau fis o gostau rhedeg cyfredol, gan geisio cynyddu'r gronfa i swm sydd yn gyfartal i bedwar mis o gostau rhedeg.

**Datganiad Budd y Cyhoedd**

Mae'r Bwrdd wedi ystyried adroddiad y Comisiwn Elusennau ynglŷn â Budd i'r Cyhoedd ac maent yn fodlon bod gweithgareddau'r elusen yn ystod y flwyddyn, fel y disgrifiwyd uchod, yn unol â'r prawf hwnnw.

**Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr**

Mae'r Ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr o'r cwmni at bwrpas cyfraith cwmni) yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r adroddiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig (UKGAAP).

Mae cyfraith cwmni yn ei wneud yn ofynnol i Ymddiriedolwyr baratoi Adroddiadau Ariannol sydd yn rhoi golwg cywir a theg o sefyllfa ariannol y cwmni elusennol ac o'r adnoddau i mewn ac allan gan gynnwys incwm a gwariant o'r cwmni elusennol am y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r adroddiadau ariannol, mae yn rhaid i'r Ymddiriedolwyr:-

- ddewis polisïau cyfrifo addas ac yna eu gweithredu yn gyson.
- dilyn egwyddorion a gweithdrefnau sydd yn y SORP elusennau.
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon sydd yn rhesymol ac yn ddarbodus.
- datgan os yw Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig perthnasol wedi eu dilyn, yn amodol i unrhyw newid materol sydd wedi eu datguddio a'u hegluro yn yr Adroddiadau Ariannol, a
- paratoi adroddiadau ariannol ar sail bod y busnes yn parhau oni bai nad yw yn addas i gymeryd y bydd y cwmni elusennol yn parhau mewn busnes.

## ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR - parhad

### Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr - parhad

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifo digonol sydd yn datgelu gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol y cwmni elusennol, ac i'w galluogi i sicrhau bod yr Adroddiadau Ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Maent hefyd yn gyfrifol am sicrhau asedion y cwmni elusennol a thrwy hynny cymeryd camau rhesymol er mwyn atal a datgelu unrhyw dwyll neu anghysondeb arall.

Cyn belled a bod yr Ymddiriedolwyr yn ymwybodol:-

- nid oes unrhyw wybodaeth archwilio nad yw archwilwyr y cwmni elusennol yn ymwybodol ohono, ac

- y mae'r Ymddiriedolwyr wedi cymryd y camau sy'n ddyletswydd arnynt i sicrhau eu bod yn hysbys o unrhyw wybodaeth fyddai'n berthnasol i'r archwiliad, ac i sicrhau fod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth hynny.

Mae'r adroddiad hwn wedi ei arwyddo ar ran y Bwrdd ar 8.6.21 gan:

P. W. Ellis ........................................ Phyllis Ellis (Ysgrifennydd)

## YMDDIRIEDOLAETH NANT GWRTHEYRN

## ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL
## I AELODAU YMDDIRIEDOLAETH NANT GWRTHEYRN

### Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2020 sy'n cynnwys Datganiad o Symudiadau Ariannol, Mantolen, a datganiad llif Arian a nodiadau ar y datganiadau ariannol, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu pwysig. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd i'w paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102: Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:-

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Elusen ar y 31 Rhagfyr 2020 ac o'r adnoddau a ddaeth i law a'r defnydd o adnoddau am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â'r Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig;
- wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

### Sail y farn

Rydym wedi cynnal ein harchwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) (ISAs (y DU)) a'r gyfraith berthnasol. Caiff ein cyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach o dan adran cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol yn ein hadroddiad. Rydym yn annibynnol ar yr Elusen yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad ar ddatganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol [a'r darpariaethau sydd ar gael i gyrff bach, o dan yr amgylchiadau sydd yn nodyn 2 ar y datganiadau ariannol], ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Rydym yn credu bod y dystiolaeth archwilio rydym wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol er mwyn rhoi sail ar gyfer ein barn.

### Casgliadau'n ymwneud â busnes byw

Nid oes gennym ddim i adrodd yn ei gylch yng nghyswllt y materion canlynol lle mae ISAs (y DU) yn ei gwneud yn ofynnol i ni roi gwybod i chi:-

- os nad yw defnydd yr ymddiriedolwyr o sail cyfrifyddu busnes byw wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- os nad yw'r ymddiriedolwyr wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd o bwys a ganfuwyd a allai fwrw amheuaeth sylweddol dros allu'r Elusen i barhau i fabwysiadu'r sail cyfrifyddu busnes byw am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad pryd yr awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

### Gwybodaeth arall

Yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol, ac eithrio'r datganiadau ariannol a'n hadroddiad ni fel archwilydd arnynt. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall ac nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny, ac eithrio i'r graddau y gwnaed hynny'n benodol fel arall yn ein hadroddiad.

Yng nghyswllt ein harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen yr wybodaeth arall a, drwy wneud hynny, ystyried a oes anghysondeb o bwys rhwng yr wybodaeth arall a'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth rydym ni wedi'i chael yn yr archwiliad, neu a yw'n ymddangos bod camddatganiad o bwys yn yr wybodaeth arall. Os byddwn yn canfod anghysonderau o bwys neu gamddatganiadau o bwys tybiedig, mae'n ofynnol i ni bennu a oes camddatganiad o bwys yn y datganiadau ariannol neu gamddatganiad o bwys o'r wybodaeth arall. Ar sail y gwaith rydym wedi'i wneud, os byddwn yn dod i'r casgliad bod camddatganiad o bwys o'r wybodaeth arall hon, mae'n rhaid i ni adrodd ar y ffaith honno.

Nid oes gennym ddim i'w adrodd i'r perwyl hwn.

ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL
I AELODAU YMDDIRIEDOLAETH NANT GWRTHEYRN

**Barn ar faterion eraill a bennir gan Ddeddf Cwmnïau 2006**

Yn ein barn ni, ar sail y gwaith a wnaed wrth gynnal yr archwiliad:-

- mae'r wybodaeth yn adroddiad yr ymddiriedolwyr (sy'n cynnwys yr adroddiad strategol ac adroddiad y cyfarwyddwyr) ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi ar ei chyfer, yn gydnaws â'r datganiadau ariannol; ac
- mae adroddiad yr ymddiriedolwyr (sy'n cynnwys yr adroddiad strategol ac adroddiad y cyfarwyddwyr) wedi cael eu paratoi yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

**Materion y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt drwy eithriad**

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Elusen a'i hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, dydyn ni ddim wedi dod o hyd i unrhyw gamddatganiadau sylweddol yn Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr [gan gynnwys yr Adroddiad Strategol].

Nid oes gennym ddim i'w adrodd yng nghyswllt y materion canlynol lle mae'n ofynnol inni o dan Ddeddf Cwmnïau 2006 roi adroddiad ichi os, yn ein barn ni:-

- nad oes cofnodion cyfrifyddu priodol wedi cael eu cadw, neu nad oes ffurflenni perthnasol i'n harchwiliad wedi cael eu cyflwyno gan ganghennau nad ydym wedi ymweld â nhw;
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r ffurflenni a'r cofnodion cyfrifyddu;
- nad yw rhai o daliadau'r ymddiriedolwyr, a nodir yn y gyfraith, wedi cael eu datgelu; neu
- nad ydym wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sy'n angenrheidiol ar gyfer ein harchwiliad.

**Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr**

Fel yr esboniwyd yn fwy manwl yn y datganiad o gyfrifoldebau ymddiriedolwyr [a nodwyd ar dudalen 3], mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac am y rheolaeth fewnol sy'n angenrheidiol yn eu barn hwy er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sydd ddim yn cynnwys camddatganiadau o bwys, boed o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad.
Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r Elusen i barhau fel busnes byw, gan ddatgelu, fel bo'n berthnasol, faterion sy'n gysylltiedig â busnes byw a defnyddio sail cyfrifyddu busnes byw oni fo'r ymddiriedolwyr un ai'n bwriadu diddymu'r Elusen neu roi'r gorau i weithredu, neu nad oes ganddynt unrhyw opsiwn realistig arall heblaw am hynny.

**Ein cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol**

Ein hamcanion ni yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau o bwys, boed y rheini wedi'u gwneud drwy dwyll neu gamgymeriad, a rhoi ein barn ni ar ffurf adroddiad yr archwilydd. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (y DU) bob amser yn dod o hyd i gamddatganiad o bwys pan fydd yn bodoli. Mae camddatganiadau'n gallu codi drwy dwyll neu gamgymeriad ac maent yn cael eu hystyried yn rhai o bwys os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y byddai'n rhesymol disgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol i'w ganfod ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: [www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities]. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n hadroddiad fel archwilydd.

## ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL
## I AELODAU YMDDIRIEDOLAETH NANT GWRTHEYRN

**Defnyddio ein hadroddiad**

Caiff yr adroddiad hwn ei wneud ar gyfer aelodau'r Elusen yn unig, fel corff, yn unol â Phennod 3, Rhan 16 o Ddeddf Cwmnïau 2006. Cyflawnwyd ein gwaith archwilio er mwyn i ni allu datgan wrth aelodau'r Elusen y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan wrthynt mewn adroddiad archwilydd, ac i ddim pwrpas arall. I'r graddau mwyaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn ysgwyddo cyfrifoldeb i neb, ac eithrio i aelodau'r Elusen fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.

***Rhys Harris***
***Prif Archwiliwr Statudol***
***Dros ac ar ran***
***Owain Bebb a'i Gwmni***
***Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilwyr Statudol***
***32 Y Maes,***
***Caernarfon.***

18/6/2021

## DATGANIAD O SYMUDIADAU ARIANNOL (INCWM A GWARIANT) A DATGANIAD O HOLL ENILLION/COLLEDION

### AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR, 2020

| | Nodyn | Cronfeydd Anghyfyngedig £ | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Cyfanswm 2020 £ | Cyfanswm 2019 £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm a Gwaddolion** | | | | | |
| Rhoddion a Chymunroddion | **5** | 2036 | - | 2036 | 12387 |
| Gweithgareddau Elusennol | **6** | 404898 | - | 404898 | 803171 |
| Incwm Buddsoddiadol | **7** | 6 | - | 6 | 12 |
| Gweithgareddau Masnachol | | 469055 | - | 469055 | 791093 |
| **Cyfanswm Incwm** | | 875995 | - | 875995 | 1606663 |
| **Gwariant** | | | | | |
| Gwariant ar weithgareddau elusennol | **8,9** | 1027881 | - | 1027881 | 1374129 |
| **Cyfanswm y gwariant** | | 1027881 | - | 1027881 | 1374129 |
| **Incwm Net** | | (151886) | - | (151886) | 232534 |
| Trosglwyddiad rhwng cronfeydd | | - | - | - | - |
| **Symudiadau Net yn y Cronfeydd** | | (151886) | - | (151886) | 232534 |
| **Cymodlannedd y Cronfeydd** | | | | | |
| Cyfanswm y Cronfeydd d/y | | 3493305 | 228087 | 3721392 | 3488858 |
| **Cronfeydd y Cronfeydd c/y** | | 3341419 | 228087 | 3569506 | 3721392 |

Mae'r datganiad hwn yn cynnwys holl enillion a cholledion cydnabyddedig y flwyddyn.

Mae'r cyfan o'r incwm a'r gwariant yn deillio o weithgareddau sy'n parhau.

## MANTOLEN

### AR 31 RHAGFYR, 2020

| | Nodyn | 2020 £ | 2019 £ |
|---|---|---|---|
| **ASEDAU SEFYDLOG** | | | |
| Asedau Gweladwy | **17** | 3383323 | 3464411 |
| Tir ac adeilad buddsoddiadol | **18** | 229730 | 499230 |
| | | 3613053 | 3963641 |
| **ASEDAU CYFREDOL** | | | |
| Stoc | **19** | 13624 | 17251 |
| Dyledwyr | **20** | 90196 | 126697 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | | 848851 | 574533 |
| | | 952671 | 718481 |
| **CREDYDWYR** - symiau'n daladwy o fewn blwyddyn | **21** | (449149) | (347206) |
| **(CREDYDWYR)/ASEDAU CYFREDOL NET** | | 503522 | 371275 |
| **CYFANSWM ASEDAU LLAI CREDYDWYR CYFREDOL** | | 4116575 | 4334916 |
| **CREDYDWYR** - symiau'n daladwy ar ôl blwyddyn | **22** | (547069) | (613524) |
| **ASEDAU NET** | | 3569506 | 3721392 |
| **CRONFEYDD** | | | |
| Cronfeydd Anghyfyngedig | | 3341419 | 3493305 |
| Cronfeydd Cyfyngedig | | 228087 | 228087 |
| | **25** | 3569506 | 3721392 |

Mae'r cyfrifon wedi eu mabwysiadu gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ac wedi eu harwyddo ar ran y Bwrdd ar 7fed Mehefin 2021 gan:

........................................................ Huw Jones (Cadeirydd)

Mae'r nodiadau ar dudalennau 11 i 21 yn ffurfio rhan gyflawn o'r cyfrifon hyn.

## DATGANIAD LLIF ARIAN

## AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU'R 31 RHAGFYR, 2020

| | 2020 £ | 2019 £ |
|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredol** | | |
| Incwm net | (151886) | 232534 |
| Addasiad ar gyfer: | | |
| Dibrisio asedau dirweddol | 125389 | 119814 |
| Elw ar warediadau asedau | (75547) | (542) |
| Llôg a dderbyniwyd ac incwm tebyg | (6) | (12) |
| Llôg a dalwyd a chostau tebyg | 12676 | 17010 |
| Costau/(incwm) wedi cronni | - | 30310 |
| Newidiadau mewn: | | |
| Stoc | 3627 | 1693 |
| Dyledwyr masnachol a dyledwyr eraill | 36501 | (19809) |
| Credydwyr masnachol a chredydwyr eraill | 102105 | (45984) |
| Arian a gynhyrchwyd o weithgareddau | 52859 | 335014 |
| Llôg a dalwyd | (12676) | (17010) |
| Llôg a dderbyniwyd | 6 | 12 |
| Arian net o weithgareddau gweithredol | 40189 | 318016 |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | |
| Pryniant asedau sefydlog | (44301) | (167264) |
| Incwm gwarediadau asedau | 345047 | 542 |
| Defnydd net arian ar weithgareddau buddsoddiadol | 300746 | (166722) |
| **Llif arian o weithgareddau cyllidol** | | |
| Taliadau ar fenthyciadau | (66617) | (66655) |
| Arian net/(defnyddiwyd) o weithgareddau cyllidol | (66617) | (66655) |
| **Cynnydd net mewn arian ar hyn sy'n cyfateb i arian** | 274318 | 84639 |
| **Arian a'r hyn sy'n cyfateb i arian ar ddechrau'r flwyddyn** | 574533 | 489894 |
| **Arian a'r hyn sy'n cyfateb i arian ar ddiwedd y flwyddyn** | 848851 | 574533 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 11 i 21 yn ffurfio rhan gyflawn o'r cyfrifon hyn.

**NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL**

**AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR, 2020**

1. **Gwybodaeth Cyffredinol**

Mae'r elusen yn gwmni preifat yn gyfyngedig trwy warant ac yn elusen a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr. Cyfeiriad y swyddfa gofrestredig yw Canolfan Nant Gwrtheyrn, Nant Gwrtheyrn, Llithfaen, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6NL.

2. **Datganiad o Gydymffurfiad**

Mae'r Datganiadau Ariannol yma wedi eu paratoi yn unol ag FRS 102, 'The Financial Reporting Standard applicable in the UK and the Republic of Ireland', a'r 'Statement of Recommended Practice' sy'n berthnasol i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol ag FRS 102 yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (SORP Elusennau (FRS 102)) a Deddf Elusennau 2011.

3. **Polisiau Cyfrifo**

**Sail Paratoi**

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol wedi eu haddasu gan ail brisiad mewn rhai asedau, rhwymedigaethau ac eiddo buddsoddiadol, wedi eu mesur yn ôl gwerth teg trwy'r Cyfrif Incwm a Gwariant.

**Busnes Hyfyw**

Nid oes unrhyw ansicrwydd ynglŷn â gallu'r elusen i barhau mewn busnes.

**Dyfarniadau a phrif ansicrwydd parthed amcangyfrifon**

Wrth baratoi'r Adrodiadau Ariannol mae'n rhaid i'r rheolwyr wneud dyfarniadau, amcangyfrifon a phenderfyniadau sy'n effeithio ar y ffigyrau a adroddwyd. Mae'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau yma yn cael eu hadolygu yn gyson ac maent wedi eu seilio ar brofiad a ffactorau eraill gan gynnwys disgwyliadau o ddigwyddiadau yn y dyfodol y credir eu bod yn rhesymol o dan yr amgylchiadau.

**Cyfrifo ar gyfer y cronfeydd**

Mae'r cronfeydd anghyfyngedig ar gael i'w defnyddio ar ddisgresiwn yr Ymddiriedolwyr er mwyn hybu nôd elusennol y cwmni.

Mae cronfeydd penodedig yn gronfeydd anghyfyngedig sydd wedi eu clustnodi gan yr Ymddiriedolwyr ar gyfer pwrpas penodol yn y dyfodol.

Mae cronfeydd cyfyngedig wedi eu cyfyngu yn ôl eu defnydd gan ddymudiad y sawl a wnaeth y rhodd ac maent yn disgyn i fewn i un o ddau ddosbarth, sef cronfeydd cyfyngedig neu cronfeydd cymunroddion.

3. **Polisiau Cyfrifo - parhad**

**Cronfeydd i fewn**

Mae cronfeydd i fewn yn cael eu cynnwys yn y Datganiad o Symudiad Ariannol pan mae'r hawl i'r incwm wedi ei basio i'r elusen. Mae'r polisiau penodol canlynol yn cael eu dilyn:-

- mae incwm o rhoddion a grantiau yn cael ei gydnabod pan mae yna dystiolaeth o'r rhodd ac mae posib ei fesur mewn modd dibynadwy.
- mae incwm o cymunroddion yn cael ei gydnabod pan mae'n debygol bod yr hawl i'w dderbyn wedi ei gytuno.
- mae incwm o nwyddau a roddwyd yn cael ei fesur yn ôl gwerth teg y nwyddau hynny heblaw ei fod yn anymarferol i'w fesur yn y modd yma, ac yn y sefyllfa yma mae'r gwerth a roddir arnynt yn deillio o'r cost i'r rhoddwr neu amcangyfrif o'i gwerth o'u gwerthu. Mae cyfleusterau a rhoddwyd a gwasanaethau yn cael eu cydnabod yn y cyfrifon os oes posib eu mesur mewn modd dibynnol. Nid oes unrhyw werth yn cael ei rhoi ar lafur gwirfoddolwyr.
- mae incwm o gytundebau ar gyfer darparu gwasanaethau yn cael ei gydnabod wrth i'r cytundeb cael ei wireddu. Mae hwn yn cael ei drin fel cronfeydd anghyfyngedig heblaw bod yna amod bod yn rhaid i'r incwm cael ei ddefnyddio at bwrpas penodol, ac yn y sefyllfa yma mae'n cael ei drin fel cronfa cyfyngedig.

**Adnoddau a wariwyd**

Mae gwariant yn cael ei gydnabod fel mae'r cost yn cronni. Mae gwariant yn cynnwys unrhyw Treth ar Werth nad oes posib ei hawlio yn ôl yn gyfan gwbl ac mae'n cael ei ddosbarthu o dan y penawd y mae'r gweithgaredd yn perthyn iddo:-

- mae gwariant ar godi arian yn cynnwys y gweithgareddau codi arian, digwyddiadau, gweithgareddau masnachu an-elusennol a gwerthiant o nwyddau a dderbyniwyd.
- mae gwariant ar weithgareddau elusennol yn cynnwys y cyfan o gostau'r elusen o gwrdd â nôd yr elusen, ac mae rhain yn cynnwys costau cefnogol a llywodraethol yr elusen sydd wedi eu dosrannau i'r gweithgareddau elusennol.
- mae gwariant arall yn cynnwys gwariant nad yw'n berthnasol i godi arian nac i weithgareddau elusennol.

Mae costau yn cael eu dosrannu i gategoriau sy'n adlewyrchu defnydd yr adnodd. Mae costau uniongyrchol ar gyfer gweithgaredd unigol yn cael ei dosrannu'n uniongyrchol i'r gweithgaredd hwnnw. Mae costau sydd yn gyffredin i fwy nac un gweithgaredd yn cael ei dosrannu ar sail rhesymol a chyson.

**Lesau gweithredol**

Mae taliadau lês yn cael eu cydnabod fel cost dros gyfnod y lês ar sail llinell syth.

3. **Polisiau Cyfrifo - parhad**

**Asedau Sefydlog**

Mae asedau sefydlog yn cael eu cofnodi yn wreiddiol yn ôl eu cost, ac yna maent yn cael eu nodi yn ôl eu cost llai dibrisio a cholledion amhariad. Mae unrhyw asedau sefydlog sydd wedi eu hail brisio yn cael eu cofnodi yn ôl eu gwerth teg ar ddyddiad yr ail brisiad, llai dibrisio ac unrhyw colledion amhariad.

**Dibrisio**

Mae dibrisio yn cael ei ddarparu er mwyn ysgrifennu i ffwrdd cost neu gwerth ased llai ei werth gwaddodol dros ei oes economaidd fel a ganlyn:-

| | | |
|---|---|---|
| Safle'r Nant | - | 1% - 10% llinell syth |
| Offer | - | 5% - 20% llinell syth |

**Buddsoddiadau**

Mae buddsoddiadau ecwiti sydd heb eu rhestru yn cael eu cofnodi yn ôl eu cost gwreiddiol ac yna maent yn cael eu cofnodi yn ôl eu gwerth teg. Os nad oes posib mesur gwerth teg yna maent yn cael eu cofnodi yn ôl eu cost llai amhariad.

Mae buddsoddiadau sydd wedi eu rhestru yn cael eu mesur yn ôl eu gwerth teg gyda'r newidiad yn y gwerth teg yn cael ei gofnodi fel incwm neu gwariant.

**Eiddo buddsoddiadol**

Mae eiddo buddsoddiadol yn cael ei gofnodi yn wreiddiol yn ôl ei gost sydd yn cynnwys cost prynnu ac unrhyw gostau uniongyrchol.

Mae eiddo buddsoddiadol yn cael ei ail brisio i'w gwerth teg ar pob diwedd flwyddyn ac mae unrhyw symudiad yn y gwerth teg yn cael ei gydnabod fel incwm neu gwariant.

**Stoc**

Mae stoc yn cael ei fesur yn ôl cost neu ei werth o'i werthu pa'r un bynnag yw'r isaf.

4. **Cyfyngedig trwy Warant**

Mae Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn yn elusen cofrestredig ac yn gwmni cyfyngedig trwy warant sy'n cael ei reoli gan y Memorwndwm a'r Erthyglau o Gymdeithasiad.

5. **Rhoddion a chymunrhoddion**

| **2020** | **Cronfeydd Anghyfyngedig £** | **Cronfeydd Cyfyngedig £** | **Cyfanswm 2020 £** |
|---|---|---|---|
| **Rhoddion** | | | |
| Aelodaeth Ffrindiau'r Nant | 1558 | - | 1558 |
| Rhoddion a chymunrhoddion | 478 | - | 478 |
| | 2036 | - | 2036 |

| **2019** | **Cronfeydd Anghyfyngedig £** | **Cronfeydd Cyfyngedig £** | **Cyfanswm 2019 £** |
|---|---|---|---|
| **Rhoddion** | | | |
| Aelodaeth Ffrindiau'r Nant | 5012 | - | 5012 |
| Rhoddion a chymunrhoddion | 7375 | - | 7375 |
| | 12387 | - | 12387 |

6. **Gweithgareddau Elusennol**

| | **2020 £** | **2019 £** |
|---|---|---|
| Grant Canolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol | 360766 | 641262 |
| Gweithgareddau elusennol | 44132 | 161909 |
| | 404898 | 803171 |

7. **Incwm Buddsoddiadol**

| | **Cronfeydd Anghyfyngedig £** | **Cyfanswm 2020 £** | **Cronfeydd Anghyfyngedig £** | **Cyfanswm 2019 £** |
|---|---|---|---|---|
| Llôg banc a dderbyniwyd | 6 | 6 | 12 | 12 |

## 8. Gwariant ar weithgareddau elusennol

| | Elusennol | Masnachol | Cyfanswm Cronfeydd Anghyfyngedig 2020 | Cyfanswm Cronfeydd Anghyfyngedig 2019 |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| Gwariant uniongyrchol | 469360 | 520689 | 990049 | 1318075 |
| Costau cefnogol | 17592 | 20240 | 37832 | 56054 |
| | 486952 | 540929 | 1027881 | 1374129 |

## 9. Gwariant ar weithgareddau elusennol yn ôl math y gweithgaredd

| | Gweithgareddau Uniongyrchol | Costau Cefnogol | Cyfanswm 2020 | Cyfanswm 2019 |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| Gweithgareddau elusennol | 1010433 | - | 1010433 | 1318075 |
| Costau llywodraethol | - | 17448 | 37832 | 56054 |
| | 1010433 | 17448 | 1027881 | 1374129 |

## 10. Dadansoddiad o Gostau Cefnogol

Costau Llywodraethol:

| | 2020 | 2019 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Ymgynghorwyr | - | 12937 |
| Cyfrifo a gwasanaethau cyfrifyddol ac archwilio | 7967 | 25757 |
| Costau proffesiynol eraill | 9481 | 17360 |
| | 17448 | 56054 |

## 11. Incwm Net

Mae incwm net wedi ei ddatgan ar ôl y canlynol:-

| | 2020 | 2019 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Dibrisio eiddo sefydlog | 125389 | 119814 |
| Costau lesi gweithredol | 20384 | 18212 |

12. **Tâl yr Archwilwyr**

| | 2020 | 2019 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Ffi am archwilio'r adroddiadau ariannol | 5720 | 5200 |
| | ===== | ===== |

13. **Costau Staff**

Mae costau staff fel a ganlyn:-

| | 2020 | 2019 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Cyflogau | 518285 | 593979 |
| Costau Yswiriant Gwladol | 39567 | 33952 |
| Cyfraniadau'r cyflogwr i gynllun pensiwn | 18683 | 17072 |
| | ---------- | ---------- |
| | 576535 | 645003 |
| | ====== | ====== |

Ar gyfartaledd fe gyflogwyd 28 person yn ystod y flwyddyn (2019: 47).

Ni dderbyniodd unrhyw staff mwy na £60,000 fel cyflog yn ystod y flwyddyn (2019: dim).

14. **Costau a thâl yr Ymddiriedolwyr**

Ni thalwyd unrhyw gyflog na buddion i unrhyw un o'r Ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn yn diweddu'r 31.12.20 na 31.12.19.

Ni hawliodd dim o'r Ymddiriedolwyr unrhyw gostau teithio yn ystod y flwyddyn yn diweddu'r 31.12.20 na 31.12.19.

15. **Asedau Rhodd**

Yn ystod 2007 trosglwyddwyd tir Porth y Nant, Pistyll i'r cwmni fel rhodd gan Hanson Quarry Products Europe Ltd. Yn ôl y Bwrdd, a'r ddogfen a gofrestrwyd, nid oes gwerth i'r tir hwn.

Yn ystod 2007 derbyniodd y cwmni rhodd gan Ms Heulwen Richards o'r canlynol:-

Yr Ogof, Ravenspoint, Bae Trearddur, Ynys Mon, sef cartref Ms Richards. Mae ganddi les ar yr eiddo am weddill ei hoes. Gwerth yr eiddo yw £228,087. Mae'r eiddo hwn yn ffurfio rhan o'r cronfeydd cyfyngedig.

Siar 75% mewn darn o dir a elwir yn Cae Capel, Caergybi. Gwerth y tir oedd £269,171. Fe werthwyd y darn tir yma yn ystod 2020 am swm o £184,700 ar ôl costau cyfreithiol, a talu siar heulwen Richards iddi.

Siar 49% mewn 6 cae yn ardal Caergybi a adnabyddir fel Tir Môn. Oherwydd mai ond 49% sydd yn berchen i'r cwmni, mae'r gwerth a roddir iddo yn y cyfrifon yn isel, sef £1,972. Fe werthwyd y caeau yma, ac fe dderbyniodd y cwmni swm o £160,707 am ei siar 49%.

Fe briswyd y cyfan o'r darnau tir ac adeiladau gan Dafydd Hardy MRICS ym mis Mai 2009.

16. **Ymrwymiadau Amodol - Grantiau**

Hyd at y 31 Rhagfyr, 2020 mae'r Nant wedi derbyn grantiau cyfalaf gan nifer o arianwyr i ddatblygu'r Capel a Chanolfan Ddehongli, Ffordd i'r Nant a Safle'r Nant. Mae cyfanswm y grantiau yma wedi eu nodi isod, ac efallai y bydd yn rhaid i'r Nant ad-dalu'r grant yn ôl mewn cyfnod penodol os yw'r cwmni yn newid yr amodau yn y cytundeb.

| | **2020** £ | **2019** £ |
|---|---|---|
| WEFO - cam 2 | 600000 | 600000 |
| Loteri | 523846 | 523846 |
| | ====== | ====== |

17. **Asedau Sefydlog**

| | **Safle'r Nant** £ | **Offer** £ | **Cyfanswm** £ |
|---|---|---|---|
| **Cost** | | | |
| Ar 1 Ionawr 2020 | 7560458 | 140386 | 7700844 |
| Ychwanegiadau | 30081 | 14220 | 44301 |
| Gwarediadau | - | - | - |
| Ar 31 Rhagfyr 2020 | 7590539 | 154606 | 7745145 |
| **Dibrisio** | | | |
| Ar 1 Ionawr 2020 | 4169338 | 67095 | 4236433 |
| Am y flwyddyn | 110468 | 14921 | 125389 |
| Ar 31 Rhagfyr 2020 | 4279806 | 82016 | 4361822 |
| **Gwerth yn y Llyfrau** | | | |
| Ar 31 Rhagfyr 2020 | 3310733 | 72590 | 3383323 |
| Ar 31 Rhagfyr 2019 | 3391120 | 73291 | 3464411 |

Mae Safle'r Nant wedi ei brisio ar y farchnad agored gan Christies yn Hydref 2019 fel £3.3m. Mae'r Bwrdd o'r farn bod gwerth y safle ar 31 Rhagfyr, 2020 yn adlewyrchiad teg, ac felly mae'r Bwrdd yn cytuno nid oes angen cost amhariad yn ystod y flwyddyn.

18. **Buddsoddiadau**

| **Eiddo Buddsoddiadol** | **2020** £ | **2019** £ |
|---|---|---|
| **Cost** | | |
| Ar 1 Ionawr 2020 | 499230 | 499230 |
| Gwaredwyd | (269500) | - |
| Ar y 31 Rhagfyr 2020 | 229730 | 499230 |
| **Gwerth yn y llyfrau** | | |
| Ar 1 Ionawr 2020 | 499230 | 499230 |
| Ar y 31 Rhagfyr 2020 | 229730 | 499230 |

Mae'r cyfan o'r buddsoddiadau a ddangosir uchod yn cael eu dangos yn ôl eu gwerth.

**Eiddo Buddsoddiadol**

Yr eiddo a waredwyd oedd Cae Capel, Bae Trearddur oedd a gwerth d/y £269,171, a'r 6 cae a adwaenid fel Tir Mon oedd a gwerth yn y cyfrifon o £1,972. Felly erbyn 31 Rhagfyr 2020, dim ond tŷ Yr Ogof oedd ar ol.

19. **Stoc**

| | **2020** £ | **2019** £ |
|---|---|---|
| Stoc | 13624 | 17251 |

20. **Dyledwyr**

| | **2020** £ | **2019** £ |
|---|---|---|
| Dyledwyr masnachol | 65689 | 85625 |
| Taliadau ymlaen llaw ac incwm wedi cronni | 7324 | 13812 |
| Dyledwyr eraill | 17183 | 27260 |
| | 90196 | 126697 |

21. **Credydwyr: symiau'n daladwy o fewn blwyddyn**

| | 2020<br>£ | 2019<br>£ |
|---|---|---|
| Benthyciadau banc a gorddrafft | 86838 | 94541 |
| Incwm ymlaen llaw | 279883 | 165646 |
| Credydwyr masnachol | 4656 | 10883 |
| Costau wedi cronni ac incwm a ohiriwyd | 60795 | 57989 |
| Treth ac Yswiriant Gwladol | 16977 | 18147 |
| | 449149 | 347206 |

22. **Credydwyr: symniau'n ddyledus ymhen mwy na blwyddyn**

| | 2020<br>£ | 2019<br>£ |
|---|---|---|
| Benthyciadau banc | 547069 | 613524 |

| | 2020<br>£ | 2019<br>£ |
|---|---|---|
| Benthyciad banc yn daladwy ymhen mwy na 5 mlynedd | 166578 | 253578 |

Mae'r benthyciadau wedi eu sicrhau ar dir ac adeiladau'r elusen.

23. **Incwm a Ohiriwyd**

Mae incwm gohiriedig yn cynnwys blaendaliadau wedi eu derbyn yn ystod y flwyddyn am gyrsiau a digwyddiadau sydd yn digwydd mewn blynyddoedd i ddod. Cyfanswm yr incwm gohiriedig ar y 31.12.20 oedd £279,883 ac ar y 31.12.19 yn £165,656.

24. **Pensiynau**

**Cynllun lle mae cyfraniadau wedi eu diffinio**

Y swm a gynhwyswyd yn y Cyfrif Incwm a Gwariant ar gyfer cynllun pensiwn lle mae'r cyfraniadau wedi eu diffinio oedd £18,683 (2019: £17,072)

25. **Cronfeydd**

**Cronfeydd Anghyfyngedig**

| | Ar 1 Ionawr 2020 £ | Incwm £ | Gwariant £ | Trosglwyddiadau £ | Ar 31 Rhagfyr 2020 £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa Gyffredin | (242249) | 800448 | (902492) | 72659 | (277634) |
| Cronfa Asedau Sefydlog | 3464411 | - | (125389) | 44301 | 3383323 |
| Cronfa Asedau Buddsoddiad | 271143 | 75547 | - | (116960) | 229730 |
| | 3493305 | 875995 | (1027881) | - | 3341419 |

Mae'r Gronfa Asedau Buddsoddiadol yn cynnwys rhodd o eiddo a dderbyniwyd gan berson sy'n dymuno aros yn anhysbys.

**Cronfeydd Cyfyngedig**

| | Ar 1 Ionawr 2020 £ | Incwm £ | Gwariant £ | Trosglwyddiadau £ | Ar 31 Rhagfyr 2020 £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa rhodd anhysbus | 228087 | - | - | - | 228087 |
| | 228087 | - | - | - | 228087 |

26. **Dadansoddiad o'r Cronfeydd rhwng yr Asedau Net**

| | Cronfeydd Anghyfyngedig £ | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Cyfanswm 2020 £ | Cyfanswm 2019 £ |
|---|---|---|---|---|
| Asedau Sefydlog | 3384966 | 228087 | 3613053 | 3963641 |
| Asedau Cyfredol | 952671 | - | 952671 | 718481 |
| Credydwyr llai na blwyddyn | (449149) | - | (449149) | (347206) |
| Credydwyr mwy na blwyddyn | (547069) | - | (547069) | (613524) |
| | 3341419 | 228087 | 3569506 | 3721392 |

27. **Gwariant Cyfalaf**

Gwariant cyfalaf wedi ei gytundebu ond heb ei gynnwys yn y cyfrifon.

| | 2020<br>£ | 2019<br>£ |
|---|---|---|
| Datblygiad rhan 2 o'r safle | - | - |
| | ====== | ====== |

28. **Ymrwymiadau Lesiau Gweithredol**

Cyfanswm y taliadau sy'n berthnasol i lesau nad oes posib eu canslo oedd:-

| | 2020<br>£ | 2019<br>£ |
|---|---|---|
| Llai na blwyddyn | 17542 | 21584 |
| | --------- | --------- |
| | 17452 | 21584 |
| | ===== | ===== |

29. **Trafodion gyda Phartïon Perthynol**

Mae'r Elusen yn cael ei rheoli gan yr Ymddiriedolwyr sydd wedi eu henwi ar gychwyn yr adroddiad yma. Ni thalwyd unrhyw gostau teithio i'r Ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn hon na'r flwyddyn cynt.

Ar ddiwedd y flwyddyn roedd y swm canlynol yn daladwy i Ymddiriedolwyr (nid yw llôg yn daladwy ar y benthyciad):-

| | 2020<br>£ | 2019<br>£ |
|---|---|---|
| P. Ellis | 2000 | 2000 |
| | ===== | ===== |

30. **Digwyddiadau wedi dyddiad y Fantolen**

Ar ddiwedd mis Mawrth, 2020 bu'n rhaid i'r Ganolfan gau oherwydd y pandemic Coronavirus. Cafodd hyn effaith difrifol ar ganlyniadau ariannol yr elusen am y flwyddyn 2020. Mae'r cyfyngiadau yn golygu bod y Ganolfan yn dal ar gau ar ddyddiad arwyddo'r cyfrifon. Ond mae'r Bwrdd yn ffyddiog bod gan yr elusen ddigon o gronfeydd wrth gefn i'w alluogi i oroesi'r ergyd. Mae'n iawn felly bod y cyfrifon wedi cael eu paratoi ar sail ei fod yn fusnes hyfyw.

YMDDIRIEDOLAETH NANT GWRTHEYRN

DATGANIAD MANWL O WEITHGAREDDAU ARIANNOL

AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR, 2020

| | 2020 £ | 2019 £ |
|---|---|---|
| **Incwm a gwaddolion** | | |
| **Rhoddion a chymunroddion** | | |
| Ffrindiau'r Nant | 1558 | 5012 |
| Rhoddion a chymunroddion | 478 | 7375 |
| | 2036 | 12387 |
| Grantiau Covid | 172675 | - |
| Gweithgareddau masnachol | 220833 | 791093 |
| Elw ar werthu tir | 75547 | - |
| | 469055 | 791093 |
| **Gweithgareddau Elusennol** | | |
| Cyrsiau, bwyd a llety | 44132 | 161909 |
| Incwm arall | - | - |
| Grant Canolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol | 360766 | 641262 |
| | 404898 | 803171 |
| **Incwm Buddsoddiadol** | | |
| Llôg banc a dderbyniwyd | 6 | 12 |
| **Cyfanswm incwm** | 875995 | 1606663 |
| **Gwariant** | | |
| **Gwariant ar weithgareddau elusennol** | | |
| ***Gweithgareddau uniongyrchol*** | | |
| Cyrsiau, priodasau, bwyd a llety | (108664) | (335749) |
| Cyflogau, hyfforddiant a teithio | (520414) | (593979) |
| Yswiriant Cenedlaethol | (39567) | (33952) |
| Costau pensiwn | (18683) | (17072) |
| Costau lesi gweithredol | (20384) | (18212) |
| Gwres a golau | (36732) | (44326) |
| Cynnal a chadw | (46687) | (47767) |
| Yswiriant | (6836) | (5262) |
| Ffôn | (4400) | (3172) |
| Costau swyddfa eraill | (30756) | (36046) |
| Dibrisio | (125389) | (119814) |
| Elw ar werthiant asedau | - | 542 |
| Llôg ar fenthyciadau banc a gorddrafft | (12676) | (17010) |
| TAW anadferadwy | (27182) | (19408) |
| Hysbysebu | (2228) | (10959) |
| Deunyddiau | (4039) | (6273) |
| Costau banc | (5796) | (9616) |
| | (1010433) | (1318075) |
| **Costau Llywodraethu** | | |
| Ffioedd cyfrifo | (2467) | (20557) |
| Ffioedd archwilio | (5500) | (5200) |
| Costau cyfreithiol a chostau proffesiynol | (9481) | (30297) |
| | (17448) | (56054) |
| **Gwariant ar weithgareddau elusennol** | (1027881) | (1374129) |